





Margaret Motgamb.
Form 3L.
Dorchester 3L.









I

WERIN

AC I


BLANT

CYMRU

Y CYFLWYNIR Y GYFRES HON,
AM MAI IDDYNT HWY Y CYFLWYNODD

OWEN M. EDWARDS

LAFUR EI FYWYD.



RHAGAIR.



A DDEALLAIST ti, ddarlennydd mwyn o Gymro, gyfrinion y môr neu swyn natur? A welaist ti brydferthwch Cymru, dy fam-wlad dy hun? Os do, cei weled Cymru yn brydferthach nag erioed o ddarllen y llyfr hwn; os na welaist ac na theimlaist hud dy wlad, cei agoriad llygad. Ceisia ddeall cariad angerddol Owen Edwards tuag at ei “Walia fach”; fe fyddi’n well Cymro wedyn, ac yn well dyn.

CYNHWYSIAD.

	<i>Tudalen.</i>
I.—Y PRIF-FFYRDD A'R CAEAU.	
Ardal Ardudwy	11
II.—Y GLYNNOEDD AUR.	
Dolgellau a Llanfachreth. Fychaniaid Nannau	23
III.—LLANELWEDD.	
Sir Faesyfed. Rhamant bywyd merch	29
IV.—BEDD Y MORWR.	
Aberaeron	34
V.—PLU'R GWEUNYDD.	
Cors Tregaron. Plu'r gweunydd yn angylion ..	47
VI.—DYDDIAU MAFON DUON.	
Drwsynant, Sir Feirionnydd	58
VII.—EWENNI.	
Edward Matthews	69
VIII.—DYFFRYN BANW.	
Llanfaircaereinion. Owen Jones, y Gelli	76

IX.—O DDINAS DINLLE I BEN CARMEL.

Tudalen.

Sir Gaernarfon 96

X.—I DREF Y BALA.

Michael Jones; Tom Ellis; William Roberts;
John Thomas a Robert Jones 101

XI.—DISSERTH.

Ardal a gollodd ei hiaith 108

XII.—CORWEN.


Cartref Eisteddfod 1919. Gwlad Glyndwr 118

XIII.—DROS FIGNEINT.

O'r Bala i Ffestiniog 127

GEIRFA 131





YN Y WLAD.

I.

Y PRIF-FFYRDD A'R CAEAU.

I GYMRO, anodd yw gwneud ei gartref mewn tref; plentyn y mynydd a'r môr a'r awyr lân agored yw ef. Deffry dyhead yn ei galon am y cwm a'r llyn a'r caeau, ac y mae swyn y breuddwyd hwnnw yn ei dynnu allan o drigfannau dynion yn ol i'w wlad ei hun. Ni dduir ei hawyr hi ond yn anaml iawn gan fwg trwm dinasoedd. Yno y mae milltiroedd rhwng pentre a phentre, ac yno y mae holl gyfrinion natur yn agored i'r hwn sydd yn dymuno eu gweled. Tynodd swyn y breuddwyd fi lawer gwaith; medrais ateb yr alwad ambell dro; dro arall nid oedd dim i'w wneud ond mwynhau y breuddwyd heb y sylwedd, breuddwydio am y mynydd heb deimlo ei awel, ac am y llynnoedd heb glywed murmur eu tonnau.

Ond mae y troeon y gallwyd troi y breuddwyd yn sylwedd yn goffadwriaeth fendigedig, ac er ceisio eu dwyn ger bron eraill yr wyf yn ysgrifennu yn awr. Ni wna cyffyrddiad â natur niwed yn y byd i neb, ac feallai y deffry y breuddwyd yn rhywrai, ac y cyfodant i geisio y swynion a'r cyfrinion eu hunain.

A wyddoch chwi rywbeth am ardal Ardudwy, heblaw a welsoch wrth ruthro trwodd yn y tren? Gwlad o fynyddoedd moelion, morfa llwyd, a

chloddiau cerrig a welsoch felly. Nid oes fawr o swyn ynddi. Ond rhwng y morfa a'r mynydd-oedd mae ffriddoedd sydd ym mis Mehefin yn wyrdd gan redyn ac eithin, ac ym misoedd Awst a Medi yn goch a phorffor gan redyn gwywedig a grug llawn blodau. Yno y mae afon Ysgethin yn cychwyn ei gyrfa yn unigrwydd y mynydd, ac yn troelli drwy'r mynydd-dir hyd nes cyrraedd Bont Fadog. Yno mae y coed yn dechre tyfu o'i deutu, ac yno rywdro y tafodd hen saer bont garreg gre dros ei lli. Edrychwch yn ol am funud. Anodd yw cael golygfa yng Nghymru wylltach a mwy unig, er y ceir yn aml un fwy aruchel. Fel gwal ddiadlam mae'r Llethr a'r Llawllech yn sefyll yn noethlwm uwch y cwm lle mae Llyn Bodlyn a Llyn Erddyn, ac y mae eu creigiau duon yn disgyn yn syth i'r dyfroedd sydd yr un mor ddu islaw. Yn nes yma hefyd y mae Pen y Ddinas—craig ysgythrog—ac ar ei phen adfeilion hen gaer sydd mor hen nes ymddangos cyn hyned a'r mynydd ei hun o'r bron. Yno bu brwydro gynt, ond pwy fu yn brwydro nid oes neb a wŷr. Mae tywyllwch yr oesoedd wedi gorchuddio eu hanes, ac nid oes gymaint ag un pelydr o draddodiad i oleuo y caddug.

Uwch ei phen cyfyd y Moelfre. Saif ar ben ei hun, yn dalgry a chrwn, a gwyrddlesni y glaswellt cwta i'w weled o'i droed hyd ei goryn. Ar finos glir, dawel, mae'r defaid i'w gweled yn pori ar ei ael, a daw chwibaniad y bugail i'ch clust drwy'r awyr deneu. Ond arwydd glaw yw hynny, medd trigolion y Dyffryn. Er mor unig yr olygfa, mae yma rywbeth sydd bob amser yn gwneud i mi feddwl am henafiaeth heblaw henafiaeth

natur. Mae hud a lledrith traddodiad ar y fro. Nis gwn am ddim arbennig, ond eto mae yno, —rhyw ymdeimlad fod ysbrydion hen oesau gynt yn cerdded y ffordd hyn, a bod grug y mynydd yn goch gan eu gwaed. Breuddwyd? Ie, ond mae bywyd yn anfarwol, ac ni wyddom pa hyd y pery ei ddyllanwadau.

Ond trown at yr afon fin yr hwyr. Mae hi yn rhedeg o dan y bont, ac yn y man mae yng nghysgod trwm coed Cors y Gedol. Mae'r llwybr yn codi, heibio i hen fwthyn adfeiliedig ar ochr y bryn, a choed tal, tewfrig yn ei gysgodi. Aelwyd glyd a thân llawen fu yma, ond y mae pob ystafell yn agored i'r gwynt a'r glaw ers llawer blwyddyn. Mae y cyrn yn uchel, a'r cerrig wedi eu gosod yn bigau ar eu pen. Ar y to y mae'r mwsogl yn tyfu, a'r rhedyn bach yn tyfu o hono yntau. Ac i orffen y darlun, yng nghanol y dalen poethion a'r dail tafol y mae cafn mochyn carreg, fydd yma ymhell ar ol i'r hen furddyn fyned yn domen ac yn angof llwyr.

Mae awel yr hwyrnos yn sibrawd yn nail y coed. Ond ychydig gamrau eto yr ydym yng ngolwg y ffridd, ac mae'r coed yn myned yn deneuach. Ym mhell yn y dibyn oddi tanom y mae yr afon yn brochi, ac y mae ein llwybr fel ceulan uwch y lli. Bu yma dymestl fawr rywdro, canys y mae rhaeadr o gerrig mawr yn gordoi y llethr, a gelwir hwy hyd y dydd hwn yn Uffern Gerrig. Paham? Nis gwn, ond gwn nad oedd yr hen bobl yn arfer rhoddi enwau ar leoedd heb i'r lleoedd fod yn eu haeddu; ac yn ddiameu bu y fan hyn yn uffern i ryw un—ryw dro.

Ar y ffridd mae'r awel yn chware; mae iachus-
rwydd y mynydd ynddi a glanweithdra y mynydd
ym mhob peth. Draw acw mae'r môr yn ymestyn
o fau y Traeth Mawr, ar hyd glannau Lley'n ac
Eifionnydd hyd bentir Penfro yn y De. Nid yw
hwnnw ond aneglur, a rhwng y ddau dir mae'r
don yn chware, ac mae'r gwynt yn dyfod trosti
o'r Iwerddon draw. Môr unig yw hwn, heb fad,
heb hwyl. Cof gennyf, ffynyddau yn ol, ei wyllo
i edrych a ddeuai un llong i'r golwg yn rhywle.
Ac feallai, ambell ddiwrnod, y gwelwn hwyl ar y
gorwel, yn agoshau at Enlli. Yn araf, araf, deuai
yn nes, llong fechan ar ei thaith i Borthmadog.
Tarawai yr haul ar ei hwyliau gwynion. Gwnai
fy mreuddwyd innau hi yn llong oedd yn cyrraedd
adref o ryw wlad y dyheuwn am dani, o ryw ynys
werdd yn y Tawelfor, o ryw gilfach lechwraidd ar
ganolfor Ysbaen lle'r oedd môr ladron yn eu llongau
hirddu, a thrysor cuddiedig, ac anturiaethau diri.
Hithau yn flin a lluddedig wedi diane rhag yr holl
beryglon, yn hwylio yn araf i'r porthladd yn ol.
Ond unig a gwag yw y môr hwn gan amlaf.

Dyna un olygfa ag y myn meddwl ehedeg yn
ol ati lawer diwrnod, ond y mae lle i fwy nag un;
ac y mae'r breuddwyd yn amrywio fel y bo'r nwyd.
Draw dros feysydd tawel undonnog Môn mae pen
mynydd y Wylfa yn ym'godi uwch y môr. Yno
y mae Cemaes, fel hen bentre mewn darlun, ar lan
y môr. Wrth gerdded hyd ymyl y clogwyn at
eglwys Llanbadrig gallwch weled y pentre yn codi
ris uwch ris o lan y dŵr, y bryn tu cefn i'r tai
bychain gwynion, ac ar ben y bryn yr hen felin
wynt yn estyn ei breichiau yn erbyn yr awyr glir.
Bu natur yn garedig wrth Gemaes. Nid yw y môr

yn cael chwyddo ei donnau cryfaf yn ei erbyn; yn hytrach mae fel llyn crwn wedi ei gloi i mewn gan dir, gydag un agoriad, a thrwyddo, ar ddiwrnod hafaid, gellir gweld ar y gorwel fynyddoedd gleision ynys Manaw. Lle tawel yn edrych ymhell yw Cemaes.

Ni anghofiaf fyth fy ngolwg gyntaf ar y lle wrth ddyfod o Amlwch. Diwedd mis Mai oedd hi, ac nid oedd dim ond eithin, eithin yn llawn blodau, ym mhob man. Yr oedd yr awel yn llwythog o arogl y blodau. Yr oedd pob bwthyn bach gwyn fel pe yn ymguddio mewn eithin. Yr oedd gwynt glân y môr i'w deimlo hefyd. Edrychai pob peth fel pe bai gwynt y môr yn eu glanhau. Ac yna, o ben y golwg, dacw'r môr, môr diderfyn. Ni welwch mo Gemaes nes yn ei ymyl, ond acw mae clogwyn y Wylfa, a'r felin wynt, a melin Mechell ymhellach yn y wlad. I mi yr oeddwn fel pe yn myned i wlad hollol ddieithr, pell o Gymru. Pleser nid bychan yw disgyn wrth ddrws y llety mewn lle felly, ac ar ol cael bwyd myned allan am dro, gyda'r hwyr, i weled ansawdd y wlad. Y ffordd wen, hir, y tai hen ffasiwn, y cei a'r cychod pysgota; y ffermydd a'u cloddiau a'u buarthau wedi eu gwyngalchu, y meysydd yn dechre blaguro, a'r môr fel gwregys lân—nid peth i'w anghofio yn hawdd yw hyn.

Os mynnwch, treuliwch y diwrnod ar ben y clogwyni i edrych ar y môr. Nid môr unig yw hwn. Os yn dawel mae mwg agerlongau mwya'r byd yn gorwedd yn dardh ar y gorwel gydol y dydd. Daw y rhai lleiaf yn agos at y lan, clywch eu "chunk chunk," yn dyfod heibio i drwyn Cemlyn, ac yn y man y maent gyferbyn a chwi, bron odditanoch.

Gallwch waeddi ar y dynion sydd ar y bwrdd. Ambell dro daw llong hwyliau heibio, yn ymlwybro yn erbyn y gwynt. Clywch ei rhaffau yn rhyгну a'r gwynt yn clecian ei hwyliau, a llais y llongwr wrth y llyw. Mae y rhai hyn yn gyfarwydd a'r llwybr, a meiddiant ddyfod yn agos iawn i'r creigiau daneddog, er mwyn ysgoi nerth y llanw. Ymhellach draw mae'r llongau mawr ar eu ffordd i'r America, ac i bedwar cwr byd. Myned yn eofn mae y rhain, fel pe bai'r môr wedi ei wneud iddynt hwy, heb edrych i'r naill ochr na'r llall, ac yn chwythu yn awdurdodol os daw rhywbeth llai ar draws eu llwybr. Draw hefyd mae craig wen y Skerries a'i goleudy unig.

Arhoswch yma nes i'r haul fyned i lawr dros y tonnau. Foment yn ol yr oedd popeth yn llon yn y goleuni, disgleirdeb ar y môr, a gwyrddlesni ar y meysydd. Yn awr mae'r awyr yn oeri, mae'r môr yn duo ac yn cynddeiriogi, y mae'r gogoniant wedi cilio oddiar y meysydd. Mae'r gwynt yn oerach. Mae cân y don ger troed y graig ddaneddog yn troi yn rhu trymllyd, bygythiol. Mae'r haul wedi myned. Cyn pen hir bydd goleuni y Skerries yn fflachio draws awyr fel mellten welw, ac a'r llongau heibio fel trychiolaethau yn y tarth.

Pan oeddwn i yng Nghemaes yr oedd briallu yn dryfrith ym mhob cilfach a phant. Oddeutu'r ffrwd fechan redai i lawr i gilfach y gro ar lan y môr yr oeddynt hwy yn serenu. Gwelid hwy dan gysgod twmpathau'r eithin ac yn tyfu ar lanerchi tywodlyd lle 'roedd y gwningod yn chware. Melynent wyneb ambell geulan uwch y lli. Felly, i'm cof i, gwlad dlws yw Cemaes, gwlad dawel, lle ni phrysurâ bywyd. Gwlad y briallu a'r eithin

blodeuog, arogl y môr a sŵn ei donnau, meysydd llawn gwair a blodau, amaethdai clyd, tawel.

Ond os dringwch i ben un o fryniau lleiaf Môn gwelwch draw fynyddoedd gleision Arfon, aruthredd eu clogwyni a'u cymoedd yn ymgolli yn y tês sydd rhyngoch â hwy. Yno, wrth droed y Wyddfa o'r bron y mae Capel Curig, mangre yng nghysgod y mynyddoedd yn bell bell o sŵn a thwrf y byd, a reolir gan beiriannau a rheilffyrdd. Cerddwch hyd y ffordd, heibio i'r hen eglwys yn y coed nes dyfod i ben y bryn bychan ac i olwg y llynnoedd. Nid hawdd anghofio'r olygfa. Nid oes undyn anystyriol wedi llenwi y rhain â cherrig a rwbel fel yn Llanberis, ond ymestynant yn loyw ac yn dawel dan wên haul a chyffyrddiad awel, a delwedant y Wyddfa yn eu dyfnder. Cyfyd bryniau a chreigiau oddeutu iddynt, ac mewn ambell i fan mae gweirgloddiau gwyrddlas yn cyffwrdd eu glannau. Cân y gog yma yn y gwanwyn o fore glâs tan nos, a'i llais hi a brefiad y ddafad yn unig sydd yn torri ar y distawrwydd.

Tawelwch a chadernid y mynydd yw ei swyn pennaf, tawelwch sydd yr un ar ol yr ystorm ac o'i blaen, cadernid sydd yn rhoddi cadernid hefyd i ysbryd cynhyrfus dyn. Er fod coffadwriaeth y rhai fu farw dros ryddid Cymru yn agos iawn atoch ym mroydd Eryri lleddfir y boen gan y tawelwch, a chynyrchir gobaith am bethau gwell.

Yma y mae cartref rhamant y Cymro. Bron nad yw sŵn y gwynt yn y cymoedd fel adlais utgorn hela Llywelyn, a murmur y don ar y grofel murmur y don gynt lle'r ymadawodd Arthur. Nid rhyfedd fod Cymry yn glynu wrth eu

traddodiadau, mae traddodiadau yn byw o'n hamgylch yng nghymoedd y mynyddoedd ac wrth lannau'r llynnoedd.

Ail i Gapel Curig yw Llyn Cwellyn yr ochr arall i'r Wyddfa, a chydradd a hwythau yw Bwlch y Tyddiad a Llyn Cwmbychan yn Ardudwy. Pell yw y fan honno hefyd o sŵn y byd, a phan bydd y gaef yn teyrnasu ni ddaw estron yn agos. Nid oes yno ond un amaethdy ar lan y llyn dan gysgod y mynyddoedd, a'r adeg y gwelir fwyaf o bobl yno yw adeg hel llus. Ar y Rhinogydd, y Fawr a'r Fach, y ceir y cynhaeaf mwyaf toreithiog, a daw pobl y pentrefi i fyny yn yr adeg i dreulio y dydd i'w hel. Ond y mae rhai cilfachau ar y Rhinog nad ant hwythau iddynt ond yn dra anaml. Cof gennyf rai blynyddoedd yn ol i was ffarm golli ei ffordd yn y nos wrth geisio croesi y mynydd o'r Bont Ddu i Gwm Nantcol. Methodd ei lwybr ar ol dyfod trwy Fwlch y Rhiwgur, ac yn lle croesi Sarnau Gwyr y Cwm crwydrodd filltiroedd o'i ffordd yn uwch i fyny ar y mynydd.

Gwybyddwyd ei golli; ond gan mai creadur crwydrol oedd, ni wnaed rhyw lawer o stwr, ni chwiliwyd yn fanwl am dano. Credwyd ei fod wedi myned i'r America, ac anghofwyd ef.

Ym mhen ryw bedwar mis neu bump ar ol hyn daeth amser hel llus, a threiddiodd cwmni mwy anturiaethus na'r cyffredin i rai o gymoedd mwyaf anghysbell y Rhinog. Cyrhaeddasant at Lyn Hywel, llyn sydd wedi ei amgylchynu o'r bron â chlogwyni serth. Anaml y daw bugeiliad hyd yn oed ato, mor bell ac mor neilltuedig ydyw. Aeth y cwmni i lawr at y dŵr, a'r peth cyntaf a welsant, yn gorwedd yn ymyl y lan, oedd corff y dyn a gollwyd ers pedwar

mis neu ragor. " 'Dase fo'n gi Mr.—," meddai ei fam wrth yr heddeidwad wedyn, gan enwi un o ddynion cyfoethocaf y plwyf, " mi fasech wedi cael hyd iddo ers talwm." Nid dyma'r unig un o bethau prudd y mynydd; mae aml i stori dywyll am ei niwl a'i glogwyni, ac aml i fywyd wedi myned yn aberth iddo ef.

Gwelaf fy mod wedi erwydro 'mhell oddiwrth ddechre fy ysgrif, ac mae'n rhaid i mi dynnu at y terfyn. Fy amcan oedd ceisio rhoddi mynegiant i'r swyn sydd gan natur wyllt a'i phrydferthwch i ni fel cenedl. Credaf mai pobl y wlad ydym, trefi bychain yw ein trefi ni ym mhob man ond lle mae dylanwad y Saeson masnachol wedi gorbwyso dylanwad y Celt, ac y mae awydd am y wlad yng nghalon pob gwir Gymro. Nid wyf yn proffesu gwybod fawr am feddwl y Sais, ond ymddengys i mi mai hiraethu y bydd ef am drefi neu ynte wledydd lle y caiff ddigon o helwriaeth a byw bywyd di-ddeddf. Rhoddodd Kipling eitha mynegiant iddo,—

" Ship me somewhere east of Suez,
Where the best is like the worst,
Where there ain't no Ten Commandments,
And a man can raise a thirst.

Ond mae golwg ar fynyddoedd ei wlad yn y pellter yn deffro hiraeth yng nghalon y Cymro am mai Cymru yw, pe na bai ganddo gâr na chyfaill o fewn i'w goror; y mae yn ei charu er ei mwyn ei hun fel y carai Goronwy Fôn. Pa le bynnag y bo mae rhyw sibrd yn ei galon yn dweyd,—

" Cymru fach i mi—
Bro y llus a'r llynnoedd,
Corlan y mynyddoedd,
Hawdd ei charu hi."

Nis gwn yn iawn beth sydd yn achosi hyn, os nad dylanwad y tadau fu yn byw o genhedlaeth i genhedlaeth ar ei thir. I harddwch ei wlad y mae y Cymro yn ddyledus am ei feddwl naturiol farddonol. I symlwydd y wlad y mae yn ddyledus am yr ysbryd caredig, gwerinol, sydd ynddo ar ei oreu. I gyfrinion ac arucheledd ei môr a'i mynydd y mae yn ddyledus am grefyddolder ei ysbryd a'i gariad tuag at ryddid. Y mae ei wlad, fel ei iaith, yn anadl einioes i'r Cymro. Ofnaf mai dirywio wna mewn trefi os na bydd yn medru cadw y cysylltiad yn fyw rhyngddo ef a bywyd y wlad.

Hoffwn fedru deffro ym meddyliau rhai deimlad bywiocach o brydferthwch y golygfeydd sydd o'u cwmpas. Mae y dylanwad yno yn sier, ond nid yw yr ymdeimlad ohono yn fyw bob amser. Nis gwn am unpeth yn y byd hwn a rydd fwy o bleser parhaol na llygaid i weled anian. Ni raid i chwi fod yn unig wedyn.

II.

Y GLYNNOEDD AUR.

BETH sydd yn debig i rwysg yr haf wrth ymadael o'r glynnoedd? Nid yw rhwysg brenhines wrth adael ystafell wledd pennau coronog ond megis dim wrth ei ysblander. Os mynnech ei weled, ewch i gymoedd Dolgellau pan fo'r Hydref yn cochi ac yn melyn'u'r dail a Thachwedd yn eu gwasgar, yn gawodydd euraidd, ar y llawr.

Gadewais Ddolgellau ar fore mwyn yn niwedd yr hydref diweddaf, croesais y bont hir dros afon Wnion, a throais ar y dde hyd ffordd y Bala. Pan uwchlaw'r Llwyn, cartref y Barwn Owen laddwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy gynt, cymerais ffordd serth ar y chwith, oedd yn gadael y ffordd fawr, ac yn cyfeirio i Lanfachreth. Temtid fi beunydd i edrych yn ol ar ogoniant dyffryn Mawddach odditanaf ac ar hafanau Cader Idris y tu hwnt.

Ond o'r diwedd syrthiodd cyfaredd y ffordd o'm hamgylch ar fy ysbryd. Yr oedd natur yma yn ei swyn gwyllt, wedi cadw pethau prydferthaf yr hen goedwigoedd, oherwydd fod y wlad yn greigiog a rhedynog ac oherwydd fod hen deulu yn byw ynddi a'i fryd ar gadw'r hen ddull yn fyw. Teulu Nannau yw'r teulu, ac y mae'r plas yn rhywle yn y coed o'm blaen. Hwyl sy'n gadael i'r hen dderw llydanfrig dyfu hyd nes yr elo'u boncyffion yn wag; y mae digon o hen dderw i Owen Glyndwr guddio pob Hywel Sele trwy Gymru

yn eu ceubrenni. Hwyl gododd y muriau, y pyrth, yr amaethdai a'r bythynod o ffurf a llun wrth fodd arlunydd. Erys y parciau ceirw hefyd,— a hudir y meddwl yn ol i adeg eang yr hen dywysogion Cymreig. Ac ar hydref fel hyn, y mae popeth fel pe'n cyd-heneiddio mewn henaint urddasol a thlws.

Dan sylwi a meddwl cyrhaeddais lannerch hyfryd gysgodol. Yr oedd y coed o'm cwmpas yng ngogoniant eu lliwiau, y gwyrdd yn prysur droi'n goch tanbaid neu'n felyn fflam. Yr oedd urddas y derw, er cynifer oedd wedi crino, yn rhoi gwedd rhyw dawelwch cadarn ar y fro. Codai'r rhedyn Mair tali i fyny mor uchel fel y tybiech y cystadlai â phalmwydd gwledydd mwy heulog mewn harddwch. Yr oedd mwsogl yn addurno'r muriau a'r pyrth. Gwenai mafon duon diweddar, wedi i'r rhew eu harbed, ar y gwrychoedd; a disgleiriai'r blodau taranau coch ym môn y llwyni; fel pe'n dangos na fedrai'r gaeaf sangu mewn ciffach mor glyd a chynnes a hon. Ar y chwith arweiniai llwybr drwy'r coed i Faes y Bryner, ar y dde yr oedd parc ceirw eang.

Ymlaen, uwch ben y ffordd, codai clogwyn grugog yn uchel i fyny. Un o ysgwyddau Moel Offirwm yw.

Toc daethum at y ffordd sy'n troi at blas Nannau. Y mae golwg hyfryd a hynafol ar bopeth; ac y mae atgofion llenyddol lu'n dod, o'r amser y bu Sion Dafydd Las fynych edifeiriol yn canu clodydd y teulu, i'r amser y bu Glasynys yn lloffa traddodiadau'r fro. Ar y ffordd at y tŷ yr oedd tyrfa o *pheasants* heirdd hirgoes, fel gwarchodlu o

Fontenegriaid. Ar un llaw yr oedd teulu o geirw, ac ar yr ochr arall o ewigod. Ac yr oedd daïl y coed fel pe bai arian ac aur wedi eu tywallt yn gawodydd ar y fro.

Disgynnais i lawr ar hyd ffordd serth, gan basio ambell fugail â'i air serchog ac ambell drol wlan yn cludo prif gyfoeth y wlad, nid i felinau Dolgellau fel cynt, ond i'w yrru i drefi pell. Trwy'r coed tal main cawn ambell olwg ar Gwm Blaen Glyn, fel gwlad dlos a'i gorchudd ar ei hwyneb. Cyn hir daethum i lawr at afon Pabi, a'i melin durn yn segur a distaw, gwelwn Borth yr Fog ar y dde, ac ar y bryncyn o'm blaen safai pentref bychan tlws Llanfachreth.

Y peth amlycaf ynddo ydyw'r eglwys, gyda'i thŵr ysgwar, a'i safiad yn brydferth ar fryn. Ynddi gorwedd llwch Rhys Jones y Blaenau. Y mae'r fynwent ar lethr yr un bryn. Ar ben y bryn, yn ymyl yr eglwys, y mae Fychaniaid Nannau'n huno. Yn eu mysg y mae'r Syr Robert Fychan gododd dros ddeng milltir a thrigain o waliau, o amgylch tir ei deulu a thir a amgaeodd. Am hwn, pan ddeallodd yn wir mai efe oedd y gŵr a'i helpodd i godi pwn ar ei geffyl, y dywedodd un o'i denantiaid,—“Yr argian fawr! 'Roeddwn i 'n meddwl mai dyn oeddych.” Yn is i lawr, ac o gwmpas y teulu, y mae gweision Nannau, “y gwas a ryddhawyd oddiwrth ei feistr.” Yn is i lawr wedyn, hyd at fin y ffrwd, gorwedd tenantiaid Nannau, gwŷr bucheddol a chydwybodol wrth erlid ac wrth gredu yr hyn a erlidiasant, fu mewn penbleth lawer tro rhwng ofn Syr Robert ac ofn Un mwy nag efe. Yr ochr arall i'r ffordd,

Llanfachreth



LLANFACHRETH.
Oddiwrth y darlun gan Penri Williams.

[Tud. 25

yn is i lawr, yn y pant, llecha capel bychan y Methodistiaid. Am yr ymdrech rhwng Syr Robert a'i denantiaid, am helbul cael llecyn i osod capel, a'r helbul cael cerrig i'w godi, onid yw'r oll ar ddalennau diddorol a charedig *Methodistiaeth Cymru* ?

Troais yn ol, ac eis hyd ffordd ochr y bryn, at gapel prydfferth ac amlwg yr Anibynwyr yn Ffirwd yr Hebog. Ac onid yma y magwyd J. Machreth Rees ? Heibio Bryn y Prydydd, daethum i ffordd gul rhwng y coed, hyd ochr bryn serth uwchlaw Afon Mawddach. Yr oeddwn yn dychmygu fod y coed oll yn cydio â'u holl nerth yn y mynydd rhag syrthio, oherwydd yr oeddynt bron fel pe'n tyfu o fur ychydig ar osgo. Tōc teneuodd y coed, a gwelwn fynydd hardd o'm blaen, yn gorwedd rhwng mynyddoedd mwy. Yr oedd yn union o'r un lun a llew, yn gorwedd a'i ben draw oddi-wrthyf, fel pe'n gwylio â'i bawenau weithydd aur Gwynfynydd sydd y tu hwnt iddo. Wrth deithio ymlaen am yr Afon Wen a'r llew oedd ynghwsg, yr oedd golygfa newydd gyfareddol yn ymagor o'm blaen ymhob tro yn y ffordd. Sirioldeb tlws nentydd mynydd, prydfferthwch telaid bedw arian, gwyrddlesni byrwellt porfa defaid, tynerwech mynyddoedd pell, —ni welais erioed olygfeydd lle y gall enaid ymhyfrydu ac ymddigoni mor llwyr ynddynt. Mewn hyfrydwech pur eis heibio'r Dolau, lle cerrid brwyn at doi'r cynhaeaf diweddar, a dois at hen waith Dolfrwynog. Yma gynt llosgid rhedyn y fro, a gyrrid y lludw i Abertawe, i dynnu copr ohonō. Honnir fod y nentydd yn codi oddiar gopr ac aur yn rhywle yn y mynyddoedd creigiog hyn.

O'r gwastadedd bychan hwn y mae dwy ffordd ymlaen. Arwain un ar y chwith at dri pheth diddorol mewn gwlad ryfeddol o ramantus,— gwaith aur Gwynfynydd; rhaeadr Pistyll y Cain; a Chwm Heisian, cartref Williams o'r Wern. Arwain y llall ar y dde i'r mynydd-dir maith sydd rhwng aberoedd Mawddach ac aberoedd Dyfrdwy. Yr olaf gymerais i.

O'm blaen, ar fron Moel Hafod Owen, saif amaethdy Buarth yr E. Oddiyma cludodd teulu erlidiedig gwpan cymun weinyddid i'r mynyddwyr gan Charles o'r Bala. Os nad wyf yn camgofio, dyma gartref Edward Roberts Cwmafon, hoff gyfaill Ieuan Gwynedd; gwelais ei gartref yntau hefyd am yr afon a mi'r bore.

Cerddais ymlaen gydag ochr y Foel nes dod at gapel Hermon, a'r glyn swynol sy'n ymestyn tua'r mynydd ohono. A hawdd y gallwn ofyn cwestiwn David Charles Davies mewn lle tebig,— “Tybed y gall neb bechu mewn lle mor hardd?” I fyny wedyn, a golygfeydd yn ymagor fel yr esgynnwn, gan adael caeau serth Blaen y Glyn a'r Ty Canol a Hafody Hendre ar y dde, a chefais fy hun yn y mynydd. Yr oedd eangderau unig tawel Moel Ddefeidiog yn awr o'm blaen. Ar y chwith gallaswn gymeryd llwybr heibio Bant Glas a Thai Cynhaeaf, heibio'r Adwy Goch at Fedd Porus a Maes y Bedd yn nyffryn Cain, ac oddiyno i Drawsfynydd. Neu gallaswn fynd ar y dde, heibio Aber Geirw a Bryn Llin at Gwm Hesgen neu Dŵr y Maen, ac oddiyno i Flaen Lliw. Yr oedd cawod o wllthlaw mân fel gorchudd llwyd dros y mynyddoedd, a throais yn ol o lan afon Geirw.

Ar y ffordd yn ol cefais fwy o ddedwyddwch nag a gafodd neb oddiwrth aur Gwynfynydd, a deallais afiaeth y Gwyddel ymfalchiai mai

“ All the gold there is in Ireland
Is the gold upon the broom.”

Sefais mewn syndod yng nghanol un goedwig— Glyn yr Aur mewn gwirionedd oedd. Yr oedd llawer o'r dail eto'n aros ar y coed, ond yr oedd y gwyrdd wedi mynd i gyd, a choch a melyn wedi cymeryd ei le. Ac yr oedd tân megis yn gwrido yn y coch ac yn cynneu yn y melyn. Yr oedd y berth yn llosgi, a'r goedwig wedi ei gweddnewid i ogoniant na freuddwydiaswn i am ei debig. Ac yr oedd llawr y goedwig mor ogoneddus a hithau, wedi ei hulario â dail oedd yn disgleirio fel llafnau caboledig o aur ac o arian. A thrwy'r olygfa danlliw hon dawnsiai nentydd y mynydd, eu gwynder pur fel grisial wedi ei ymylu âg ifori.

Yr oedd y nos falmaidd yn disgyn, a throais tua Dolgellau'n ol. Gwelwn greigiau Moel Offrwm, dan eu rhedyn a'u grug, yn gwenu arnaf fel pe'n gwybod na wyddwn i o'r blaen am y glynnoedd aur y maent hwy'n warchod er dechre'r byd.

III.

LLANELWEDD.

AR gyfnos yn yr haf, cefais fy hun yn Llanfair-muallt. Bum yn erwydro orig ar drumau'r twmpathau gleision,—yr ôll sy'n aros o'r castell hardd y denwyd Llywelyn ato pan oedd haul anibyniaeth Cymru eto heb fachlud. Yr oedd yn ddiwrnod ffair; llenwid yr heolydd â hoglanciau hanner meddw, a'u bryd ar dynnu ysgwrs ynfyd â'r dyn 'dieithr prudd a blinedig. Ac ar y llecyn glas hyfryd sydd ar lan afon Gwy nid oedd nodedd; yr oedd yno saethu, ac ymsiglo, a *merry go round* i sŵn byddarol peiriant. O'i gymharu â sŵn y peiriant hwn, buasai ffræ rhwng brain a moch yn gerddoriaeth.

Trois fy llygaid hiraethus at y bont hir sy'n croesi afon Gwy, ac yn arwain o sir Frycheiniog, — oherwydd ar ymyl y sir y saif Llanfairmuallt,* — i sir Faesyfed. A thraw, ar y dde, gwelwn eglwys yn sefyll, yn dlos ac yn dawel, ar fin yr afon ddolennog. “Mi gerddaf tuag acw,” ebe fi wrthyf fy hun, “feallai fod hanes rhyw hen bererin wedi ei gerfio ar garreg acw yn Gymraeg, ac y caf ryw gipolwg ar fywyd Maesyfed cyniddi newid ei hiaith.” Cerddais yn araf dros y bont, ac hyd y ffordd wastad, nes cyrraedd mur y fynwent. Yr oedd y ffordd yn llychlyd a'r awyr yn llethol; ond yr oedd arogl hyfryd y gwair meillionog, oedd newydd ei ladd yn y caeau oddiamgylch, yn llenwi'r wlad.

* O'r gair Buallt y daw'r enw Seisnig Builth. “Bilt” y swnnir ef yn sir Faesyfed.

Sefais ennud, yno ar fin y ffordd, ger y mur, i weld pobl Maesyfed yn mynd adre o'r ffair. Daew un yn dod ar ferlyn hoyw, ar garlam wyllt hyd y ffordd wen hir. Tra mae'r ceffyl yn mynd ymlaen ar garlam, y mae'r gyrrwr yn hercian o ochr i ochr, a'r syndod yw,—sut y mae'n medru cadw heb syrthio? Golygfa ddigrifol i'r eithaf, oni bai fod arnoch ofn gweld ei hyrddio i dragwyddoldeb bob munud, yw gweld dyn meddw'n ceisio ymdaro ar gefn march carlamus. Prin yr oedd o'r golwg na welwn ddau lencyn yn dod, pob un ar ei geffyl haearn, a'u pennau'n rhy drymion i fedru cadw eu lle ond drwy gydio yn ei gilydd, a phwyso y naill yn erbyn y llall. Pe digwyddai ffrac godi, nid aent adre y noson honno. Ar eu holau daew res o fechgyn yn dod, yn llond y ffordd, a'u traed afrosgo yn codi cwmwl o lweh i'w dilyn. Yn y pant draw ni welaf ond eu pennau, yn codi ac yn gostwng fel cyrc ar donnau. Och o'u haraeth! Yr oeddynt yn tyngu ac yn rhegu'n echrydus; ond distawasant beth, er coched eu hwynebau gan ddioid, wrth fy mhasio i a'r fynwent. Ni ddychrynnodd eu rhegfeydd fi; ond tarawodd peth arall fi ag arswyd. Draw, o ael y bryn, clywn eu lleisiau bloesg, mewn cymysgfa anhyfryd yn y gwyll, yn nadganu,—

“ Lead, kindly light, amidst the encircling gloom,
Lead Thou me on.”

Nid oedd arnaf awydd am weled ychwaneg o wŷr byw Maesyfed y noson honno; a throais fy llygaid at orweddle'r marw distaw yr ochr arall i'r mur. Yr oedd y glwyd yn gloedig, ac nid oedd dŷ clochydd yn y golwg. Yr oedd y persondy gerllaw, ond nid

oedd i mi gyfathrach â'r person, ac ni fyynnwn flino dyn dieithr. Edrychais ar y wal; ni welais erioed wal mor fer. Edrychais ar fy nghoesau; ni sylweddolawsw'n erioed eu bod cyn hired. A fuasai'n iawn camu dros y mur? Tawelais fy nghydwbybod trwy ei hysbysu y dylai pob mynwent ac eglwys fod yn agored, fel y maent ar y cyfandir, fel y medro'r myfyrgar a'r duwiolfrydig gael encilfan. Hwb a cham, a dyma fi drosodd. Ond, yr achlod fawr! ✓ Beth yw'r bwystfil sy'n ysgyrnygu arnaf? Ni welais beth hyllach erioed; a hanner feddyliais fod cabledd y llanciau meddwon wedi deffro un o gŵn Annwn. Ond, wedi syllu arnaf am ennyd, distawodd y ci. Gwelodd fy mod yn debig i'r rhai defosiynol fyddai'n dod i'r eglwys ar y Sul, ac nid yn debig i dramp llechwraidd gyrchai at gefn tŷ'r person yn y nos. Llonnodd ei lygaid, daeth peth harddwch i'w wep anaeareol; a bu'n sefyll fel delw yn gwyllo fy symudiadau, ac yr oedd yn amlwg yr edrychai arnaf fel ffrynd.

Mynwent hyfryd yw mynwent Llanellwedd. Dolenna afon Wy gyda'i hymyl, gan furmur a sisial ar unwaith,—nid oes daw ar felys ddwndwr y dŵr wrth fynd heibio. Draw, dros yr afon, cyfyd panorama ardderchog o fynyddoedd sir Frycheiniog, a Llanfairmuallt yn nythu wrth eu traed, i'w gweled oddiyma dros drofa brydferth yng nghwrs yr afon. Y tu cefn ymgyfyd bryniau Maesyfed yn serth, a'u llechweddau'n gartref rhedyn ac ysgaw. Mae arogl y gwair, ddwndwr yr afon, distawrwydd y mynyddoedd pell a'r marw agos, yn gwneud y fynwent yn gartrefle myfyrdod a hedd. ✓

Crwydrails ymysg y beddau, ond ni chefais air o Gymraeg,—bennill nac adnod. Ni welais

feddargraff Cymraeg yn sir Faesyfed eto. Gwelais un Groeg ar feddrod athrawes fu farw'n ieuanc, adnod briodol, yn meddu mwy o fwsig yn Gymraeg nag yn y gwreiddiol,—“Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw.” Nid oedd sir Faesyfed wedi ymseisnigo cyn teimlo peth o'r diwygiad a'r dadeni ; rhaid i mi chwilio mynwentydd eraill.

Ond y mae aml enw lle Cymraeg ar y cerrig, Goetre, Maes Pengoch, Noyadd Fach, Neuadd, Cwm Bach. “Penbenkin,”—dyna ddechre Seisnigo ; “Cwmshepherd,”—dyna waeth.

Dyma feddrod hen deulu o uchelwyr fu gynt yn meddu Abaty Cwm Hir. A beth yw'r garreg yma a'r llun arni ? Llun merch yn gorwedd fel mewn hûn ydyw, ac angel yn codi ar edyn ysgafn oddiwrthi. Methwn beidio credu i mi weled y llun o'r blaen, er na fum erioed yn y fynwent hon cyn heno. O'r diwedd cofiais ei fod yr un fath yn union a “Breuddwyd Olaf” Joseph Edwards. Dyma sydd ar y garreg,—

THY WILL BE DONE.

SACRED

TO THE MEMORY OF

ANNA.

“I WILL ARISE AND GO


TO MY FATHER.”

This tablet was erected

by one who knew her worth.

Gymaint y mae'r garreg yn awgrymu, ac mor ychydig mae'n ddweyd. Rhyw hanner ddatguddio ei chyfrinach yr oedd pob carreg ; a gadewais y fynwent hyfryd a'm meddwl yn llawn o gwestiynau na allwn eu hateb.

Drannoeth, dydd heulog tyner, tarewais ar berson Llanelwedd. Cefais ef yn Gymro aiddgar



ac yn hanesydd ymchwilgar a medrus. A danododd fy nghydwylbod i mi mai hi oedd yn iawn, ac na ddylaswn fod wedi hanner lechu yng nghysgod yr ywen, oedd rhyngof a ffenestr y person, wrth gamu tros y mur. Nid oeddwn wedi sylweddoli, hyd y munud hwnnw, fy mod wedi gwneud hyn. Addefais y trosedd wrth y person, gan gynnwyl awgrymu y dylai'r glwyd fod yn agored. Dywedodd yntau i'r fynwent a'r eglwys fod yn agored am ddwy flynedd. Ryw nawn tesog aeth Fandaliad yno, a gadawsant fwg halog eu tybaco i lenwi'r eglwys. Ni oddefai'r plwyfolion i'r eglwys fod yn agored mwy. A phwy all eu beio ?

Cefais ramant bywyd Anna hefyd. Flynyddoedd yn ol syrthiodd bachgen o deulu cyfoethog mewn cariad a geneth dlawd. Gwnaed cyfamod cariad rhyngddynt. Pan glywodd tad y bachgen, ffromodd yn aruthr, a dywedodd y di-etifeddi ef oni roddai yr eneth brydferth i fyny. Adroddodd yntau ei helynt wrth yr eneth ; ac, er ei fwyn ef ac er ei waethaf, mynnodd hithau ei ryddhau o'i addewid.

Aeth blynyddoedd heibio. Daeth ef yn ŵr enwog, a phriododd ; arhosodd hithau'n eneth dlawd. Ar ryw neges, ymhell o'i bro, digwyddodd hi fod yn teithio drwy Faesyfed. Pan yn ymyl Llanelwedd bu farw'n sydyn ar y ffordd, o glefyd y galon. Ac yma y claddwyd hi, ymysg pobl o Faesyfed,—pobl garedig, naturiol, a rhadlon ; er fod ganddynt ambell goll.

Ymhen blynyddoedd wedyn, daeth yr eneth aberthodd ei hun er ei fwyn, i gof y gŵr enwog, ac efe erbyn hyn a phlant wedi priodi. Holodd am dani. Daeth yma i weled ei bedd ; ac efe osododd y garreg y bum yn syllu arni neithiwr.

*went
angry.*


IV.

BEDD Y MORWR.

OS buost yn Aberaeron, ti gredi, ddarlennydd mwyn, dy fod wedi gweled un o'r llecynnau mwyaf prydfferth yn y byd. O'th ystafell yn y gwesty clywi lais y bugail fry ar y mynydd, a llais y morwr o'i long yn y porthladd islaw, ar yr un pryd. Yn y bore cei gerdded hyd lan y môr, a chlywi ar dy wyneb anadl fywiol yr awel ieuanc nwyfus yn marchogaeth tuag atat hyd donnau na fuont erioed funud yn llonydd; yn y prynhawn cei gerdded bryniau uwchlaw'r weilgi, a "mwyn hedd y mynyddau" yn gorffwys yn ysgafn ar dir a môr. Oddiyma gwelir fod rhyw ysbryd gorffwys ar y bryniau, ac y mae'r môr fel pe wedi colli ei donnau; y mae'r don laethwen fel pe wedi ei suo i gysgu, gan su y tonnau sydd tu ol iddi, ar ei thraeth ei hun.

Yn nechre haf ardderchog y flwyddyn hon,* daethum i Aberaeron gyda'r tren. Y tro cynt, daethwn mewn cerbyd o Aberteifi, a gwynt caled sych gwanwyn cynnar yn addurno'm gwallt â llwydrew ac yn fferru f' anadl o'm blaen. Gwelais fedd John Jones Blaen Annerch; gwelais mewn dau gwm olynol gartrefi dwy Gymraes, y naill yn fwyaf adnabyddus am ysgrifennu Saesneg a'r llall am ysgrifennu Cymraeg yn ein dyddiau ni, Allen Raine a Chranogwen; ond y peth wy'n gofio oreu, er hynny, yw min yr awel lem honno. Rhoddodd imi

* Mis Mehefin 1911.



NID OES UN FFORDD MOR HUDOLUS A DYFNFFORDD Y DON.

[Tud. 34.]

awr neu ddwy o henaint llwyd a gwyw, a difyr oedd toddi i'm hieuenctid yn ol wrth dân a chroeso hyfryd Aberaeron.

Ond y tro hwn, daethum gyda'r tren o Lanbedr, pan oedd yr haf yn ieuanc a goludog ei liwiau. A hwyr tawel oedd hi. Rhedai'r plant o'r naill ffenestr i'r llall, i weled rhyw bentref diddorol y naill ochr, a chw m hyfryd yn ymagor ar yr ochr arall. Ymagorai Dyffryn Aeron, yn holl ysblander dwys prydferthwch ei brynhawn, fel y teithiai'r tren bach newydd yn ei flaen hyd fronnau'r fro; a gwnai Ceredigion i'w bryniau sefyll yn lwys a gwylaidd, fel rhes o blant, y tu ol iddo. Yr oedd pob gorsaf yn llawn o bobl ddifyr, yn enwedig hen bobl a gweision ffermydd, yn dod i "weld y tren"; oherwydd yr oedd y tren eto'n newydd. Codai pobl y pentrefydd a'r ffermdai eu dwylaw, ac ysgydwent eu cadachau, fel pe baent yn ein hadnabod ers blynyddau, ac fel pe baent wedi treulio oriau i'n disgwyl ni y diwrnod hwnnw. Teimlem ein bod yn cael cwmni ar hyd y ffordd. Y lle mwyaf unig y gwn i amdano yw mewn tren trwm, fydd yn chwynnelli ymlaen am dair awr heb aros, hyd wlad wastad a phoblog. Y mae trigolion y wlad wedi ymgynefino âg ef; a gwyddoch nad oes neb o'r miloedd yn gwybod dim am danoch nag yn malio gwerth blewyn ynoch. Y mae rhyw fath o unigrwydd yn brudd ac yn dwyn poen.

Dyma ni wedi cyrraedd gorsaf Aberaeron, meddir wrthym. Ond dyma unigrwydd o fath arall. *Went* Murmur yr afon yn ddedwydd heibio i ni, anadla awel ysgafn dros y gwair tonnog, sigla'r coed eu pennau trymion megis mewn cwsg. Gwlad yw i gyd.

Ond sicrheir ni fod Aberaeron yn bod ; ac wedi cerdded ennyd deawn i un o'i gwestai cyfforddus, a chawn gipolwg ar ei heolydd bychain prysur, ar ei hysgwâr heddychol, ac ar ei phorthladd. Ac yna, yn araf a phenderfynol, gwneir cynllun,—“ Mi arhosaf yn y lle hwn hyd nes y bydd raid i mi fynd oddiyma.”

Y mae ffordd yn codi o'r pentref i gyfeiriad y de. Os gofynnwch i ble yr arwain y ffordd honno, esbonnir yn fanwl i chwi mai i Henfynyw y deuwch gyntaf os cerddwch heb droi ohoni am filltir go hir.

Cerddais yn araf i fyny hyd y ffordd. Yr oeddwn yn lled droi fy nghefn at y môr, ac yn cilio peth oddiwrtho ; ond, wrth ddringo rhiw ar ol rhiw, cawn aml olwg ogoneddus ar eangder glas y môr ac ar y rhes o fryniau gwyrddion saif yn erchwyn tragwyddol iddo. Wrth edrych ar res o fynyddoedd yn sefyll ar lan y môr, a'r tonnau'n ymddryllio'n ewyn cynddeiriog ar eu godrau, a hwythau'n syllu'n dawel i'r nefoedd, ni fedraf feio y bardd a alwodd eu tebig yn “ rhes ddwyfol o fynyddau.”

Tan fwynhau golygfa ar ol golygfa, a rhyfeddu mor las oedd glas y môr ac mor wyrdd oedd gwyrdd y bryniau, daethum i bentref bychan iawn, ar ochr y ffordd, a ffordd seth yn torri ohono at eglwys, edrychai fel pe newydd ei hadeiladu. Yr oedd y tai yn lân fel yr aur, fel y mae tai bron bob amser ar lan y môr, y gwragedd yn ddiwyd, a'r plant yn llygadlon. Ie, hysbysid fi, honno oedd eglwys Henfynyw, ac yr oedd croeso i mi grwydro drwy ei mynwent eang.

Cedwir y fynwent yn ddestlus a glân, ac y mae serch tuag ati yn amlwg. Gofelir yn dda am y fynwent, fel rheol, os bydd llawer o rai ieuainc yn

gorwedd ynddi. Naturiol iawn yw hynny; pan ysgerir rhai yn eu hieuenetid y mae'r ing yn fwy angerddol a'r hiraeth yn hwy ei barhad. Ni fedrwech dreulio hanner awr ym mynwent Henfynyw heb weled mai bedd y morwr sydd amlycaf ymysg ei beddau hi. Saif ar fryn uwchben y môr, ac yn ei olwg. Y mae'r môr megis yn ymdawelu wrth ddod ati, mewn euogrwydd neu mewn hedd. Aberth y môr yw llawer o'r rhai sy'n huno ynddi; aberth y môr hefyd yw mwy o'r rhai sy'n huno yn y dyfn-deroedd, ond a chof am danynt ar y cerrig hyn. Buont feirw, rai yn ieuainc a rhai ym mlodau eu dyddiau, y llanc bywiog uchelgeisiol ar ei fordaith gyntaf, a'r capten cydnerth oedd yn gwneud ei fordaith olaf cyn ffarwelio â'r môr i dreulio ei ddyddiau i fwynhau enillion ei lafur. Wrth grwydro o fedd i fedd, y mae dychryn yn ein meddiannu; ni welsoch erioed fynwent a chynifer o'r rhai sydd ynddi wedi marw'n ddisyfyd ac anamserol. Y mae arnoch ofn edrych ar y garreg nesaf, y mae ias ar ol ias o gydymdeimlad chwerw yn mynd i'r galon wrth weled mai morwr sydd yn huno yno hefyd. O'r braidd na felltithiech y môr am ei raib a'i greulondeb. Ac wrth godi'ch llygaid dros furiau'r fynwent at ei wyneb mawr llydan, y mae fel pe'n cilwgu arnoch am galedu eich calon tuag ato, ac yn edrych yn frochus a bygythiol.

Dyma'r argraff sydd ar y garreg gyntaf dynnodd fy sylw,—

Er serchus gof
am

Capt. JOHN RICHARDS

o Lannon, yr hwn a gollodd ei
fywyd pan ar ei fordaith o Gloster
i Bilboa, Rhag. 12, 1874, yn 29 oed.

JANE RICHARDS

ei wraig, a fu farw Medi 24,
1874, yn 22 oed.

Ei geiriau olaf oeddynt,

Gan fod gennyf chwant i'm dattod ac i fod
gyda Christ, canys llawer iawn
gwell ydyw.

JOHN LEWIS RICHARDS

eu mab, a fu farw Hydref 24, 1874,
yn 6 wythnos oed.

Dyna i chwi garreg fedd, mewn geiriau syml,
llawn gwirionedd, yn adrodd ystori o ing na all yr
un bardd na nofelydd wneud un i apelio cymaint at
ein teimlad. Dyma fam yn dymuno marw, er fod
plentyn pythefnos oed yn hawlio ei gwên a'i nawdd.
Dyma'r plentyn yn dilyn y fam wedi mis o nychu.
A dyma'r môr trugarog yn cymeryd meddiant o'r
tad crwydredig i'w fynwes ddihysbydd. Mor lwyr
y chwalwyd teulu a chartref y morwr, mewn rhyw
ddeufis o amser.

Arhosais wrth fedd arall. Gwelais rif oed llawn,
ac adnod dangnefeddus, a dechre ystori dra
gwahanol, a thybiais i ddechre nad oedd ystori
am frad y môr yno. Ond yno hefyd yr oedd hanes
boddi, ac englyn y clywais ei adrodd lawer gwaith,—

Er cof am

JENKIN DAVIES,

Gweydd, Llyswen, yr hwn
a fu farw Tachwedd yr 8, 1874,
yn 70 mlwydd oed.

“Digonaf ef â hir ddyddiau, a dangosaf
iddo fy iachawdwriaeth.”

Hefyd am

THOMAS ei fab, yr hwn a gollodd
ei fywyd trwy suddiad y brig
"Pilgrim," Aberystwyth, yn Bay of
Biscay, Chwefror y 3, 1874,
yn 30 mlwydd oed.

Iach hwyliodd i ddychwelyd—ond ofer
Fu dyfais celfyddyd;
Y môr wnaeth ei gymeryd,
Ei enw gawn, dyna gyd.

Y môr, y môr yn y pellter, weithiau'n gwgu,
weithiau'n fflachio gwên fradwrus dan sydyn
dywyniad haul; a'r môr, y môr, ar bob carreg, yn
cymeryd rhywun yn aberth o flodau ieuencid neu
o gryfder nerth. Trof i orffwys i edrych ar y
glaswellt gwyrdd hyfryd, ac ar y blodau dan eu
cyfoeth o liwiau. Anaml, hyd yn oed yng nghysgod
perthi Powys, y gwelais friallu dan liwiau mwy
gogoneddus; ni welais erioed mo flodau balchter
Llundain mor gain. Ac y mae ôl gofal tirion i'w
weled ymhobman; y mae un o blant y fro wedi
taclu'r llwybrau er cof am y dyddiau y bu yma'n
chware.

Dyma hen garreg fedd, sy'n dangos pa dafodiaith
siaredir yn y cyffiniau hyn. Yr oeddwn wedi cyf-
arfod gŵr dysgedig yn y gwesty yn y bore, a dywedai
ef y gellir rhannu sir Aberteifi fel y rhennir Ffrainc,
yn ol fel y dywedir y gair "oes." Yn ochr y môr,
dywed pawb "oes"; yn yr ochr dde ddwyrain,
sy'n taro ar Gaerfyrddin, dywedir "o's"; ac ar yr
ochr ddeheuol, ar gyffiniau Penfro, dywedir "os."
Y gwahaniaeth oedd gen i yn fy meddwl oedd rhwng
"au" ac "oi." Ar y garreg fedd ceir enw "Jenkin
Thomas of Caehaid, died July. 25, 1771, aged
80," a'r pennill hwn,—

“ Dymma'r fan dan garreg fedd
 Gorphwysa fi mewn isel wedd,
 Gan ddisgwyl boinydd am y dydd
 Im gael fy rhoi o'm rhwymau'n rhydd.”

Gadewch i ni grwydro eto, a chawn ychwaneg o hanes y dinistr ar fywyd wnaeth y môr. Dyma hanes dau frawd yn boddi, y naill yn ddeg ar hugain a'r llall yn ddeunaw. Dywed carreg draw fod capten y llong wedi boddi yr un pryd. Felly, yn ol pob tebig, aeth y llong i lawr. Dyma eto hanes tad a mab yn boddi gyda'i gilydd, yn y *Lima*, y capten yn ddeugain, a'i fab yn ddeunaw oed.

Y mae'n amlwg fod holl foroedd y ddaear yn cadw gweddillion bechgyn Aberaeron. Weithiau cludid y corff boddedig adre i'w gladdu; ac nid llon oedd hwyliau'r llong wrth gyrchu'r porthladd bach cartrefol pan gludai gorff marw gŵr ieuanc ar ei bron. Cleddid rhai yn y porthladd agosaf i'r lle y boddasant, ar dueddau de Amerig bell neu yn Rotterdam garedig agos. Ond am y llu mawr, y maent hwy yn y gwahanol foroedd, ac ar lawer carreg fedd ceir yr ymadrodd,—“ Nid edwyn neb ei fedd ef hyd y dydd hwn.” O arfordir Ynys yr Ia hyd gulfor ystormus Magellan, ym Môr y Canoldir ac ym mhellteroedd y Môr Tawel, y mae bechgyn Aberaeron yn huno. Ac o'r fynwent yr wyf ynddi, i hedd yr hon y dihangodd llawer ohonynt, gwelaf y môr yn galw ac yn denu. Ac yn sier, i fechgyn galluog ac anturiaethus, nid oes yr un ffordd mor hudolus a dyfnffordd y don.

Safaf yn syn. Dyma fedd un y cefais ymgom ddifyr âg ef,—

THOMAS DAVIES, (*Compton*):
 died Oct. 28, 1907.
 Aged 67.

A dyma hanes ei feibion yn ei ymyl. Y mae llun angor ar feddfaen tlws ei fab o forwr, a foddodd yn ystod nos Hydref 27, 1903, ar fordaith o Iquique. Y mae enw'r mab arall,—y Parch. Jenkyn Davies, B.A., ficer Llanbadrig ym Môn,—ar garreg fedd ei dad. Ond mor bell oddiwrth ei gilydd yw'r teulu, un mab yn eithaf Cymru a'r llall yn eithaf y byd. Hûn yn dawel, lenor dawnus a difyr, yn heddy yn fynwent uwchlaw'r môr.

Dyma fedd un o fyfyrwyr cyntaf Coleg Prifysgol Cymru, suddodd i'r bedd tra'n llawn addewid am waith bywyd gwych,—

In
Loving Memory of
T. Z. JONES,
Born Feb. 17, 1853,
died March 29,
1892.

Dyma fedd un arall y clywais am dano, bedd y Parch. Dafydd Evans o'r Morfa, fu farw Awst 21, 1825, yn 56 oed; "ugain mlynedd yn bregethwr gyda'r Methodistiaid Calфинаidd gyda mawr lwyddiant." Ac yna, o heddwch bywyd yr efenglydd, dyma fi eto mewn dychymyg yn rhyghestloedd y môr. Dyma fedd Jenkyn Williams, ysgŭbwyd oddiar fwrdd yr *Adroit*; dyma'r manylion gyrrhaeddodd adre o lawer nos ystormus, o lawer môr pell, wedi ei gerfio'n gariadus ar fedd y morwr.

Ac eto bydd swyn yn y môr i'r ieuane dros byth. Y mae ei donnau gwynion yn galw, galw, o hyd, ar yr anturus, i weled glannau pell. Ym myd mater ac ym myd y meddwl, y mae'n galw i ryddid pethau gwell,—

“ Anchor in no stagnant shallows,
Trust the wide and wondrous sea,
Where the tides are fresh for ever,
And the mighty currents free ;
There, perchance, O young Columbus,
Thy new world of thought may be.”

Y mae arfordir gorllewinol Cymru, o Gaernarfon i Abergwaen, yn rhoi i wasanaeth y wlad gynifer o forwyr da ag unrhyw ran gyfartal o draethau'r ymherodraeth. Nid o rannau Seisnig Cymru y daw morwyr, ond o'r rhan Gymreig. Ac y mae y môr yn cynnyg gyrfa ardderchog i fachgen,—gyrfa ag iechyd, cyfoeth, a llwyddiant arni. Gymaint yn well, law a phen, yw ein hen gapteniaid na'r segurwyr sy'n ofni'r môr, ac yn aros ar y lan i gludo celfi ceiswyr pleser. Dysgid Morwriaeth yn yr ysgolion ar y traethellau hyn gynt, a rhoid tipyn o wynt iach y môr yn y Ddaearyddiaeth ; a daw amser eto, mae'n ddiâu, pan roir i'r môr ei le priodol yn efrydiau ac yn nychymyg ein bechgyn ieuaine.

A charedig iawn yw'r môr i'r anturus a'r dewr. Rhydd iechyd na fedr dim arall ei roi. Ychydig, mewn cymhariaeth, o forwyr sy'n cyfarfod â'u hangeu'n ieuanc. Y ffaith honno sy'n esbonio pam y croniclir hanes pob boddï mor fanwl yn y fynwent hon,—peth eithriadol yw. Fel rheol, y mae i'r morwr fywyd hir iawn. Dyma fedd morwr, Thomas Thomas o'r Pant Teg, fu farw yn 92 oed, ac y mae englyn o waith Caledfryn ar ei fedd,—

“ Drwy beryglon bron heb ri—yr hwyliais
Ar ael y dwfn weilgi ;
Angau, er im angori,
Wedi aeth a mywyd i.”


Wedi i mi gynefino âg amllder beddau'r morwyr, ac â'r ing oedd yn hyawdl guddiedig yn y cofnodion byr a syml, gwelwn y môr yn gwenu arnaf drachefn, yn heddwch mwyn ei eangder tyner glas. Onid oes fwy o farw ar y tir, allan o bob cymhariaeth, nag ar y môr? Onid ar y tir y mae'r haint a'r nychdod, onid ar wanegau hallt y môr y mae iechyd ac ynni parhaus? Nid oes gan y môr ei gleifion a'i anafusion fel y tir. Wedi ystorm y mae llai o ddifrod arno ef nag ar y tir. Ar y môr y mae mwy o ystwytho ac o ufuddhau i ddeddfau natur, ac felly y mae llai o dorri a dryllio arno ef. Nerth y tyner yw nerth y môr. Ar y tir ymgadarnha rhyw orthrymydd beunydd mewn grym a thraha, y mae'r môr yn dragwyddol rydd,—


“ Y môr, mor ddynol newidiol,
Ac eto mor ddwyfol yr un.”

Troais fy nghefn ar y môr yn y fynwent, gan hiraethu am ei weled wedyn, ac mewn heddwch tragwyddol âg ef. Cerddais y ffordd i'r briffordd yn ol, gan groesi honno, a mynd ymlaen i'r tir. Esboniasid i mi gan wragedd mwyn ymadroddus y gallwn fynd i lawr i Aberaeron hyd lwybr arall. Y peth a'm tentiai ymlaen oedd gogoniant lliwiau'r wlad ar y noson haf dawel falmaidd honno. Yr oedd ysblander melyn yr eithin yn ogoneddus ynddo ei hun, ond yr oedd yn fwy tanbaidd ddisglair o'i gymharu â thynnerwch dyfnlas y môr ac â glesni esmwyth hyfryd y bryniau. Deuai'r nos yn araf, ac y mae'n anodd dychmygu am fantell mor hyfryd yn cuddio cymaint o dlynsni.

Y mae Aberaeron wedi bod yn hir o gyrraedd y tren. Ond nid oedd yn anghysbell serch hynny. Y

lleoedd mwyaf pell yw'r lleoedd y mae llu o drenau'n rhuo drwyddynt bob dydd heb aros ynddynt, mwy na phe baent heb fod. Ond am Aberaeron, ni fu erioed yn bell, rhoddai'r môr lwybr parod i bob man. Y noson honno, cefais ymgom ddifyr â chynrychiolwyr llenyddiaeth, addysg, cyfraith a masnach y cwmpasoedd; a'm syniad oedd nad oes dim newydd yn y byd nad yw Aberaeron wedi ei bwyso a'i chwilio. O'i fôr a'i fynydd, dalied i fagu ac i anfon i'r byd rai'n meddu cadernid cymeriad y mynydd ac ynni bywyd y môr.





V.

PLU'R GWEUNYDD.*

YCHYDIG sy'n cofio haf mor ogoneddus a'r haf sy'n awr yn cilio i fysg hen hafau ein bywyd.† Haf goludog heulog ar y mynyddoedd,— beth sy'n well darlun o'r nefoedd na hynny?

Yn ystod ei ddyddiau euraidd hyfryd, gwnaeth haf eleni un gymwynas neilltuol â mi. Gwnaeth Gymru oll yn brydferth i'm golwg. Cyn hynny, yr oedd un lle cyn nad oeddwn wedi gweled ei brydferthwch. Yr oedd yn rhaid i mi fyned heibio iddo droeon bob blwyddyn, bodd neu anfodd. Deuai iasau oerion drwof wrth feddwl am dano. Eto nid oeddwn wedi cwyno wrth neb fod un lle cyn, yng nghanol Cymru, mor hagr i'm llygaid fel yr ofnwn edrych ymlaen at yr adeg y byddai raid i mi fynd heibio. Yr oedd cyfeillion i mi'n mynd heibio'n amlach na mi, ond ni chlywais hwy'n cwyno erioed. Y mae un o hen ysgolion enwocaf Cymru'n edrych i lawr ar y lle cyn gashawn, ond ni lethwyd athrylith ei hysgolheigion gan ddwyster trymaidd yr olygfa. Bu rhai o feirdd mwyaf melodaidd Cymru yn byw ar ei ymylon, ond ni ddistawyd eu hawen hwy ac ni oerwyd eu gwladgarwch gan drem oerllyd y lle.

* Yr wyf yn gobeithio na themtia pennawd yr ysgrif hon yr un llysieuydd i'w darllen. Nis gwn, cyfaddefaf yn rhwydd, ai *Eriophorum vaginatum* ai *Eriophorum polystachyum* welais yn y pellter.

† Ym mis Gorffennaf 1911 yr ysgrifennwyd yr erthygl hon.

A dyma finnau'n teimlo'm gwaed yn fferru, a'm meddwl yn crebachu, a phob teimlad gwladgarol yn oeri, wrth fynd heibio. Cors goch glan Teifi oedd y fan.

O orsaf Ystrad Fflur i orsaf Tregaron rhed y ffordd haearn dros gyrrau neu hyd finion cors am dros bum milltir o ffordd. Ar y chwith, wrth deithio tua'r de, ceir y mynyddoedd eang,—Berwyn canolbarth Cymru,—sy'n gwahanu dyffryn Teifi oddiwrth gymoedd uchaf Claerwen a Thowi, a'u hafnau mynyddig mwynion. Ar y dde gwelir llethrau'r Mynydd Bach, a'i ffermdai clyd ar y godrau a'r llechweddau, a'i hanes yn ddiddorol o'r amser y cerddai llengoedd Rhufain ei Sarn Helen hyd ddyddiau yr athrawon a'r beirdd a'r efengylwyr roddodd fri ar ei bentrefydd,—Lledrod, Bronnant, Blaen Pennal, Penuwch, a Llangeitho.

Ond rhwng y mynyddoedd hyn gorwedd y gors farw, oer. Ar ei gwastadedd hi ni thyf blodau gweirglodd a gwndwn Cymru. Yn ei mynwes leidiog ddu cyll aberoedd Cymru eu dwndwr mwyn a'u purdeb grisialaidd; yn lle ymuno âg afon for-dwyol neu gyrraedd môr heulog, collir golwg arnynt yn y gors hagr,—Marchnant a Glasffrwd a Fflur a Chamddwr a'u chwiorydd llawen. Nid oes ffordd yn ei thramwy; craffwch o'r tren, ac ni welwch lwybr ar ei thraws o Ystrad Meurig i Dregaron. Nid yw'n llyn ac nid yw'n ddôl; ond y mae'n llenwi lle fuasai'n llyn tlws neu'n ddôl brydfêrth, ac y mae wedi cyfuno ynddi ei hun bopeth sy'n anhardd mewn dŵr a thir, a dim sydd hardd. Y mae hen ffyrdd dynion fel pe'n ei gôchel, ac y mae'r ffordd haearn yn myned heibio iddi gan ei hosgoi.

I'm meddwl i, cyfunai bopeth wna aeaf a mynydd-dir yn anghysurus,—tir gwlyb didramwy, pyllau oerion lleidiog, ambell goeden ddi-ffurf yn dihoeni, diffyg blodau a diffyg bywyd. Ai crynodod drwy'm enawd wrth ei gweled, fel pe bawn yn edrych ar Lyn Cysgod Angeu. Ond ni fedrwn beidio edrych arni wrth fynd heibio. Er fy ngwaethaf ni allwn dynnu fy llygaid oddiarni, yr oeddwn fel pe tan ei swyn oer. Wedi cyrraedd Tregaron, teimlwn fel pe bawn wedi cael fy nhraed ar dir-sych, yn oer a gwlyb, wedi bod yn ymrwyfo am oriau drwy laid. Ac ym mreuddwydion y nos cawn fy hun yn graddol suddo i'w mwd lleidiog du.

Ceisiais lawer gwaith ymryddhau oddiwrth yr atgasedd ati. Sefydlwn fy ngolwg ar ei theisi mawn. Ceisiwn ddychmygu am aelwydydd y ffermdai oddiamgylch yn y gaeaf, a'u tân mawn glân, siriol, a'u dedwyddwch yn dod o garedigrwydd y gors. Ond ofer oedd fy ymdrech. Llithrai fy meddwl yn ol er fy ngwaethaf at laid sugndynnol ac ymlusgiaid ffaidd ac anobaith bywyd.

Pan ddanghosodd haf eleni ogoniant newydd i mi mewn golygfeydd ystyriwn yn berffaith o'r blaen, a phan ddanghosodd berffeithrwydd lle y tybiwn i fod amherffeithderau gynt, trodd fy meddwl at Gors goch glan Teifi. Tybed ai yr un oedd hi o hyd wedi wythnosau o sychter haf? A orwedda i'n drom, wleb, farw, gan wrthod adlewyrchu dim o olud lliwiau a bywyd yr haul? Penderfynais fynd heibio iddi, rhag fod iddi hithau ei blodau. Unwaith newidiodd blodeuyn wedd gwlad i mi. Hwnnw oedd blodyn melyn dant y llew; gwnaeth amgylchoedd Glasgow, lle lleddir blodau eraill gan fwg y gweithydd, yn hyfryd â'i wên siriol.

Fel arfer, daethum hyd ddyffryn gwyrdd hyfryd Ystwyth. Yr oedd y gwres yn llethol, oherwydd mis Gorffennaf oedd hi. Yr oedd y gwair ysgafn yn sychu'n grin bron newydd ddisgyn oddiwrth y bladur, yr oedd pawb yn dianc i'r cysgod rhag y gwres. Oddiar ael y bryn, lle dringai'r tren dan goed hyfryd eu cysgod, gwelem danbeidrwydd yr haul ar y dolydd odditanom ac ar y bryniau a'r dyffrynnoedd draw. Toc daethom i ben y tir, lle y bu Ieuan Brydydd Hir yn hiraethu am dano,—

“ O, Gymru lân ei gwaneg,
Hyfryd yw oll, hoyw-fro deg !
Hyfryd, gwyn ei fyd a'i gwel,
Ac iachus yw, ac uchel ;
Afonydd yr haf yno,
Yn burlan ar raeau ro,
A redant mewn flloyw rydau,
Mal pelydr mewn gwýdr yn gwau.”

Dacw ysgol Ystrad Meurig ar ael y bryn. Mor hoffus oedd bywyd yr athraw Edward Richard, ac mor felys yw ei fugeilgerddi ar y mesur tri tharawiad. Bob tro y dof i'r llecyn hyfryd hwn, daw ei linellau melodaidd i'm meddwl, a hefyd y cof iddo unwaith adael ei ysgol am flwyddyn oherwydd fod ei gydwybod yn dweyd y dylai ddysgu ychwaneg. Ac yn awr wele'r gors o'n blaen, ac yr ydym ninnau ar ei minion.

A rhyfedd iawn, wele hi, nid yn ddu a thrist fel arfer, ond yn wen fel pe bai dan gaenen o eira. Nid eira mo hono, gwyddwn hynny'n dda, ar haf fel hwn. Yr oedd y gwynder yn fwy cain na gwynder eira, yr oedd yn wyn cynnes disglair hefyd, gwyn fel gwyn edyn angylion oedd. Nid oedd y gors yn wen i gyd, ond yr oedd y llanerchau gwynion oedd hyd-ddi fel pe'n taenu eu purdeb gwyn a

chynnes hyd y banciau a'r mawnogydd i gyd. Yr oedd y ffosydd wedi eu gweddnewid dan wên heulog yr haf, nid oedd eu duwch yn edrych yn hagr na'u dŵr yn oer. Yr oedd golwg gartrefol groesawgar ar y teisi mawn, dygent i gof y mwg glas fydd yn esgyn o simneiau bythod Cymru ar nawn haf. Yr oedd y gors wedi ei gweddnewid.

Plu'r gweunydd, hen gyfeillion mebyd i mi, oedd wedi gwneud y gwaith. Yr oeddynt yno wrth eu miloedd, yn llanerchi o wynder ysgafn, tonnog, byw, heulog. Hwy roddodd i'r hen gors ddu hagr ei gogoniant gwyn. Yr oedd eu plu tuswog yn llawnion, ac eto'n ysgeifn. Gwyddwn mor esmwyth yw eu cyffyrddiad, un o bleserau mebyd oedd eu tynnu ar draws ein bochau. Ond ni welais hwy erioed yn edrych mor ieuanc, a'u gwyn mor gannaid, a'u hysgogiadau mor fywiog. Yr oedd yr awel ysgafnaf yn gwneud iddynt wyro, fel pe baent filoedd o angylion yn addoli. Yna'n sydyn taflent eu pennau'n ol, ac ysgydwent, fel pe baent dyrfaoedd o rianedd mewn gwisgoedd gwynion yn dawnsio. A thoc ymdawelent, a gorffwysent yn eu gogoniant, dan adlewyrchu goleu'r haul, yn esmwythach ac yn burach goleu na phan y disgynnai arnynt. Tybiwn fod y brynau a'r mynyddoedd o amgylch yn codi y tu ol i'w gilydd i edmygu plant angylaidd y gors, a bod llwybrau dynion yn cadw oddiwrthynt rhag torri ar heddwech mor dyner a difwyno tlysni mor bur. Yr oedd cyfuniad o wynder, disgleirdeb, a chynhesrwydd yn y fan olaf yng Nghymru y buaswn yn mynd i chwilio am dano.

Daeth llond fy nghalon o ddedwyddwch. Yr oeddwn mewn heddwech â'r lle na hoffwn gynt;

yr oedd pob llecyn yng Nghymru yn awr yn brydferth i mi. A'r dydd hwnnw sylweddolais lawenydd y ddynol ryw pan welodd gyntaf dlysnï hedd y mynydd, y rhostir, a'r môr. Yn llenyddiaeth Lloegr, beth bynnag, diweddar yw'r gwelediad hwn. Nid oes yn Shakespeare a Milton gydymdeimlad â mawredd y mynydd, ag eangder y rhostir maith, â bywyd diflino'r môr; edrychid arnynt fel pethau aruthr ac ofnadwy. Ond danghosodd Gray fawredd y mynyddoedd, a Cowper brydferthwch pruddglwyfus y tiroedd gwastad, a Collins swyn yr anialwch, a Byron ardderchowgrwydd y môr. A phan ddanghosodd Wordsworth i'w genedl holl dlysnï natur wyllt, daeth dyn i heddwch â'r hyn a ofnai gynt; a daeth i'w galon lawenydd fel y llawenydd hwnnw deimlais i pan ddanghosodd plu'r gweunydd imi brydferthwch y gors.

Cododd awydd arnaf am aros yn nyffrynnoedd Ceredigion, i lenwi f'enaïd â thlysnï. Crwydrais i lawr dyffryn Teifi, i weled ei bethau prydfertaf. Yr oedd y dŵr ddaethai heibio i blu'r gweunydd o'r gors yn glir fel y grisial, ac yr oedd dwndwr Teifi mor felys a chywyddau Dafydd ab Gwilym,—

1340
 “ Teifi lân, man y ganwyd
 Dafydd y prydydd, pur wyd;
 Dy lif, y loywaf afon
 Fal Dafydd y sydd yn son.”

Y rhan fwyaf anhebig i gors Caron ar gwrs afon Teifi yw y dyffryn swynol o Landyssul i'r môr. Pe cychwynem yn hamddenol o Landyssul i lawr yr afon, caem olygfeydd digymar pan fo lliwiau'r haf ar y wlad. Yn Llandyssul daw cof am Wilym Marles, am ei fywyd egniol a'i awen leddf.

Newydd adael yr orsaf, aiff y tren drwy agorfa gul yn y mynydd, lle mae'r afon wedi torri llwybr trwy'r creigiau. Yna ymegyr o'n blaen ddyffryn coediog, goludog o wair ac yd. Yr oedd arogl y gwair yn persawru pob awel. Yr oedd yr amaethwyr wedi codi'n fore, ac yr oedd gwair caeau cyfaeon yn ei ystordiau, a chribiniau llanciau a morwynion yn eu prysur daenu. Wrth sychu, llenwid y wlad â sawr hyfryd y gwahanol ddail. Rhwng y lliwiau a'r peraroglau, hawdd oedd meddwl fod tlyzni dyffryn Teifi'n berffaith. Buom yn ymdroi'n hir yng Nghastell Newydd Emlyn. Gwelsom y castell ar ei fryncyn, a'r afon yn troi o'i amgylch, a'i furiau cadarnaf, sef y rhai oedd yn wynebu'r gorllewin diamddiffyn, eto'n aros. Gwelsom y wennol yn llaw'r gwehydd diwyd, a'r brethyn cartref yn graddol ymestyn; mewn ychydig iawn o leoedd yng Nghymru'n awr y clywir sŵn y wennol hon. Gwelsom Drefhedyn, ar ochr sir Aberteifi i'r afon, lle bu'r argraffu cyntaf yng Nghymru. Gwelsom gapel y Parch. Evan Phillips, yr oeddym newydd weled cynulleidfa fawr Sasiwn y Bala yn foddfa o ddagrau wrth wrando ar ei lais mwyn yn rhoddi neges yr efenglydd yn null meddwl bardd. A chawsom gysgu yn sŵn dwndwr afon Teifi.

Yn blygeiniol iawn cychwynasom ar hyd y ffordd tua'r môr. Cyn hir daethom o goed i'r wlad agored. Ar y chwith i ni yr oedd ochrau sir Gaerfyrddin, cymoedd byrrion coediog, y llethrau oll yn llwythog o wair ac yd; a bryniau pell, oll dan lafur, y tu hwnt iddynt. Ond, er ardderchoced yw golygfeydd sir Gaer yn y pellter, y mae i'r dyffryn odditanom swynion mwy. Daethom i Genarth, lle mae'r afon yn dawnsio o graig i graig o gwm cul, a gwelsom

un o'r pentrefydd tlysaf yng Nghymru. Ond hyd yn oed yma gwelsom dai gweigion ac adfeiliedig,— y mae'r bobl yn gadael hyd yn oed y lle paradwysaidd hwn. Wedi dilyn tro yn yr afon, daethom i olwg dyffryn cul hir, yn mynd ymhell i'r bryniau ar y chwith. Ynddo y mae enw Pontseli yn dod a Herber Evans i'r meddwl, pan oedd yn swyno gwlad wrth son am glod David Livingstone a Florence Nightingale yn mynd "hyd ymhell." Ac mae enw'r dyffryn,—Glyn Cuch,—yn dod ag un o'r mabinogion mwyaf swynol i'r cof. Onid yma y daeth Pwyll, ac onid oddiyma y cychwynnodd, "yn ieuencid y dydd," i'r anturiaethau wna i'r ieuanc ddal ei anadl, hyd yn oed yn yr oes faterol hon, wrth ddarllen eu hanes? Ac y mae'r dolydd gleision, dros yr afon lonydd heddychlon, dan niwl teneu'r bore, yn lle y gallasem bron ddychmygu gweled y ddwy erchwys o gŵn hela yn cyfarfod ei gilydd, pan gyfarfyddodd Pwyll ac Arawn.

Fel mae'r haul yn gwasgaru'r niwl, y mae hyfrydwch y dyffryn yn ymddadlennu. Y mae'r ffermdai gwyngalchog yn fflachio fel gemau o'u hymylwaith o goed gwyrddion. Y mae sir Benfro ar ein chwith yn awr. Dros yr afon a'r coed a'r caeau llechweddog gwelwn fynyddoedd tawel gleision, llwydion, pell. Dywedir wrthym ein bod yn gweld y Frenni Fawr dan haul y bore.

Os gofynnir enw'r eglwys sy'n sefyll mewn man mor hyfryd ar drofa'r afon draw, atebir mai Manor Deifi. Yn y fynwent acw y gorffwys Alun, y melusaf o feirdd Cymru, un yr oedd ei awen yn debig iawn i ysbryd y fro dyner a glwys hon.

Lle tlws iawn yw Llechryd, lle mae llawer cwrwgl ger yr afon lonydd, a phont yn croesi i Gilgeran.

Oddiyno mae'r ffordd yn sythach na'r afon. Dol-enna'r afon yn hamddenol heibio i gastell Cilgeran, ceidw'r ffordd ei huniondeb hyd y tir uchel. Ar y llechwedd o'n blaen gwelwn laweroedd o dai gwynion ar lechweddau hyfryd. Llandudoch yw, y tu draw i'r afon. Yr ydym ninnau'n disgyn yn gyflym yn awr at yr afon eto. A dyma ni yn cyrraedd tref lân a phrydferth Aberteifi.

Nid oes gennyf eiriau i ddarlunio golud tlysni dyffryn Teifi. Ond er teced yw bronnydd Llandyssul, er maint swyn Castell Newydd Emlyn, er fod y wlad ar ei thlysaf yng Nghenarth a'r môr ar ei hawddgaraf yn Aberteifi, ehed fy meddwl yn ol at blu'r gweunydd yn y gors a ofnwn gynt. Hwy yw plant pur y mynyddoedd, lle mae'r awel iach yn deffro'r meddwl, ac yn rhoi hoen yn lle suo i gwsg.

Yr wyf yn cofio imi, pan yn fachgen, orfod mynd heibio mynwent yn y wlad tua hanner nos ar ddiwedd taith hir. Yr oedd bachgen hŷn na mi gyda mi, a gofynnais iddo a oedd arno ofn. "Nac oes," oedd yr ateb syml, "y mae mam yn gorwedd yna." Pan af finnau heibio i Gors goch glan Teifi eto, ni theimlaf fy ngwaed yn oeri. Gwn fod yno'n huno filoedd ar filoedd o blu'r gweunydd, ac y deffroant pan ddaw pob haf, ac y bydd y gors yn llety mwyn a chynnes i angylion.

VI.


DYDDIAU MAFON DUON.

CLYWAIS mai prif gŵyn un o athrawon Prif-ysgol Cymru yw ei fod yn gorfod troi tua'i goleg i ddarlithio pan y mae'r mafon duon ar aeddfedu. O'm rhan fy hun, y mae fy nghydymdeimlad yn hollol gydag ef. Llawer gwell gennyf fuasai bod yn rhydd hyd ddiwedd Medi, a bod yn gaeth ar gyfer hynny yng ngwyliau'r Nadolig. O hynny y ceid mwyaf o ynni ac ysbrydoliaeth i wneud y gwaith goreu.

Ond eleni cafodd yr athro yr wyf yn son am dano ei ddymuniad. Oherwydd yr haelioni o wres a goleuni dywalltodd haf eleni ar ein daear, aeddfeddodd popeth yn gynnar. Dywed rhywun fod llyfr Natur ar ei brydferthaf pan fo'r hydref yn troi ei ddail. Eleni daeth y prydferthwch yn gynnar,— gwelwyd y gogoniant fflamgoch ar ddail llwyn a pherth, a'r disgleirdeb aeddfed ar rudd y mafon duon oedd yn eglur yn ymyl lliwiau llwydgochion y dail. Nid oes athraw pryderus nac efrydydd gwelw yn troi'n ol eleni heb gael digon o haf i lenwi y gaeaf gerwinaf â'i atgofion mwyn. *gams ynd*

Hudwyd finnau i hel mafon duon.* Yr oeddwn yn anfoddlon wrth gychwyn, gan fy mod wedi meddwl dechre o ddifrif ar fy ngwaith y dydd cyntaf o Fedi. Ond, pan gyrhaeddais yr orsaf fynyddig,

* Ffrwyth y fwyaren (*rubus fruticosus*, *Black-berry* bramble). Mwyar duon y gelwir hwy yn y De.



NAWN O HAF.

[Tud. 58.

“ Dywed rhywun fod llyfr natur ar ei brydferthaf
pan fo'r hydref yn troi ei ddail.”

Drws y Nant wrth ei henw, lle yr oeddym i gychwyn yn uwch i'r mynyddoedd, teimlais yn llawen iawn fy mod wedi dod. Ac yn awr, pan y mae gwyntoedd hiraethlawn Tachwedd ar eu ffordd at fy annedd, yr wyf yn teimlo môr ffodus oeddwn, oherwydd y mae atgofion pen y brynïau yn aros yn fy meddwl a iechyd pen y brynïau yn aros yn fy ngwaed.

Yr oedd yr awel yn adfywiol ac yn lleddf. Anadlai'n ysgafn o'r de-orllewin. Yr awel hon yw prif gymhwynasydd daear Cymru. Oni bai am ei hymweliadau cynnes tyner hi, buasai ein gwlad dan eira bythol fel canol Labrador yr ochr arall i'r Werydd ar ein cyfer. Crwydra o'r môr dros ein brynïau, ac y mae ei hymweliad yn fwy bendithiol nag ymweliad Olwen gynt, oherwydd gedy laswellt gwyrdd dros yr holl wlad, o'r glyn mwyaf cysgodol i goryn y mynydd moel amlycaf. Rhydd glôg o darth a niwl teneu dros y bronnydd, na allai yr un ddewines roi eu gwell, a cheidw y rhai hynny wres a bywyd yr haul. A'r diwrnod hwnnw, wrth anadlu ar ein hwynebau, yr oedd ei chyffyrddiad fel y gwin. Deffroai holl egni corff a meddwl, gwnai i ni weled fod pethau amhosibl yn bosibl a phethau anodd yn hawdd.

Yr oedd lliwiau'r mynyddoedd yn brydferth iawn, yn bob cyfuniad o las a gwyrdd. Ond edrych tua'r de gwelem drumaû gleision Cader Idris. Codent yn rhes hir, yn uchel uwchlaw'r dyffryn. Yn y rhes falch yr oedd y Gader ei hun yn amlwg yn y canol. Eu lliwiau oedd hynotaf. Rhwng y rhannau oedd dan wên haul a'r rhannau oedd yn y cysgodion, yr oedd pob arlliw a gwawr o las y gellid dychmygu am dano. A than y mynyddoedd, lle chwareuai goleuni'r haul ar gaeau o adlodd ac ar gaeau o

sypiau yd parod i'r ydlan, yr oedd yno liwiau o borffor ac aur na all y llys gwychaf ddangos eu tebig.

Ac yr oedd yno fiwsig hefyd. Yr oedd afon Wnion, yn afiaeth ieuanc ei morwyndod, yn gwmni diddan inni trwy'r dydd. Yr oedd ei dŵr yn dryloyw ar ei graean glân, a'r mafon duon yn gynhaef prydferth yn crogi dros ymyl ei llif rhedegog. Dawnsiai, gwenai, llamai'r afonig; yr oedd yr heulwen ar ei dwfr, pan yn wyn wrth neidio o garreg i garreg, yn gwneud iddi ymddangos fel pe'n codi ei llaw, ac yn galw arnom ar ei hol. Yr oedd bywyd yn ei sŵn hefyd, yn ei murmur mwyn ac yn ei sisial dedwydd. Nid y hi'n unig oedd yn canu; yr oedd aberoedd eraill yn uno mewn un gydgan fawr, er mai'n gymysglyd, ond eto mewn cydgoradiad perffaith, y clywem ni hwynt. Yr oedd yr Wnion welem ni fel genethig hawddgar yn prysuro i ganu soprano yn y côr glywem yn is i lawr, lle clywid "trymru ac islais," chwedl un o feirdd Arfon, y rhaeadr islaw.

I fyny gyda glan yr afon yr oeddym i fynd. O bobtu inni yr oedd mynyddoedd uchel. Ar y chwith yr oedd y Foel Ddu, yn codi i fyny dros bymtheg cant o droedfeddi, a thu ol iddi yr oedd y Rhobell Fawr, yn codi'n agos i wyth gant o droedfeddi yn uwch wedyn. Ar y dde yr oedd trum ardderchog yr Aran, a thrwy gymoedd rhaeadrog caem gipolygon ar Aran Fawddwy ac Aran Benllyn, y naill yn 2,970 a'r llall yn 2,901 troedfedd uwchlaw wyneb y môr. Y gyntaf yw'r uchaf yng Nghymru y tu allan i Eryri. Hiraethem am gopa'r llall, lle y mae llyn eang o ddwfr pur, haf a gaef; yr oedd ei phen fel pe yn ein hymyl, er fod yn rhaid dringo dros ddwy fil o droedfeddi iddo o'r fan

y safem ni. Ond y mae sibrwd afon Wnion yn ein galw'n ol at y mafon duon.

Y mae'r awel yn codi perarogl o'r llysiâu, fel yr ydym ninnau'n codi mafon oddiar y mieri. Y mae'n arogl llawn a goludog, ac yn hyfrytach na'r mwsg. Chwiliasom o ba le yr oedd yr awel yn ei gael. Deuai o'r mintys gwylltion,* llysiâu'r mel,† chwerwlys yr eithin,‡ a gwynwydd|| aroglus. Medraf gofio arogl per y pedwar hyn, er nad oes gennym enwau ar aroglau fel sydd gennym ar liwiau; ac wrth geisio ail godi'r olygfa honno o flaen fy meddwl, yr wyf yn cofio hefyd yr arogl gymysgai awel y gorllewin i bersawru ei sandalau wrth grwydro dros y glynnoedd a'r bryniau hyn.

Yr oedd llawer o'r blodau wedi aros yn hwy na'u hamser, fel pe'n methu gadael bro mor gain. Yr oedd brenhines y weirglodd wedi mynnu gwisg o hen aur. A phwy feddyliech chwi oedd yn codi eu pennau, ac yn ymryson â'r frenhines mewn gwisg o borffor a *heliotrope*? Neb amgen na phys y llygod.§ Ac yr oedd cylch yr eos,** safai'n wylaidd lle bynnag nad oedd eraill eisiau bod, wedi tynnu eu lliwiau o'r awyr yn hytrach nag o'r ddaear, oherwydd yr oedd rhywbeth yn eu glesni tyner yn sibrwd am yr angylion fu yn ein gwarchod, y rhai gwaethaf o honom, yn nyddiau heulog bore oes.

Hyd yn oed i un heb wybod dim am lysieuaeth, y mae blodau'r Garneddwen yn agor byd o ryfeddodau. Dyma ddau flodeuyn yn tyfu yn ymyl ei

* *Mentha arvensis* corn-mint.

† *Spiraea ulmaria*, meadow-sweet, llysiâu'r mêl.

‡ *Teucrium Scorodonia*, wood-sage.

|| *Lonicera Periclymenum*, gwyddfid, wood-bine, honeysuckle.

§ *Cicer*, chick pea.

** *Scilla nutans*, harebell.

gilydd, dau nad oes neb wedi eu hau, dau nad oes neb yn gofalu am danynt, dau elwir yn lladron tir yn ddigon aml. Y llynedd y daeth y naill yma. Pe gofynnech i amaethwr beth yw enw'r blodyn glas tal, dywedai nad oes enw iddo. mai gyda'r hadyd y daeth o ddeheudir Rwsia; a lled awgryma, dan daflu trem ddiogrosaw at y trespaswr talog, na fydd eisiau enw arno, gan nad yw i aros yn y tir yn hir. Dywed mai enw'r llall yw rhawn y march,* a bod hwnnw yno er pan mae ef yn cofio ac er pan oedd ei dad yn cofio o'i flaen. Da y gall ddwyed hynny. Pan oedd tân a mŵg a lludw a cherrig anferth yn codi i awyr lawn mellt a tharanau'r cynfyd, yr oedd rhawn y march yn y cymoedd hyn.

Yr oedd yn hawdd rhoi coron i un goeden eleni, a'i chyhoeddi'n frenhines y cymoedd. Y griafolen† yw hi. Y mae'r griafolen yn hardd bob amser. oherwydd prydfferthwch ei ffurf yn bennaf. Ond eleni yr oedd ei lliwiau yn gwneud i rai sylwi arni na welasant ei phrydfferthwch erioed o'r blaen. Coch a gwyrdd oedd y lliwiau hynny. Sylwais ar dlysnï'r griafolen lawer gwaith. Ond eleni sefais mewn syndod wrth weled goched oedd ei haeron, cochter esmwyth tryloyw yn erbyn gwyrdd goludog y dail.

Ni welsom ond ychydig o adar, ambell asgell fraith‡ a'r haul yn fflachio ar wyn ei haden, yn gwibio'n ddistaw o lwyn i lwyn. Ond drwy'r dydd cawsom gwmni miloedd o gacwn geifr|| a gwenyn. Yr oedd y gacynen a minnau, yn ddigon aml, yn disgyn ar yr un fafen. Canai hi'n hapus, tybiwn

* *Equisetum*, horse-tail.

† *Pyrus Aucuparia*, cerddinen, mountain ash.

‡ Asgell arian, pine, *Chaffinch*.

|| *Vespa vulgaris*, wasp.

yn ofer ei bod yn dynwared su'r afon â'i hedyn. Na, ni chlyw hi sŵn yr afon na dim sŵn arall; eithr gwêl liwiau'n dda, a hwyrach y medd ryw synwyr na feddwn ni. Ac mor brydferth oedd ei lliwiau wrth iddi sefyll ar y ffrwyth du. Yr oedd y rhesi gwyrddaur sydd ar draws ei chefn yn troi'n euraidd ddisglair yn yr haul; ac yr oedd y llinellau a'r ysbotiau duon yn gwneud llewyrch aur ei chefn yn fwy tanbaid fyth. Yr oedd ganddi ddigon o amynedd, symudai'n ddiddig oddiar fafen y mynnwn i roi'm bysedd arni. Y mae'n ddiddig oherwydd ei bod yn gweithio mor galed. Cwyd yn fore, ymhell o flaen y wenylen, a noswylia ymhell ar ei hol. Y diwrnod cynt yr oedd plant yn tynnu nyth caewn. Rhaid dweyd y gwir, yr oedd y caewn, er eu tlysed, fel pla eleni. Tra'r oedd y plant wrth eu gwaith daeth hen filwr heibio. Milwr dewr oedd y milwr. Yr oedd wedi cerdded blynnydoedd, ol a blaen, i ddysgu cerdded yn syth, a rhoi ei droed yn fflat i gyd ar lawr ar unwaith, pe digwyddai i'r gelyn lanio ar y glannau heddychlon hyn. Dywedir iddo sefyll yn stond unwaith ar Green y Bala, lle'r oedd y milwyr yn dysgu cerdded i ryfel y fwyddyn honno, o flaen pwll o ddwfr. "Pam ti sefyll, a stopio, byddin?" ebai swyddog ieuanc prin ei Gymraeg. Atebodd y dewr nad oedd ef wedi rhoddi llw y croesai'r dŵr. Ni ymunodd â'r plant yn y gad yn erbyn y caewn, ond ceryddodd hwy am eu creulondeb. "Wnaist y caewn bach ddim drwg i neb," meddai, mewn llais un yn deisyfu heddwch, "ond iddyn' nhw gael llonydd." Gyda hynny daeth tyrfa o'r caewn heibio, wedi ymgynddeiriogi wrth weled eu cartref cywrain wedi ei ddiŵrio. Gan mai pen y milwr dewr oedd uchaf

ymsg y pennau, ymglymodd y caewn yn ei wallt a'i war a'i glustiau. Rhedodd yntau ymaith, gan waeddi a chyhoeddi rhyfel, fel pe bai'n arwain byddin i frwydr chwerw.

Nid lle unig yw y lle y mae'r Wnion yn dod o'r mynyddoedd. Y mae'r amaethwyr wrthi'n ddiwyd; y maent wedi torri pob mieri lle mae perigl iddynt gydio mewn gwlan dafad yn y gaeaf. Pobl fwyn a deallgar ydynt. Os mynnwch ymgomio am feirdd a llenorion, byddant wrth eu bodd. Draw acw y mae'r Blaenau, cartref Rhys Jones. Canodd ef ogan a maswedd, gwir yw, a dilornodd rai gwell nag ef ei hun; ond canodd gywyddau llawn doethineb a chrefydd. Efe oedd prydydd yswain y ddeunawfed ganrif, meddai ei ffaeiddau a'i ysbryd gormes, a chanai ei alargerdd. Yn y bedd yn unig y gwelai gydraddoldeb, a llawer cân ganodd i'r lefelydd mawr Angeu,—

“ Rhagor ni chaf, ar drafael,
Mewn rhych, rhwng y gwych a'r gwael.”

Yn ein hymyl wele Fryn Tynoriad y tu hwnt i'w fryncyn. Gŵyr pawb yma mai yno y ganwyd Ieuan Gwynedd; ac y mae ei goffadwriaeth ef yn fyw ac anwyl eto. Ac onid yr wythnos cynt, pan oedd yr yd yn aeddfed i'r cynhaeaf, y cludid Machreth hynaws, weithgar, a phur i dŷ ei hir gartref? Daeth adre, i ddisgwyl am yr hwyr, dan dderwen *i fawr* Arthur,—

“ Yma'r wyf mewn hen gynhefin
Wedi oes o grwydro ffol,
Yma try hen olwyn Amser
Hanner canrif yn ei hol.

“ Prun oedd lasaf y pryd hynny,
Ai dy ddeilen gyrllog di,
Dderwen Arthur, ynte wybren
Ddigymylau 'mywyd i' ”

Flynyddoedd yn ol, adwaenwn fechgyn y fro hon yn dda, a deuai llawer ohonynt dros y Garneddwen i'r un ysgol a mi. Rhyfedd gynifer ohonynt fu farw'n ieuainc. Bechgyn hoffus oedd dau fab Drws Melai; bu'r ddau farw a'u bryd, mi gredaf, ar bregethu efengyl Iesu. Dacw Esgair Gawr. Oddiyno deuai bachgen bochgoch, diddan, caredig. Ni fedrai ei symledd a'i wyleidd-dra guddio ei allu. Aeth William Williams i Rydychen, a chafodd anrhydedd uchel yno. Daeth yn athraw, yn arholydd, ac yn awdurdod ar iechyd y cyhoedd. Yr oedd ganddo reddf ac athrylith at wneud ardal yn iach; ac i un o'i dymer addfwyn a charedig ef, rhaid mai gwaith wrth ei fodd oedd y gwaith benthithiol ymddiriedwyd iddo. Pan noswyliodd mor gynnar, yr oedd yn brif swyddog iechyd Morgannwg; ac yr oedd ei symledd pur megis llen oleu yn dangos ei allu a'i athrylith yn fwy hygar.

Y mae un peth yn ein gwneud yn brudd iawn mewn ardal fel hon. Ar bob llaw gwelir anedd-dai, fu unwaith yn gartrefi clyd i blant dedwydd, yn prysur adfeilio. Y mae tô Bryn Tynoriad, lle adeiladwyd yn gain gan yr hen Syr Robert Vaughan, a'r lle bu tad Ieuan Gwynedd yn afradu mer ei esgyrn i wareiddio Ffridd y Celfiant, erbyn hyn yn dyllog. Edrych Cae'r Dynin yn hawddgar oddiar lethr y bryn, er nad oes wydr yn ei ffenestri na drws yn troi ar ei golyn ynddo mwy. Yn y plwy nesaf, sef Llanuwchllyn, y mae dros ddau gant o aneddau, gofid a'u haelwydydd yn gynnes, wedi mynd yn anhrigiannol. Yn y nesaf at hwnnw, sef plwy Llangower, nid yw'r boblogaeth ond hanner y peth oedd gan mlynedd yn ol. Ac y mae

safleoedd rhai o'r tai aeth i lawr mor hyfryd a dim ellid ddymuno. Cymerer, er esiampl, y Parc Bach, Cil Gellan, Hafod y Bibell, a Thŷ'n y Pant.

calmed bread.
 Ofer, mae'n ddiau, yw tynnu teuluoedd yn ol i hen gyfnod y bara haidd a'r ganwyll frwyn. Y mae'r byd wedi newid, a safon cysur wedi codi. Ond eto gall dedwyddwch trigiannol yr hen gyfnod ddod yn ol heb ei dlodi. Onid gwych fyddai i bob un sy'n gadael y tir i ennill ei fara yn y trefydd ddod yn ol i'w hen fro i dreulio ei wyliau?—Nid yw trenau'r ymbleserwyr haf yn aros yn y fro hyfryd hon; ac eto, o ran iechyd a difyrwch, dyma'r lle goreu i gyd. Ac onid yw hwn yn lle campus i yrru plant i'w magu, o leiaf ar dymhorau gwyliau'r trefi? Y mae plentyn fagwyd yn y wlad yn meddu meddwl cyflymach a dyfnach na phlentyn wedi ei fagu yn y dref. Medd fwy o eiriau, gŵyr fwy am natur, gwêl ymhellach. Y llynedd yr oedd un o arlunwyr blaenaf yr Amerig yn aros yn un o bentrefydd Cymru, i baentio plant. Yr oedd wedi anfon ei fachgen ei hun i aros ar fferm dros y gwyliau. "Y mae'n siwr o ddysgu *gwneud* rhywbeth yno," meddai. A'r gwir yw fod bywyd beunyddiol amaethwr yn foddion addysg iddo. Ond hwyrach yr awgrymi'n wawdus, ddarlennydd, y byddai'n dda i lawer ddilyn f'esiampl i, a mynd i ennill eu bywoliaeth yn y wlad trwy hel mafon duon. Dug hynny fi'n ol at fy mafon.

Black grapes
 Mafon ardderchog oeddynt. Ni welais rai cymaint erioed, na rhai mor felys. Yr oeddynt bron fel grawnwin duon. Disgleiriai eu duwch dan oleuni'r haul. Hulient y perthi megis â hyfrydwch. Disgynnent i faged neu law ond prin eu cyffwrdd. Yr oeddynt yno, ar lannau hyfryd yr afon, yn

ddigonedd. "Er cynnifer sy'n dod i hel," ebe genethig o amaethdy gerllaw, "nid yw'r mafon ddim llai." Wedi eu cadw, gwnant fwyd danteithiol at y gaeaf. Gall teulu hel mewn diwrnod ddigon i wneud amser tē'n hyfryd drwy'r flwyddyn. Y mae llwythi ar lwythi ohonynt yn mynd yn ofer yn y cymoedd hyn bob blwyddyn. Ac eto, buasai eu hel a'u cadw yn waith iach, difyr, ac enillgar. Anfonodd Cyngor Sir Fynwy ŵr ar daith drwy'r ffermydd i ddysgu'r merched pa fodd i botelu a chadw ffrwythau, ac y mae'r sir ar ei hennill. Da fyddai i siroedd eraill Cymru wneud yr un peth. Gallai ambell ddarlith wneud llawer i ddatblygu cyfoeth gwlad.

Na chamddealler fi. Nid wyf am gadw'r ieuanc yng nghilfachau'r bryniau, er mwyned murmur y nentydd a su'r awelon, os bydd ei uchelgais yn ei alw i fwrdd. Gwn yn dda na all dyn fyw ar farddoniaeth a mafon duon. Ond gwn hefyd mai addysg yn y wlad yw'r tebycaf o godi'r ieuanc i ddefnyddioldeb a chyfoeth. Rhydd barddoniaeth a mafon duon ddedwyddweh iddo hefyd, ac y mae dedwyddweh yn nerth. Cymeriad da i ddyn yw dweyd y medr wneud ei waith dan ganu.

Dan hel mafon duon ac ymgomio, yr ydym bron a chyrraedd pen y Garneddwen. Y mae'r afon yn troi'n awr i gyfeiriad Aran Benllyn, oherwydd oddiyno y daw. Ond y mae ffrwd lai yn ymuno â hi yma, wedi dod o ben y Garneddwen. Ac yma eisteddwn ar fur y ffordd, uwchlaw'r fan yr ymuna'r dyfroedd. Y maent yn canu'n hapus, ond nid yn rhy uchel i ni ddeall ein gilydd. A welwch chwi'r murrdyn acw, nid oes ond muriau'n aros, uwchben trofa'r afon? Y mae ei safle'n ddymunol. Ymwasga cylch o goed masarn o'i gwmpas, gan grymu

drosto, fel pe'n ceisio achub ei furiau gwag rhag cam. Yn eu mysg y mae pinwydden brydferth a bedwen delaid, hwythau'n gwasgu ymlaen fel pe i gael rhan o'r fraint. Adfeilion y Dyfnant yw'r adfeilion. Bu'n llety clyd i florddolion, pan redai'r flordd yr ochr acw i'r nant. Ond ei fri pennaf yw ei fod wedi magu cenhadwr i fynd a'r efengyl i wledydd pell. Y mae'n hawddgar, er yn anghyfannedd, ac er fod y plant chwareuai yma gynt oll wedi mynd.

Fel dyfroedd nant y mynydd, mynd i fwrdd wna'r bechgyn a'r genethod i gyd. Y mae'r afon ieuanc, sydd newydd adael unigedd y mynydd a chysgod y cwm, ac heb weled trigle dyn eto, yn galw arnynt i'w chanlyn, ac yn rhoi deuparth o'i ffydd iddynt. Fel yr â'r dyfroedd croyw peraidd i adfywio'r gwledydd cyn ymgolli yn y môr hallt, felly yr â plant y wlad i iachau a chryfhau a phuro bywyd y trefydd. Hwy sy'n arwain, hwy sy'n cynllunio, hwy sy'n dangos i eraill gyfrinion y gweledig a'r anweledig. Y mae awel garedig y de-orllewin yn dod a'r dyfroedd yn ol. Daw'r niwl a'r glaw i lethrau'r Aran yn ol o'r môr, llanwant yr aberoedd fel o'r blaen, a murmuran yn hapus ar eu taith, yn llonnach ac yn burach nag erioed. Ond nid oes dim yn dod a bechgyn y Garneddwen yn ol; y mae eu cartrefi hwy, o un i un, yn dadfeilio i unigrwydd mud. Fath wlad fydd ein gwlad pan na bydd ychwaneg o fechgyn a genethod y cwm a'r mynydd i ddilyn yr aberoedd i lawr i'r gwastadeddau, i buro môr eang dynol ryw?

Nid colli amser yw ambell ddiwrnod ar y bryniau, yn gwrando ar ddwndwr croesawgar yr aberoedd bychain prysur. Hel mafon duon oedd yr esgus, ond anadlu iechyd oedd y gwaith, a chasglu atgofion fedr felysu llawer awr chwerw a blin.

Tudalen

VII.

EWENNI.

CYN i lwydnos fer canol Mehefin daenu hedd a gorffwys ar Fro Morgannwg, cefais fy hun yn disgyn i lawr i hen dref Penybont ar Ogwr. Bryd bynnag y dof yn agos at y lle, a phryd bynnag y clywaf yr enw, daw rhamant brudd Wil Hopein i'm meddwl, a phedair llinell syml i'm cof,—

“ Ym Mhen y Bont, ar ddydd y farchnad,
Cwrdd a 'nghariad wnes i 'n brudd ;
'Roedd hi'n prynu'r wisg briodas,
A'r diferyn ar ei grudd.”

Ond nid gyda gofid serch Wil Hopcin a'r ferch o Gefn Ydfa y mynnai fy meddwl aros, ac ni chawn foddlonrwydd wrth wyllo'r llanciau a'r gwryfon dedwydd, ar eu taith i'r wlad, oedd yn dangos i mi y bydd bugeilio gwenith gwyn tra bo haf yn bod.

Gwyddwn fod Ewenni yn rhywle o'm blaen ar y gwastad y tu allan i'r dref, a throais fy wyneb yno. O hen etholfan sir Forgannwg dringais riw y dengys ei enw mai Cymreig fyddai'r dref, a dull ei sillebu fod llawer o ymseisnigo wedi bod ynddi. Cyrhaeddais drwy ystrydoedd culion heol weddol lydan ac union ; ac ymlaen a mi hyd-ddi gan wrthod troi ar y dde i fynd drwy ganol y Fro i'r Bont Faen nac ar yr aswy dros hen byllau a thrwy gaeau gwair aroglus i'r Merthyr Mawr.

Wedi bod dipyn dan goed cefais fy hun toc ar y gwastadedd o gaeau gwair ac yd, a mwyn i mi oedd

y persawr hyfryd ymgodai oddiar y fro lwys fel diolchgarwch y duwiol ddiwedd dydd. O'm blaen, ac ar dde ac aswy, yr oedd cylch o fryniau heirdd. Wrth eu gweled daeth pregethwr yn y pulpud i'm cof, ac oddiwrth enw Edward Matthews y deallais i gyntaf fod y fath le ag Ewenni'n bod. Gwelwn ef yn codi ei lygaid, yn edrych ar y gorwel, yn darlunio cylch y mynyddoedd acw â'i law, ac yn dangos i dyrfa ddychrynedig fel y mae dull y byd hwn yn myned heibio. Aros mae'r mynyddau mawr o hyd, beth bynnag welaf o amgylch Ewenni heno, ni welaf y wyneb pwylllog a'r llygaid craff y bu miloedd o Gymry mewn llesmair o ofn neu lawenydd ger eu bron.

Ar hyd y ffordd tynnwn ysgwrs â rhywun beunydd, oherwydd y mae Cymraeg Bro Morgannwg wrth fy modd i. Pan oeddwn yn croesi afon Ewenni, arosodd hogyn oedd ar ei ferlyn aflonydd, i ddweyd wrthyf mewn Cymraeg gloyw beth oedd enwau'r lleoedd welwn. "Ewenni" y galwai yr afon. Afon araf a digynnwrf yw, ^{cais} ca' llyisiau dŵr gwyrddion ^{welwys} ynddi dawelwch wrth eu bodd. Mor hyfryd yw clywed enw pur yr afon wedi darllen am "ewyn wy" y ffug ddysgedigion. Nid oes yma nac ewyn nac wy, mwy nag oes o frenin Basan ac wy yn afon Ogwr.

A dyma fi yn y pentref bach gwasgarog. Troais at dŷ prydfarth y safai dwy enethig fochgoch wrth ei ddrws. Dychrynnodd fy Nghymraeg hwy, a daeth gofid i'm calon wrth feddwl y gall unrhyw Gymraeg seinio'n aflafar neu'n estronol yng Nghymru. Galwasant "mam," a chefais rhwng tair wybodaeth fanwl mewn Cymraeg cain am y ffordd at gapel Ewenni.

Troais ar y chwith, a chodai'r ffordd i fyny'n weddol serth. Fel yr esgynnwn ymddadlennai Bro Morgannwg yn raddol o'm blaen. Yr oedd distawrwydd dwys awr hûn, a lledneisrwydd pur yr hwyr, yn gorffwys ar lesni eang y wlad o'm cwmpas. Teimlwn, prun bynnag ai dan wên haul ynte'n pruddhau o'i golli, mai gwlad ardderchog yw.

O'r diwedd deuais at goed, ac yng nghysgod y coed safai capel. Dyma'r capel y cyrchai amaethwyr y wlad iddo i wrando ar feddyliau beiddgar y gŵr oedd yn un ohonynt, ac yn eu deall i'r dim. Ond mor unig yw, ac mor brudd. Mae llwydni'r nos yn cymeryd gwawr o ddu yn awr, ond rhaid mai trymaidd yw'r capel ganol dydd. Tywyll a hagr yw gwydr ei ffenestri, a'u hamcan i guddio prydferthwch y dydd rhag y rhai sydd a'u meddwl ar wlad na raid wrth oleu haul na ser ynddi. Yn uwch ar fin y ffordd na'r capel y mae ystabl, a'r llecyn gwyrdd rhyngddi a'r capel wedi ei orchuddio gan dyfiant bras anfaethlon, a'i drws yn agored i bob crwydriaid budr esgymun i droi iddi. Nid rhoi rhaff i'm dychymyg yr wyf; clywais fod ystabl y capel yn noddi "show o dramps" pryd bynnag y goddiweddo'r nos hwy yn y gymydogeaeth hon. Ni raid gofyn i ba enwad y perthyn y capel. Nid oes ond un enwad yng Nghymru, er ei urddas a'i drefn, sydd mor ddiotal am ei eiddo a hyn. Ni theimlais ddim erioed mor fud a'r capel hwn, wrth gofio am yr hyawdledd y bu'n gartref iddo. Ni welais unlle mor brudd ychwaith. Nid pruddle mynwent oedd, nid oes yno fynwent. Yr oedd y coed trymaidd, y gwydr digroeso, a'r chwyn tal yn gwneud yr addoldy yn ddarlun o anghyfanedd-dra. Ac eto, yn ei unigedd a'i brudd-der, yr oedd y capel yn syml

ac yn urddasol. Hwyrach, o ran hynny, pe buaswn yno yng ngwres y dydd, y cawswn y prudd-der wedi troi'n gysgod adfywiol; ac y cawswn gipolwg ar eangder Bro Morgannwg o le cyn hyfryted ag Elim.

Gwych gan drigolion Ewenni son am Edward Matthews. Yr oedd gwraig radlon ganol oed, y bu ei rhieni yn eistedd wrth ei draed, "yn ei gofio fe'n nêt," ac yr oedd yn rhoi pris mawr ar ryw ddodrefnyn fu unwaith yn eiddo iddo. Dywedai un arall nad yw'r amaethwyr yn tynnu i'r capel ar lethr y bryn fel y byddent, "nit oes pwer o aelote yno 'nawr." "Ne, ne," ebe un wedyn, "nid yw crefydd yn awr y peth fydde hi yn y wled." Ond cytunent ar un peth, fod y pregethwr eto'n fyw ar y Fro ac ym meddwl pawb a wrandawai arno.

Troais yn ol, gan gofio yr hyn a wrandewais innau, yn blentyn ac yn llanc. Ar gwr y pentref cefais fy hun heb yn wybod yng nghanol twr o lanciau. Cyferchais hwy, yn ol fy arfer, yn Gymraeg. Medrai rhai Gymraeg da, a rhai Gymraeg carbwl, ni feddai rhai eraill ond olion ar eu Saesneg *double negative*. Ond cymerent ddiddordeb yn yr iaith Gymraeg. Esbonient i mi'r enwau Saesneg oedd ar fynegbost gerllaw, mai y Wig oedd Wick, ac mai Tregolwyn oedd Colwinston. Dywedent fod y plant i gyd yn dysgu Cymraeg yn yr ysgolion yn awr; ond daeth hynny "too late for us," ebe rhai ohonynt yn eithaf prudd.

Yr oedd yn nos haf pan gerddwn i Benybont yn ol. Ar y dde i mi, yn rhywle yn y tywyllweh, yr oedd priordy Ewenni. Clywswn lawer o son amdano. Benedictiaid a'u hadeilasant. Ar y gwastadeddau yr hoffent hwy fod, a chyda gerddi a pherllannoedd a gwartheg yr oedd eu diddordeb hwy; tra ar y

mynyddoedd y byddai'r Cisterciaid, a'u bryd ar unig-
 eddau a defaid a gwlan. Darlennais lawer am
 gyflwr yr adeiladau, gan ysgrifenywyr o adeg Gerallt
 Gymro hyd Ddafydd Morgannwg. A hoffaswn weled
 yr adeiladau fy hun. Ond yr oedd yn rhy hwyr i
 weled dim heno. Rhown raff i'm dychymyg i
 leddfu fy siom. Gwelwn yr eglwys yn cynnwys
 rhan o hen eglwys y mynachod; gwelwn furiau
 amddiffynfeydd ac addoldy'n gymysg; gwelwn yr
 eiddew'n araf ymlwybro dros ddaearegell a mur a
 thwr fel pe'n ceisio tyner guddio hanes yr hen
 amseroedd oddiwrth lygaid amseroedd gwell. A
 thros feddau hefyd, oherwydd y mae llawer o feddau
 yma. Clare, Turberville, Carne,—gorweddant
 yma'n ddigon llonydd, heb awydd am dir nac am
 ddial mwy. Ac yma y gorwedd y Maurice de
 Londres gododd fraich haearn dros ardal hoff
 Cydweli, ac a ddaeth allan o'i gastell i orchfygu a
 lladd Gwenllian, merch arwrol Gruffydd ab Cynan a
 gwraig Gruffydd ab Rhys; un gysylltai nerth y
 ddau deulu amddiffynnai Gymru. Ac ar fedd
 rhywun tebig i'r Maurice hwn y mae gweddi Ladin
 am i'r Arglwydd gymeryd trugaredd ar ei enaid.
 Yr oedd digon o eisio gweddio fel hyn wrth wely
 marw'r barwn Normanaidd, gŵyr pawb.

Tan feddwl, wele fi yn dod o'r nos i heolydd goleu
 a thorfeydd siaradus Penybont ar Ogwr. Y peth
 fynnai aros yn eglur yn fy meddwl oedd y capel bach
 unig ger y ffordd ar lethr y bryn.

VIII.

DYFFRYN BANW.

AR nawn hyfryd ym mis Medi, rai blynyddoedd yn ol, bum trwy Ddyffryn Banw ar ei hyd. Yr oedd wedi gwneud haf gwlyb, nid oedd y gwair i gyd wedi ei hel oddiar y caeau; ac yr oedd diwedd yr haf yn heulwen a chawod bob yn ail, er mawr ddrwg i'r gwair oedd fel carth hyd y caeau, ac er mawr dlysnï i'r adlodd gwyrdd ac i wrid ffrwythau'r griafolen.

Yr oedd gennyf gerbyd ysgafn a merlen hoyw, yn rhedeg yn esmwyth a gwastad lyfn. Oni bai am y peth oedd ynddo, pe gwelsech y cerbyd yn cyflymu i lawr heol Llanfair Caereinion, a' bothau meinïon gloyw'r olwynïon yn lluchio goleuni'r haul o'u cwmpas wrth droi, dywedech eich bod yn sicr yn gweled peth cain. Yr oedd popeth wedi ei wneud i fynd,—yr oedd sŵn mynd hyfryd yng ngharnau'r feren raenus, yr oedd y cerbyd fel peth byw na allai fod yn llonydd, ac yr oedd golwg y gyrrwr byrdew cydnerth yn sefydlog ar ben ei daith.

Rhyw eiliad gefais ar bont Llanfair i weled afon Banw'n llithro i lawr o'r mynyddoedd tua dolydd Hafren. Ar y dde, rhedai i lawr, ar yrfa fer, heibio i adfeilion distaw unig Mathrafal, i ymgolli yn afon Fyrnwy, i honno ei chludo ymlaen i afon Hafren. Ar y chwith gwelem hi'n dod o'r mynyddoedd, weithiau dan gysgod coed, dro arall

yn disgyn dros riwiau. A chwim y troisom ar y chwith, gan feddwl gweled ei gyrfa yn ol hyd ei tharddiad. Rhedodd y cerbyd hyd ffordd wastad, hyd nes y gadawsom Felin y Ddôl, lle sydd a chymaint o dllysni yn ei wedd ag sydd o fwsig yn ei enw.

Ac yn awr dyma ni ar ddyffryn hyfryd gwastad, a Moel Bentyrch yn codi yn union o'n blaenau i uchter o dros fil o droedfeddi. Rhed y ffordd yn union ar hyd y gwastad, ac y mae gennyf atgofion eto am ymgais y gyrrwr i esbonio ystyr enwau'r ffermydd welem ar dde ac aswy, ond enw Rhos y Gweision yn unig sydd wedi aros yn fy nghof. Ond am yr afon y mae hi'n cymeryd trofeydd mawr hamddenol. Croesasom afon Einion, sy'n disgyn iddi. Unwaith, pan ddealllem oddiwrth y sŵn gwag ein bod yn croesi pont, ebe'r gyrrwr, —“Dyna gonacontract cyntaf David Davies.” Heb deitl o'i flaen na gradd ar ei ol, y mae'r enw David Davies yn enw mwyaf grymus yn sir Drefaldwyn. Meddai ef gyfuniad o'r synwyr cyffredin cryf sy'n ennill edmygedd, ac o'r crefyddolder dwfn sy'n ennill parch; ac yng ngrym ei gymeriad, yn fwy nag oherwydd ei lwyddiant, yr erys ei enw yn fyw iawn ar gof gwerin y sir.

Pobl ddwys, garedig, hoffus, a boneddigaidd yw pobl sir Drefaldwyn. Gallant godi'n uchel iawn mewn dyhead am fywyd pur y swynwyd hwy gan ei dllysni; gallant ddisgyn yn isel iawn mewn awydd am foddhau'r cnawd, yn enwedig pan fo syched am ddiod feddwol. Y mae unigedd a thawelwch broydd hyfryd y sir yn taflu'r enaid, i raddau pell, ar ei gwmi ei hun. Dyhea'r enaid unig am bleser. Gwyddoch ar wynebau llawer

a gyfarfyddwch mai o'r enawd yn unig, ac o'r ddiod yn bennaf, y daw eu cysur. Rhodder iddynt, felly, bleserau uwch. Prif ffynhonnell y bywyd uwch yn y dyffrynnoedd a'r cymoedd hyn yw'r Ysgol Sul. A daew'r Gelli, cartref yr Owen Jones, ieuanc hawddgar fu'n erwydro'r ardaloedd hyn i sefydlu a maethu yr ysgolion bendithiol. Y llais goreu yw emyn fedd felodedd yr hen gerddi a gwelediad y bywyd gwell; y mae pob ffordd welwn ar y dde yn arwain i gyfeiriad Dolwar Fach. Dan feddwl am Owen Jones ac Ann Griffiths, wele ni ar gyfer y Gelli. Gwelwn ef dros ei weir-gloddiau, lle gorwedd defaid dan ei goedydd tywysogaidd. Tŷ glân yw, yn edrych arnom yn hawddgar dros ei erddi, a'r Foel yn codi'n serth dros bum cant o droedfeddi y tu ol iddo. Yno, ebe'r gyrrwr, yr oedd mab Owen Jones yr Ysgol Sul yn byw, erbyn hyn yn hynafgwr patriarchaidd, yntau'n enwog fel pregethwr ac fel darlithiwr. Gwelem goeden afalau yn yr ardd. Dan honno, ryw ddeng mlynedd yn ol, y rhoddwyd gwraig Owen Jones i huno. Ac acw y mae yntau'n awr, mewn unigedd, a miloedd o'r rhai gyrc'ai'n dyrfaoedd i wrando arno gynt yn tybio ei fod yn ei fedd.

Tremiais i geisio cael cipolwg arno yn ei ardd neu hyd ei gaeau, ond cuddiodd y Foel y lle o'n golwg cyn i mi gael hyn. Dyna ni'n rhedeg yn rhwydd eto, hyd ffordd ddiddorol, ac yn y man yn aros o flaen gwesty Llanerfyl, lle'r oeddym i dreulio'r nos. Gwesty hyfryd yw, a chysurus. Cwyd y Ddisgwylfa ei phen o'i flaen dros ddeuddeg cant o droedfeddi, gyda hen gaer y Gardden ar ei llechwedd yn edrych i lawr ar gwm clyd Nant Menial. Yr oedd yn nawn tawel, nid oedd awelig

fedrai ysgwyd y gwllith oddiar y rhosyn. Yr oedd eto awr o leiaf cyn y nosai. Daeth awydd drosol am weld Owen Jones, ac eto yr oedd teimlad greddfolf yn erbyn ymweled ag ef. Ni fedraf wthio fy nghwmni ar neb. Tybiaf fod pawb yn brysur, a phwy wyf fi i fynd at ŵr enwog, a gofyn iddo a rydd beth o'i amser i mi? Collais gyfle, felly, i ymddiddan a Cheiriog a Mynyddog; bum wrth gartrefi Villemarque a Renan, ond nid oedd gennyf y wyneb i ofyn am gael eu gwled. Ar un cyfrif y mae yn edifar gennyf am fy swildod. Ac a oedd yn iawn i mi dorri ar unigedd Owen Jones?

Ffordd bynnag, cychwynnais am dro yn ol hyd y ffordd i gyfeiriad y Gelli. Troais i lawr o'r ffordd, a daethum i gwm bychan cysgodol; a dail melyn yr hydref yn dechre ei garpedu â phorffor ac ag aur. Yma, heb sŵn ond murmur gwan afonig, y mae capel bychan Pentyrch, dan gysgod y Foel. Oddiyma arwain llwybr i fyny'n syth at y Gelli. Dechreuais ei ddringo, gan ryfeddu pryd y trown yn ol. Rhaid fod Owen Jones yn hen iawn. Cofiw'n fod ei dad, Owen Jones y cyntaf, yn priodi aeres y Gelli gan mlynedd i'r flwyddyn honno. Yr oedd yr Owen Jones hwnnw wedi marw er ys pedwar ugain mlynedd. Nid oedd ond ychydig dros ddeugain oed, pan fu farw yng nghanol ei waith; ond dyma ei fab yn unigedd y plas bychan acw wedi goroesi ei holl gyfeillion. I dorri ystori hir yn fer, cefais fy hun yn curo wrth ddrws cefn y Gelli.

Daeth genethig at y drws. Cefais fy hun yn gofyn a gawn weled Owen Jones. Arweiniodd fi i'r neuadd a diflannodd. Toc wele ddrws ar fy nghyfer yn agor. Ynddo safai gŵr a golwg

batriarchaidd arno. Yr oedd ei farf wen hirllaes a'i wedd sobrddwys brudd, yn gwneud iddo edrych fel pe deuai ataf o'r hen oesoedd neu o fyd arall. Wyneb cul oedd y wyneb, fel wyneb ysbryd. Gwelwn lygaid disglair treiddgar yn syllu arnaf. Nid teimlad, ond beirniadaeth, oedd yn y llygaid. Nid am yr efenglydd, ond am yr areithydd llym a'r cynllunydd medrus, y meddyliciech. Yr oedd cyfuniad dieithr o'r ieuanc a'r hen ynddo. Cerddai'n wisgi, ond nid oedd nerth i'w weled yn ei daldra; edrychai'n herfeiddiol, ond yr oedd *shawl* hen wraig yn rhoi cynhesrwydd i'w ysgwyddau. Mewn castell adfeiledig, yn nyfnder nos, ar loergan lleuad, y disgwyliciech weled presenoldeb fel hyn.

Beth wnaethet, ddarlennydd mwyn, pe buaset yn fy lle? Pa esgus wnaethet? A fuaset yn cynnyg gwerthu llyfr iddo? Dywedais i y gwir yn onest, fy mod yn digwydd teithio y flordd honno, a bod y demtasiwn i'w weled wedi mynd yn drech na mi.

“Dowch i mewn!”

Dilynais ef i'w ystafell. Yr oedd awyr yr ystafell, er yn bur a iach, yn awyr ystafell dyn gwael. A gwaelni diobaith yw henaint. Aeth ias i'm calon wrth sylweddoli na welid mo'r gŵr rhyfedd hwn mewn pulpud nac areithfa byth mwy. Dechreuodd siarad am fy nheulu yn Llanuwchllyn, rhai adnabyddai'n dda, a synnai fod y genhedlaeth adnabyddai ef wedi marw i gyd. Ac eto yr ydym ni yn weddol hirhoedlog; gwelodd fy nhad a'm taid a'm hendaidd bedair canrif o fewn dim. Yr oeddwn wedi bod yn crwydro drwy ardaloedd Pontrobert y dyddiau cynt; dywedais wrtho

i mi fod yn nhŷ John Hughes, bywgraffydd ei dad ; a datgenais fy ofnau nad oedd meddwl yr ardal mor egniol ag y bu.

“ Pont Rhobert ! ” meddai. “ Na, nid ydyw yr un. Y mae'n is byth ar ol marw John. ”

“ Ydych chwi'n cofio John Hughes, Pontrobert ? ”

“ Ei gofio ! Ydw. Bu'n eistedd yn y gadair yr ydych chwi ynddi yn y fan yna laweroedd o weithiau. Ac mae John wedi mynd. ”

Nid oedd yn ymddangos ar hyn o bryd fel pe am ddweyd hanes yr hen batriarch o Bontrobert. Dywedais innau imi fod yn gweld bedd Richard Jones o Lanfair, ac mai gresyn na wneid rhywbeth i gadw ei athrylith mewn cof. Yr oedd tinc o chwerveid yn ei lais wrth ddweyd,—

“ Mae'n nhw'n dechre i anghofio ynte yrwan, mae'n debig gen i. ”

Trodd yr ysgwrs at ardaloedd Maldwyn. Dywedais fod rhai ardaloedd yn cynhyrchu pobl feddylgar, ac enwais Lanbrynmair ; awgrymais hefyd fod rhyw ardaloedd yn colli eu meddylgarwch. Ei ateb oedd,—

“ Mae hynyna oll yn wir. Mae Llanwyddelan a Llanllugan yn hen ardaloedd enwog am eu crefydd a'u meddwl. Yr wyf fi yn cofio pump o bregethwyr yn Llanwyddelan. ”

Troais gyfeiriad yr ymddiddan i'r Deheudir. Pan oedd ef yn Nowlais, prin yr oedd y De yn ddigon llydan iddo ac i Matthews Ewenni. Hwyrach mai prin y gallesid disgwyl i ddau o athrylith mor feiddgar a dieithr fedru cyd-dynnu fel pe buasant bâr o ychen tewion llonydd. Ac mi glywais fod y cledd a'r bicell ar waith weithiau. Adroddais fy hanes yn mynd ar bererindod ryw noson waith

i'r Bala i wrando Matthews ar un o'i ymweliadau anaml â'r fro. Soniais am fanylion ei ddarluniadau cyffrous, a dywedais mai manylion y bregeth, ac nid ei chyfanswm, oeddwn yn gofio. Taniodd hyn ei lygaid, ac ebrai ef, gan gofio am ryw bregeth na chlywais i,—

“Manylion, ie! Mae pobl yn dweyd nad oeddynt ond manylion. Ond mi ddoi at bwynt y gwelen nhw ar amrantiad beth oedd meddwl y manylion. Ac yna ysgubai bopeth o'i flaen. Weithiau cadwai y pwynt hwnnw, heb neb yn ei weled ond efe ei hun. Ni welen nhw ddim ond manylion bron trwy gydol y bregeth. Yna deuai bloedd,— ‘Gadewch i mi farw,’—a deuai'r manylion yn un meddwl mawr gorthrechol.”

Yr oedd y patriarch yn dal yn ŵr ieuanc yn fflam ei feddyliau. Wrth ei weled felly, mentrais ofyn a fyddai efe yn medru pregethu neu ddarlithio ambell dro yn awr. Edrychodd yn dreiddgar, os nad yn ddrwgdybus arnaf, a dywedodd yn syml, ond gyda rhyw arafwech prudd na allaf fi ei ddarlunio,—

“Na! Yr ydw i yn saith a phedwar ugain oed, ac y mae rhyw ysgafnder yn dod i'm pen pan safaf yn hir.”

Cyfeiriais at addysg pregethwyr, gan ddweyd fod dysg yn amlwg iawn, fod talent a hyawdledd yn amlwg hefyd, ond nad oedd cymaint o'r athrylith wnai bobl yn anhebig i'w gilydd.

“Mae rhywbeth dyfnach na hyn ar ol,” meddai. Ac yna, gydag ynni newydd, dechreuodd ddatgan ei ofnau am effaith y Ddiwinyddiaeth Newydd. Yr oedd hyn yn peri ychydig o syndod i mi; oherwydd, os yw pob stori'n wir, nid oedd ganddo

ef ei hun wrthwynebiad i brofi pethau newydd. Yr oedd yn ei feddwl gyfuniad o ryddfrydiaeth lem feirniadol ymladdgar ac o geidwadaeth a'i thynerwch a'i chydymdeimlad o'r golwg.

Trwy ryw ddamweiniau, cefais adnabod llawer o gydoeswyr Owen Jones, megis Edward Matthews, David Saunders a Dr. Edwards. Yr oedd ef a Saunders yn hollol wrthgyferbyniol. Naws oedd elfen amlycaf Dr. Saunders, beirniadaeth oedd elfen amlycaf Owen Jones; gwres serch yn toddi oedd un, min erfyn dur oedd y llall. Yr oedd Matthews ac Owen Jones yn rhagori fel dadansoddwyr; ond hel golygfeydd i gyfanu drama bywyd wnai y naill, tra mai gosod gwahanol feini adeilad cywrain wnai'r llall. Meddai Dr. Edwards ac Owen Jones urddas, ond yr oedd urddas Dr. Edwards yn fwy heddychlön; urddas unigedd heddwch oedd, nid urddas tywysog llu ymosodol. Braidd-na thybiaf weithiau, er ei holl anhawsterau, y meddai Joseph Thomas neilltuolion goreu'r pedwar.

Arabedd fflachiol, nid nawS toddeidig, oedd nerth Owen Jones. Synnai gynulleidfa â throeon chwim ei feddwl cyflym; nid "y wên ar wyneb doethineb" oedd ei arabedd, ond symudiadau buan anisgwyl-iadwy ei ddychymyg bywiog. Teimlad yn unig oedd ar ol. Yr oedd ei welediad fel min cleddyf; ond nid oedd trallodion bywyd a human aberth wedi dofi ei natur. Cydiai yn ei bicell lle bynnag y byddai.

Nid rhyfedd felly ei fod yn wleidyddwr aiddgar a dylanwadol. Troais yr ymddiddan at wleidydd-iaeth. Yr adeg honno yr oedd Campbell-Bannerman yn arwain y Rhyddfrydwyr. Yr oedd gan Owen Jones feddwl mawr o hono, gwelai y cadernid

addfwyn oedd o dan holl symudiadau yr arweinydd hawddgar a doeth. Darllennai'r *Manchester Guardian* bob dydd. Mewn gwleidyddiaeth hefyd, yr oedd ynddo gyfuniad o'r hen a'r newydd. Carai les y gwerinwr fel yn y dyddiau pan roddodd ei holl dalent ar waith i geisio ei ryddhau. Ond siaradai am newydd Blaid Llafur fel y siaradasai am y Ddiwinyddiaeth Newydd. Gydag addysg hefyd meddai'r un cyfuniad; eisiau mwy o egni, ac eisiau mwy o gyfaddasu at anghenion gwlad.

A dyma'r hen dywysog poblogaidd yn unigedd henaint. "Efe a eistedd ei hunan, ac a daw a son." Ni allai gael cartref mwy cysurus, nac atgofion pan oes lawnach. Daeth gyda mi at y drws, a ffarweliodd yn null caredig y boneddwr perffaith.

Meddylw'n wrth ei adael, tybed a gawn ei weled byth mwy. Anfonodd gennad serchog ataf, i ofyn imi ddod yno pan yn mynd heibio'r tro nesaf. Ond yr oedd ef wedi cychwyn ar y daith hir cyn i mi fynd at y Gelli drachefn. Yn hen w'r rhadlon, maddeugar, unig y gadewais i ef.

Pan ddaethum drosodd i Ddyffryn Dyfi, eis at hen gyfaill oedd yn ei gofio yn ei ogoniant. "Yr wyf yn ei gofio," meddai, "yn y Dyffryn hwn ar y maes o flaen John Elias. A fo aeth a hi o ddigon, yr oedd ei arabedd wedi gwefreiddio'r dorf." Adroddai am dano yn y Cemaes hefyd ar adeg etholiad brwd. Yr oedd sir Drefaldwyn yn newid ei chynrychiolaeth, ac yr oedd pob gallu ar waith. Owen Jones oedd arwr y cyfarfod, ac yr oedd teimlad yn rhedeg yn uchel iawn. Ymysg y dorf yr oedd gŵr ieuanc wyf fi'n gofio'n rheithor tawel yn y Bermo ac yn ganon boddlon ym Mangor.

Ond yr adeg honno yr oedd yn orlawn o egni a hyawdledd cād. Ymwithiai i'r llwyfan, a gwaeddai wrthdystiadau. A rhag ofn i lanciau Dyfi wneud niwed iddo, galwodd Owen Jones am osteg. Ail anerehodd y dyrfa gythryblus,—

“Pan oeddwn i 'n byw yn Nowlais, mi welais ddau ddyn yn ymladd ar yr heol. Yr oedd un wedi cael y llall i lawr. Ac wrth geisio ei gadw i lawr, yr oedd yn gwaeddi nes oedd y fro yn diaspedain. ‘Pam 'rwyf ti'n gwaeddi?’ A dyna oedd ei ateb,—‘Dod i fynny y mae, er fy ngwaethaf.’ Gadewch i hwn gadw sŵn. Gweld y mae fod y wlad yn dod i fynny er gwaethaf popeth.”

Hawdd oedd gweled ergyd yr ystori, pan oedd gallu newydd yn y sir yn taflu'r hen allu i lawr. Llauer ystori debig o'i eiddo sy'n aros ar gof gwlad. Pan soniwn am dano, edrychai pobl arnaf yn syn. Yr oeddynt wedi anghofio am dano. Wedi sylweddoli ei fod yn fyw, yr un peth ddywedai pawb,—“Onid oes obaith ei weled yn dod y ffordd yma eto?”

Y mae'r Gelli'n wag erbyn hyn, a gwag hefyd yw y bedd dan y goeden afalau. Tua dechreu'r flwyddyn hon cludwyd Owen Jones i'r fynwent brydferth yn Llanfair Caereinion lle'r hŷn ei dad a Richard Jones. Fis wedyn, yn ol y cyfarwyddyd adawodd, agorwyd y bedd yn yr ardd. Pan oedd hi'n troi hanner nos Sul ym mis Mawrth, a chaenen o cira yn gwneud i'r wlad edrych fel drychiolaeth, codwyd gwraig ei ieuenctid o'i bedd, ac yr oeddis wedi ei rhoddi i ail orwedd ym medd ei gŵr cyn i neb yn Llanfair ddeffro o'i gwsg y bore Llun hwnnw.

Yr wyf yn Nyffryn Banw o hyd; ond y mae'r afon, wrth roi tro am Foel Bentyrch, gryn ddwy

filltir o'r ffordd. Y mae fy hanes innau wedi mynd yn bell oddiwrth ei destun. Maddeuer i mi; Owen Jones oedd rhyfeddod a gogoniant Dyffryn Banw y flwyddyn honno.

Clywais lawer o ddoethineb yn y gwesty y noson honno, a gwelais ryfeddodau. Yr oedd yno gleddyf tywysog; y mae gwraig y gwesty yn dywysoges weddw. Cefais hanes clwy'r edeu wlan. Yr ydych yn sal iawn, eich gwaed yn boeth a'ch ysbryd yn isel. Os felly, ewch at y doctor edeu wlan. Rhwymwch yr edeu wlan am y goes tan y pen glin, ac yfwech gwrw a dur ynddo neu *Holland gin* a saffrwm ynddo. Yna byddwch yn iach. Digon gwir, rhydd teimlo'r edeu wlan ffydd i chwi, pura'r dur a'r saffrwm eich gwaed; ond yn fy myw ni allaf weled i beth mae'r cwrw a'r ddiod arall dda.

Nid oes bosib peidio cysgu yn Llanerfyl. Pe deffroech yn y nos, clywech su pell nentydd y mynydd; daw Natur, fel mam dyner, i roi cwsg trwy eu hwian. Bore drannoeth eis ymlaen i'r pentref, a themtiwyd fi gan ei hen yw mawreddog i fynd i'r fynwent. Ac yma y mae Banw a'r ffordd yn dod at ei gilydd drachefn.

Pobl brysur yw angeu a'r clochydd. Yr oedd y clochydd welais i, yno er ys chwarter canrif, ac yr oedd wedi canu enul dros dri chant o'i gymdogion. Mwyn oedd rhodio trwy'r acer dawel ar lan yr afon. Y mae gwŷr talentog yn huno yma. Dyma ddywed englyn Derwenog am Evan Lewis Llwyn Derw, fu farw'n ddeuddeg a thrigain oed,—

“ Athraw da, a thra diwyd—oedd, a'i waith
 Iddo ef yn hawddfyd;
 Ei lafur yn dâl hefyd
 A wêl efe mewn ail fyd.”

Ac am Edward Lewis, Ty Nant, fu farw'n un ar ddeg ar hugain, dywedir,—

“ Lewis aeth, ac wylo sydd—mwy i'w gael
Am y gwir awenydd ;
O'i ol ef ar faes crefydd
Adwy fawr i'w chodi fydd.”

Y mae calon yr ywen wedi darfod ond y mae ei rhisgl hen yn fyw ; ac y mae, er yn hen, yn un o'r yw harddaf yng Nghymru. Ei pherigl yw cnwd trwm o eira ar ei cheinciau mawrion llydain. Dani y mae carreg hynafol, ac arni y geiriau,—

PA
TERNINI.

Ond nis gwn ai carreg i Badarn Sant oedd. Medd yr eglwys hen ddarluniau. Ni allwn ganfod yn eglur yn y gwyll beth oeddynt ; ond hawdd y gallai dychymyg dychrynedig gwas ffarm dybio mai coesau nothion rhai'n cael eu bwrw i uffern, i'w rhoi dan draed y ddraig, a wêl ei lygaid.

Daw haint i'r fangre iach hon weithiau. Ar garreg fedd Griffith Evans o'r Gardden, fu farw ym mlodau ei ddyddiau yn 1835, ceir disgrifiad o

“ Wr glwys, dyfal bwys ei ben—ar Iesu
A roes er yn fachgen ;
Yr Iesu gyrechai'r dwysen
I'r fro uwch haul drwy'r frech wen.”

Ymysg rhes hir o deulu Criban y mae bedd gŵr ieuanc, Evan Howells, gladdwyd yn ddwy ar hugain oed yn 1858. Yr oedd y clochydd yn yr ysgol gydag ef, ac y mae hiraeth hen gyfeillion yn cael llais yn yr englyn sydd ar garreg ei fedd,—

“ O'i flodau borau bwriwyd—i oer-fedd,
Ei yrfa orphenwyd ;
Teg loewddyn, ai ti gladdwyd ?
Amheu'r ym mai yma'r wyd.”

Evan Breese (*Ieuan Cadfan*) wnaeth yr englyn. Y mae yntau wedi ei gladdu yma yn rhywle, ond nid oes cof ar ei fedd. Son am londer yr hen amser gynt! Beth feddyliech o garreg fedd a hyn ar ei hwyneb,—

FEL FINNAU
 DIAU Y DEUWCH
 ER MODDION ER
 MEDDU POB HARDD
 WCH ER TRWSIAD
 DILLAD DEALLWCH
 CEWCH BYDRU
 A LLECHU MEWN
 LLWCH.

Yr ochr arall y mae yr ysgrifen hon,—

“ Here lyeth the body of Catherine Evans, the wife of Hugh Evans, who departed this life the 28 of August the year of our Lord 1780. Aged 39.”

Ceir Saesneg ar yr hen feddau, ond Cymraeg yn unig ar y beddau newyddion. Cerddwch yn ysgafn, dyma hunell un o arwyr Cymru. Ychydig o bethau yn hanes llenyddiaeth Cymru sydd mor brudd ddiddorol ag ymdrech Erfyl, er nad oedd ond crupl yn dihoeni ac yn ofni beunydd ar erchwyn tragwyddoldeb, i godi meddwl ei wlad. Yng Nghaer, fel golygydd y *Gwladgarwr*, y daeth i sylw; ond yma y mae ei gartref a'i fedd. Dacw ei gartref, Cae'r Bachau, tŷ bychan talcen gwyn ar y llethr, i'r de-orllewin o'r eglwys, bron ar ben y bryn. A dyma ei fedd, a charreg bigfain uchel arno yn dwyn

Cysegredig
 er coffadwriaeth am
 HUGH JONES (*Erfyl*)
 Mab ieuengaf
 Evan ac Elizabeth Jones
 gynt o Gaerbachau
 yn y plwyf hwn
 hunodd mewn tangnefedd
 Mai 25, 1858,
 Yn 69 mlwydd oed.

Huna isod wiw hanesydd,—Erfyl,
 Prif fardd ac athronydd ;
 Gŵr o ddawn, gwir dduwinydd,
 Hyd y farn ei glod a fydd.

“ Mae rhai'n dweyd fod Robert gystal bardd a'i frawd,” ebe un o ddoethion y pentre am frawd Derwenog. Nid rhyfedd gennyf y dywediad wedi darllen yr englyn hwn ar fedd Jane Griffiths, Pant y Gaseg, fu farw'n fam ieuanc un a deugain oed, yn y flwyddyn 1882,—

“ Yma'n dawel, am noson—hir hynod,
 Yr huna mam dirion ;
 I wlad o hedd galwyd hon,
 O'i chur, i wisgo'i choron.”

Dau fab Cwm Derwen yw James Roberts (*Derwenog*) a'i frawd Robert. Yn uchel i fyny yng nghwm Nant yr Eira, i gyfeiriad Llanbryn-mair, y mae Cwm Derwen. Nid rhyfedd y telir teyrnged uchel i athrylith y brodyr ; y maent yn byw yn y cwm mwyaf meddylgar a darllengar, er ei uchel ac er ei erwined, yn sir Drefaldwyn. Dyma englyn eto o waith Derwenog, oddiar fedd Evan Roberts, Dolau, diacon Beulah, fu farw'n un ar bymtheg a deugain oed, yn 1888,—

“ Ysbeiliwyd eglwys Beulah—o allu'r
 Gweddillion sydd yma ;
 Er hyn deil yr enw da
 Tra erys Nant yr Eira.”

Pellaf yn ol yr ewch, pruddach a mwyaf diobaith yr â'r englynion. Ar fedd Edward Thomas, Llwyn Derw, fu farw yn 1858, yn bedwar ugain ond pedair, pan oedd gwres y Diwygiad yn y wlad, ceir

“ Gŵr diwyd, Cristion gwir dawel,—hunodd ;
Y fan hon mae'i argel ;
Ei enaid aeth lle nad el
Unrhyw och, mae'n rhy uchel.”

Cyn hynny, yn 1853, ar fedd David Howells o Garreg y Big, fu farw'n ddeugain oed, ceir y llinellau prudd,—

“ Pob glân, pob oedran, pawb bydrant,
Pob einioes, pawb anwyd, ddiflannant,
Pob lliw, llun, pob un, pawb ant,
Pob graddau, pawb gorweddant.”

Daw efengyl burach a llawenydd mwy. Marw, dianc, byw,—dyma dri chyfnod ar englynion Llanerfyl.

Ond rhaid i ni brysuero ymlaen. Pentref bach tlws yw Llangadfan, ddwy filltir ymlaen. Y mae'r eglwys a'r persondy, yr ochr arall i'r afon, ar safiad hyfryd. Cefais brynhawn hapus gyda gŵr a gwraig y persondy, hi'n dirion fonheddig ac yntau'n efenglydd tyner a dwys. O'r cartref dedwydd a chroesawgar hwn gwelir cymoedd Cledau a'r Afon Gam, sy'n ymuno a'i gilydd rhwng Dol Hywel a Chae'r Bwla, ac yn dod i afon Banw ger Llangadfan. Dol Hywel yw cartref William Jones, bardd a hynafiaethydd enwog oedd yn byw o 1727 hyd 1795. Cyfieithodd Horas ac Ofydd i'r Gymraeg, casglodd hanes Llangadfan, ac ysgrifennodd gyfieithiad melodaid o'r Salmuau. Yr oedd yn feddyg enwog, yn enwedig ynglŷn âg anhwylderau

croen, oedd yn gyffredin yr adeg honno. Gwellhaodd ei hun, ac yna ymroddodd i wella eraill. Pan ddaeth y Diwygiad Methodistiaidd i'r wlad, trodd ei awen gref yn ffirewyll i Howel Harris. Y mae ei lawysgrifau yn rheithordy Llangadfan. Claddwyd ef yng nghefn eglwys Llangadfan; ond ni wŷr neb ple mae ei fedd. Cae'r Bwla yw llecyn yr hen gerdd boblogaidd honno,—“Cerdd y Spotyn Du.” Ar y ffordd i fyny at Nant yr Eira y mae lle o'r enw mwyaf cysurus a glywais i erioed, sef Gwern Claeargoed.

O'r fynwent ceir golygfa ardderchog ar fynydd-oedd, yr Aran yn eu plith. Ymysg y llu sy'n gorwedd yma y mae Gutyn Padarn, fu'n rheithor am naw mlynedd ar hugain, ac yn ei ymyl hen ysgolfeistr, John Williams, fu yma am wyth mlynedd ar hugain. Dyma'r fynwent fwyaf Cymreig bur welais yn unlle erioed.

Wedi gadael Llangadfan, un plwy eto sydd yn nyffryn Banw, sef Garthbeibio. Tra'n teithio ymlaen hyd y pedair milltir neu bump at y pentref, yr oedd glendid y tai yn amlwg. Cawsom ddigon o brofiad hefyd, mai pobl ddarllengar yw'r bobl. Cynhaeaf bron didor sydd ar waelod Garthbeibio, —gwair, yd, rhedyn, pytatws, mwsogl, mawn. Ac ar y bryniau y mae miloedd o ddefaid, ar Fynydd y Gadfa a Charreg y Fran un ochr, ac ar y Ffridd Goch a Bryn Ysguthan yr ochr arall. Clywais enwau cŵn yr ardal i gyd o lethrau'r mynyddoedd, a phrif elfennau cymeriad rhai ohonynt, yn enwedig Toss. A phwy sydd a lleisiau mor glir a bugeiliaid? Saif yr eglwys ar fryncyn uwchlaw'r pentref bychan, ac uwchlaw'r lle'r ymuna Twrch a Banw â'i gilydd.

Ar y ffordd ati y mae'r Wtra Ddu, a'r Ffynnon Ddu, ar ei min, ond nid oes traddodiad am danynt, ebai'r rheithor caredig wrthyf. Ond am Ffynnon Tydecho cludid pinnau iddi tan yn gymharol ddiweddar, olion addoli rhyw hen dduw paganaid y cymerodd un o seintiau oesau cred ei le. Lle iawn am wair rhos, awel y mynydd, iechyd, a phrydyddiaeth yw'r Garthbeibio. Dringais beth o'r bryn rhwng dyffryn Twrch a dyffryn Banw, ac anadlai awel o'r mynydd ar fy nhalcen, gan ysgafnhau fy ysbryd, a gwneud i mi deimlo fod Duw wedi gwneud byd wrth ei fodd.

Rhaid ail gychwyn. Mae'r ffordd a Banw'n cadw'n glos at ei gilydd fel mae'r cwm yn culhau. Pasiwn garreg sy'n dweyd ein bod hanner y ffordd rhwng y Trallwm a Machynlleth, pedair milltir ar bymtheg o bob un. Yr ydym yn dringo i fynyn gyflym, a'r awel deneu adfywiol fel y gwin. Mor gain yw'r griafolen, mor dynyr yw gwyrdd y caeau, —un peth prudd yn unig a welwn, sef amllder murddynod. Gadawn Nant Ysguthan ar y chwith, a thoc wele ni wrth amaethdy Dol y Maen. Ger yr amaethdy mynyddig hwn, y lle uchaf yn y dyffryn, disgyn dyfroedd Nant Cerrig y Groes i afon Banw. Cartref heddwch yw hwn; pe doi seguryd a gorffwys i'm rhan i, dyma'r man y dymunwn fod ynddo.

Wedi ei adael, ni welwn o'n blaenau ond eangder mynyddoedd. A thoc dyma ni yn y mynydd. Rhed y ffordd yn weddol wastad, ar y dde y mae bronnydd serth, ar y chwith, islaw'r ffordd, y mae mawnogydd corsiog. Ac yma, ar fin y ffordd, mewn brwyn glân, y genir Banw fach. Gwelsom hi pan ar ei lleiaf, yn ychydig ddiferynau.

Ymhob llyfr gelwir hi Banwy, sef dwfr yn disgyn o leoedd uchel, o'r gair "ban," sef uchel, a'r gair "wy," os gair hefyd, sef dwfr. Ond ar bob llafar gelwir hi Banw, sef mochyn bach. Beth sydd dlysach na mochyn bach a glanach? Beth sydd hagrach na hwch neu faedd wedi ymdreiglo am flynyddoedd yn llaid y byd? Ar odrau ffridd Dol y Maen, ar fin y ffordd, fil o droedfeddi o uchter, cewch yr aber fach loywaf yn cychwyn ar ei thaith hir, a'i llais yn ddedwydd; ger olion mud Mathrafal, ar y gwastadedd, islaw, ceir hi'n afon gref, wedi tyrchu ei ffordd trwy fawnog a gwaen a gweirglodd, a murmur dwfn pryderus bywyd yn ei dyfroedd.

O'r fan y genir y Banw, daw gogoniant mynyddoedd Meirion i'r golwg trwy Fwlech y Fedwen, dros hen gartref Gwylliaid Cochion Mawddwy. Ond na soniwn am danynt. Gwell gennyf, wrth gofio am yrfa Banw, feddwl am droeon fy ngyrfa fy hun.

IX.

O DDINAS DINLLE I BEN CARMEL.

NA feddylid y darlennydd mwyn fy mod yn cychwyn taith o lannau môr Arfon hyd y fan y chwery tonnau mân Môr y Canoldir ar odrau creigiog Mynydd Carmel. Nid yw fy nhaith fechan i ond taith troed ; ac nid yw'n bedair milltir o hyd ; pe medrwn ei chymeryd fel yr ehed y fran.

Ac eto, wrth deithio pedair milltir o lan bau Caernarfon i bentref Carmel, dros wlad wastad ac i fyny'r bryn, cymer y meddwl deithiau hirfaith iawn. Ar lan y môr saif hen grug Dinas Dinlle, Bryneyn yn sefyll rhwng gwastadedd tawel y tir a gwastadedd aflonydd y môr ; a blwyddyn ar ol blwyddyn y mae'r môr yn ei ysu ; ac megis yn dweyd,—“ Y mae Caer Aranrhod yma dan fy nhonnau, deui dithau yma cyn bo hir ; feallai y byddi fil o flynyddoedd cyn dod, ond yma y doi.” Hawdd dychmygu amser na ddeuai'r môr yn agos at Ddinas Dinlle, ac yr oedd Caer Aranrhod i'w gweld ar y gwastadedd sy'n awr dan donnau'r môr ; ond yr adeg honno y gaer oedd ar fin y lli, a'r Ddinas bedair milltir dda oddiwrtho. A dyma fi, ar nawn yn Ebrill, 1913, wrth adael y Ddinas a sŵn y don o'm hol, yn cofio hen fabinogi Math fab Mathonwy. Gwelwn y swynwr Gwydion fab Don, a'r gwas ieuanc Llew Llaw Gyffes, yn dod ar feirch o'r arfordir ac o Gefn Clydno i fyny tua Bryn Arien, ac yn cyrchu porth Caer Aranrhod yn rhith dau was ieuanc. Yr oedd pryd Gwydion yn

bruddach na phryd ei gydymaith ieuanc, oherwydd yr oedd ei feddwl ar rith a thwyll. “Y porthor,” eb ef, “dos i mewn, a dywed fod yma feirdd o Forgannwg.” Ac yna cawn ddifyrrwech y llys, a’r ymneilltuo i gysgu, a thwrf llongau hud o gylch y gaer yn y bore, ac Aranrhod yn gorchymyn rhoi arfau i Llew Llaw Gyffes.

Y mae’r hanes yn orlawn o atgofion am hen ddyddiau paganiaeth. Ond mor bell ydyw heddyw! Wrth i mi deithio hyd y ffordd wastad, ni w’yr yr un chwarelwr a’ m cyferfydd lle mae Bryn Arienn na Chefn Clydno. Ond g’wyr pob un am Garmel. Y mae’r hen Dduwiau wedi diflannu o’r wlad mor llwyr fel na wyddir enwau ond ychydig ohonynt, ac y mae Duw Elias wedi cymeryd eu lle. Mae Caer Aranrhod dan y môr, mae Dinas Dinlle’n unig, ond y mae pentref Carmel a’i gapeli yn llawn bywyd a meddwl. O’ m hol, y mae olion bore hanes ein cenedl, a’r môr yn chware yn ei rwysg drostynt; o’ m blaen y mae bywyd y dydd heddyw, a diwygiadau crefyddol diweddar wedi rhoddi enw a chymeriad iddo, yn sefyll ar fryn.

Dechreuais synfyfrio ar ddau ben y daith, Dinas Dinlle a Charmel, cartref yr hen baganiaeth a chartref crefydd heddyw, ac ar hyd holl hanes Cymru rhyngddynt,—hanes y gwelwyd rhai o’i olygfeydd mwyaf cyffrous o fewn cylch y mynyddoedd ardderchog sydd o’ m blaen. Ond deffrowyd fi o’ m breuddwyd, a galwyd fi o wyll yr hen amseroedd i Gymru newydd, gan sŵn y tren. Yr oeddwn wedi teithio dwy filltir, ac yn dod dan y ffordd haearn i bentref y Groeslon. Y mae hwn ar fin y gwastadedd ac ar ochr bryn. Dringais hyd y ffordd sy’n arwain i fyny drwyddo. Syllwn ar ambell enw tŷ,—“Angorfa,” yr oedd llun llong y tu mewn, cartref

morwr mae'n ddiau ; " Goleufan," a lluo o enwau Cymreig tlyision eraill ; a themtid fi i ddyfalu pa fath bobl oedd yn byw ymhob un. Codwn i fyny'n gyflym ar hyd y ffordd serth, a chyn hir daeth llaweroedd o chwarelwyr i'm cyfarfod ar y ffordd adref o'u gwaith. Mwyn oedd sylwi ar eu hwynebau deallgar ; a da oedd gennyf weled, gydag ambell eithriad curiedig, eu bod yn bobl iach. Clywais droeon fod plant ardaloedd y chwareli yn hyfion, Ond nid felly y mae ar y ffordd hon, beth bynnag. Plant bach boneddigaidd gyfarfyddais i, parod eu hateb, ond hollol foesgar.

Ond wedi dringo'n uchel, gadewch i ni edrych yn ol. Mae bryniau fel cylch eang o'n cwmpas, a chlog teneu o niwl wedi ei daflu'n esgeulus drostynt, fel gorchudd yn hanner dangos wyneb hawddgar. Y mae'n dewach ar y gwastadedd, y mae yn ei guddio fel na welir lle mae'r tir yn darfod a'r môr yn dechre. A phan welwch ambell lecyn trwy'r niwl, ni wyddoch prun ai perllanoedd dan flagur cyntaf y gwanwyn ydyw, ai corstiroedd brwynog, ai tywod anial. Y mae'r niwl yn araf godi dros y mynyddoedd a'r môr hefyd, ond nid yw'n eu cuddio eto. Wele ymylon Môn, gwelaf afon Menai, a Niwbwrch y tu hwnt, a mynyddoedd Caergybi ymhell ar y gorwel. Ac mor hyfryd yw'r môr ! Y mae rhyw fynydd yn sefyll i fyny o'r niwl odditanom, yn fygythiol a du ; uwch ei ben y mae'r haul yn y cymylau, ac y mae'r cymylau mor ardderchog a phe baent yn cynnwys holl Dduwiau'r Celtiaid mewn nefoedd o'u mewn. Ac fel y machludai'r haul dros orwel y môr, yr oedd ffordd goch o dân yn arwain ar draws y tonnau dros Gaer Aranrhod i'r pellteroedd dieithr. Yr oedd lliwiau mwy gogoneddus uwchben Dinas Dinlle nag y dychmygodd

Titian a Reubens am danynt. Ond ar y môr yr oedd y lliwiau i gyd. Yr oedd y tir isel dan niwl llwyd.

Yr oedd yr eithin ar y bryniau o amgylch y ffordd fel fflamau o dân. Ond ni welais un blodyn arall. Ar bob trofa yr oedd tŷ cysurus, ac ambell hafn o laswellt yn agor i'r ffordd. Ond ffordd i fyny i fynydd noethlwm oedd, ac o'r diwedd cyrhaeddais bentref Carmel. Dywedodd gŵr diddan parablus wrthyf, ond i mi frysio, y cyrhaeddwn ben mynydd Carmel mewn pryd i weled Eryri a'r Eifl yn eu gogoniant cyn i niwl yr hwyr eu cuddio.

Prysurais innau a daethum at ddwy wal gyfochrog yn arwain at gapel ar fin y mynydd. Meddyliais i ddechre mai dau ddwbl un wal oeddynt; ond, wedi dod i'w hymyl, gwelais fod llwybr cul rhyngddynt. Ni all ond y saint teneuon fynd ar hyd-ddo, rhaid i'r rhai graenus gymeryd cylch. Ac ni allai'r un dau fynd ar unwaith; felly rhaid fod y rhai cyntaf yn cychwyn yn gynnar iawn, neu fod y rhai olaf yn bur hir yn cyrraedd drws y capel.

Os troir y wyneb yn ol oddiwyth y capel heb enw arno ar fin y mynydd, gwelir cylch o fynydd-oedd na all Cymru na Lloegr ddangos eu tebig, yn codi yn y niwl, o Benmon i Lanaelhaearn.

Cychwynnais wedyn i fyny'r mynydd byrwellt. Wrth fynd clywn alw'r chwarelwyr i addoliad noson waith. I ddechre daeth sŵn melys cloch, sŵn ymbilgar erfyniol, o rywle pell; ac yn union wedyn sŵn wylofus bygythiol cloch drom yn union oddi tanaf.

Dros gloddfa'r Cilgwyn gwelwn yr Eifl yn dalpiau toredig drwy'r niwl. Wrth gyrraedd pen Mynydd Carmel, tybiwn nad oedd holl swyn mynydd yma ond cri cornchwigen. Gyda'r meddwl hwnnw, clywn sŵn yr aderyn. Na, dau blentyn direidus

oedd yno, yn disgwyl fy ngweled yn rhedeg ar frys yma ac acw i chwiliad am wyau.

Y neb fedr yfed ysbrydiaeth mynyddoedd, safed ar ben Mynydd Carmel. Gwêl hwy yno, yn dyrfa fawr hanner ysbrydol, o'r Eifl i'r Mynydd mawr. Gwêl y Wyddfa, yn edrych i lawr yn wylaidd fawreddog, drwy Ddrws y Coed. Wrth droed y mynydd un ochr y mae Dinas Dinlle a'r môr; yr ochr arall y mae llynnoedd Nantlle, Pen y Groes, a'r mynyddoedd. Y mae'r ddwy ochr yn gyforiog o'r ddwy lenyddiaeth sydd anwylaf i'r Cymro. Ar y naill law gwêl Dinas Dinlle dan hud dieithr babanod ei bobl; ar y llall gwêl Dal y Sarn, o'r lle y cyhoeddwyd yn hyawdl dragwyddoldeb a thrugaredd i filoedd.

Dyma le i weled mawredd y mynyddoedd a ffyrdd y môr. Yr ydym fel pe ym mhresenoldeb Rhyddid, a gofynnwn ymhle mae'n trigo,—ai ar lwybr y mynyddoedd ynte ar lwybr y môr. Yma y mae môr a mynydd yn dadlu, yng ngwydd ei gilydd, mai hwy yw cartref rhyddid. “Mi,” ebe'r mynydd, “a gedwais draw fyddin ar ol byddin, ac a wnes Gymru'n gysegr rhyddid.” “A minnau,” ebe'r môr, “a roddais lwybr i'r gwas ddianc rhag ei feistr ac i'r erlidiedig fynd o glyw llais y gorthrymydd, a chlodais ymborth i'r isel-radd fel na ddi-bynnent yn hollol ar yr arglwydd tir.” Ond er dadle'n hyawdl yn unigedd tawel hyfryd yr hwyr, yn y gynulleidfa ardderchog honno, unent i ddweyd mai ar ben Carmel y dylai cofgolofn rhyddid Cymru sefyll, rhwng mynydd a môr, ac yng nghlyw llais y ddau,—

“Two voices are there; one is of the sea,
One of the mountains; each a mighty voice,
In both from age to age thou didst rejoice,
They were thy chosen music, Liberty!”

X.

I DREF Y BALA.

“**I** DREF y Bala'r aeth,”—na, nid y bardd ond hen fachgen rhyddieithol sych. Cerddodd heolydd y Bala, gan syllu ar ei ddeutu, bob un; gan gymharu'r dref, bob cam, â'r hyn oedd dros ddeugain mlynedd yn ol, pan oedd ef yn fachgen ysgol ynddi. Yr oedd y dref yn hollol yr un fath, ac eto, ar yr un pryd yr oedd popeth yn newydd; a'r hen a'r newydd yn toddi i'w gilydd, a llu o atgofion yn eu cysylltu megis mewn breuddwyd. Yr hwn nad yw'n disgwyl affliw o brydyddiaeth, dilyned y pererin di-awen, os myn.

Bore oer yn y gaeaf oedd, a min ar yr awel. Creded a gredo, ni welais undyn byw drwy'r bore hwn, ond un, y gallwn holi dim arno, er i mi gerdded hyd ganol pob heol yn y dref. Ac yr oedd hwnnw'n rhy ieuanc i wybod beth oedd wedi dod o lawer teulu oedd yn gyfrifol yn y Bala yn fy amser i, ac i'm hatgofio ym mha dai yr oedd efrydwyr enwocaf y colegau yn lletya.

Cychwynnais yn is na gwaelod y dref, ar bont Tryweryn. Ardderchog yw Tryweryn yn y gaeaf. Daw i lawr heibio coed y Rhiwlas, yn un cenllif nerthol, ac eto'n dyrfa aflonydd o ffrydiau Migneint a Chader Benllyn a'r Arennig. Ac wrth weled y dyfroedd yn rhuthro'n garlamus dan y bont tua'r Brynllys a Dyfrdwy, cofiwn am hen benhillion telyn yn diweddu gyda champ amhosibl, sef

“ Rhwystro Tryweryn i waered.”



STRYD FAWR Y BALA.
Cyn codi cof-golofn Tom Ellis.

[Tud. 101

Oddiar bont Tryweryn cewch syniad am lun y Bala. Y mae ar ddull crwth trithant. Y llinyn canol yw'r Stryd Fawr; ar y chwith y mae Heol y Domen, ar y dde Heol Arennig; a'r bwa ar eu traws yw'r Stryd Fach. Croesa'r Stryd Fach Heol y Domen wrth y Groes Fach, a'r Stryd Fawr wrth y Groes Fawr. Deuant yn un drachefn ym mhen uchaf y dref. Nid yw'r Bala'n ganol plwy, canol pumplwy yw. Tyfodd o amgylch croesffordd. Y mae'n ddigon hen i'w siarter ganol oesol brotestio yn erbyn dyfodiad Iddewon iddi.

Ond cychwynnwn. Cyn dod at y lle y mae'r tair ffordd yn ymwahanu, gwelwn hen Green y Bala ar y chwith odditanom. Mae hen drigolion y fro yn cofio eto am ei thyrfaoedd gyda pharch a hiraeth,—

“ Ein tadau gyda hwyl,
 A pher hosannah,
 Fel tyrfa i gadw gwyl
 A gyrchent yma;
 O na chaed eto'r fraint
 O weled yn ei maint
 Gymdeithas fawr y saint
 Ar Green y Bala.

Prudd yw cyfaddef fod fy meddwl i, nid gyda saint, ond gyda lladron. Nid y cae gwyrdd hwn yn unig ddylai fod yn eiddo y cyhoedd heddyw. Na, y mae miloedd ar filoedd o aceri oedd yn eiddo i'r goron ddechre'r ganrif o'r blaen ym mhumplwy Penllyn, ond sydd erbyn heddyw wedi eu meddiannu gan wŷr mawr, yn unig oherwydd fod eu cymdogion yn dldion ac anwybodus ac ofnus. Anfonwyd swyddog i chwilio'r hanes; cynghorodd yntau fod y ddau leidr mwyaf i roddi eu hysglyfaeth i fyny, fel y medrid gwerthu'r aceri meithion i'r

uchaf ei geiniog. Ond cadw, a dal i ladrata, a wnaethant hwy. Gwyn fyd na fuasai'r friddoedd yn eiddo i'r Llywodraeth yn awr, i blannu coed.

Ond dyma ni'n myned heibio i'r Ysgol Ramadegol, ac i'r dre. Ar y chwith, yn Heol y Domen, gwelir Tomen y Bala dan ei choed byth-wyrddion; bu gynt yn wylfa ac yn gastell. Ar y dde, arwain ffordd i fyny at y colegau. Ar y rhiw acw y gwelais Michael D. Jones, yn ei het befar lwydwen, a'i frethyn o liw cain y cen cerrig, ag ysgub fedw fawr yn ei law, yn ysgubo'r ffordd er mwyn dangos i'r byd mor bell oedd y Bwrdd Lleol o gyflawni ei holl ddyletswydd. Mae Bodiwan, hen gartref y Gymraeg a'r delyn, felly y clywais, i fynd o feddiant y teulu. Ac aeth fy meddwl i ar grwydr pell, at y fan y llofruddiwyd Llwyd ap Iwan yn yr Andes.

Awn yn syth yn ein blaenau ar hyd y Stryd Fawr. Ar fore fel hyn rhydd ei choed olwg urddasol arni. A heol brydferth ydyw. Ond pe gwelech hi ambell fin nos eirlawog, a'i goleuadau nwy budr-felynion yn dal i ymladd yn wan a'r tywyllwch, caech olwg arall arni. Harddwch newydd iddi yw cofgolofn Thomas Ellis, y gofgolofn gyntaf yng Nghymru gerfiwyd i ddangos egni bywyd. Y tro diweddaf yr es ar daith fel hyn, yr oedd Tom Ellis yn fachgen bochgoch yn rhedeg a'i lyfrau i'r ysgol draw.

Cerddais yn hamddenol. Ychydig o newid fu ar adeiladau. Clywais fod tŷ Charles o'r Bala, a hen gartref Simon Llwyd, ar werth. Drwg oedd colli efail, nid drwg colli tafarn. Ond y bobl oedd yma hanner can mlynedd yn ol, pa le y maent hwy? Erbyn cyrraedd pen y dref gwyddwn fod llawer mwy o honynt yn huno yn Llanecil

draw, yn y fynwent brydferth ar lan Llyn Tegid, nag sydd yn aros yn y dref. Deuent i'm meddwl yn lluoedd, ac ni welwn yr heol yn wag mwy. Wrth feddwl am danynt, gallwn ddweyd fel y dywedodd Ap Vychan, pan ddaeth yno i weled bedd ei hoff chwaer,—

“Cawsom ni oll ein gwasgaru,
A'n tafu ymhell o dŷ ein tad,
Cefaist ti er hynny lonydd
Ar aelwydydd d'anwyl wlad;
Rhodiaist hyd ei huchel fannau,
Glynnoedd, bryniau mawr eu bri,
A chest fedd, ar ddydd dy arwyl,
Yn ei hanwyl fynwes hi.”

Oherwydd nid ydynt yn Llanecil i gyd. Pe dechreuwn ddweyd hanes fy hen gyfeillion, byddai raid i'm meddwl grwydro i bedwar ban y byd. Bob yn dipyn ffarweliodd llu mawr o garedigion â'm meddwl hiraethus, yn ysbrydion distaw pur. Ond mynnai tri aros ar ol y lleill, fel y gwnaethant lawer tro o'r blaen.

Yn Heol y Castell, parhad o'r Stryd Fach i fryniau'r Fron, yr oedd cartref William Roberts. Yr oedd o deulu caredig, mwyn, a theimladwy. Rhoddodd ei fywyd i Fryn Crug, a dysgodd genhedlaethau o blant fel na fedr wneud ond a fyddo yn eu caru. Collodd ei ferch, oedd yn dod i edrych am dano o weini ar glwyfedigion yn Ffrainc, drwy frad tanforwyr y gelyn. A suddodd yntau i'r bedd, yn anwyl gan bawb. Y tro olaf y gwelais ef, arhosodd yn sydyn ar y ffordd, a dywedodd,—
“Mae'n rhaid i chwi ateb un cwestiwn eto. Beth ydyw'r rheswm fod y bechgyn fyddaf fi'n ganmol ac yn wobrwyo yn ei gwneud hi'n salach yn y byd na bechgyn fyddaf yn geryddu?” “Yr oedd eich cerydd mor dyner,” oedd yr unig ateb y medrwn

feddwl am dano; ac wedi ail feddwl, tybiwn mai dyna'r ateb priodol. Bendith oreu'r nefoedd i ardal yw cael dynion o gymeriad ac amcanion fel rhai William Roberts i fyw ynddi.

*deall
4 bech*
Yn y Plase, parhad o Stryd y Domen, yr oedd cartref John Thomas. Gŵr byr cydnerth oedd ei dad, ysgrythyrwr da, a'i eiriau'n glir a phendant; gwraig dawel, bryd du, lygat-ddu oedd ei fam, yn pryderu llawer am ei bachgen, oherwydd ei fod yn canu cymaint. Yn Nhalsarnau, ac ar hyd ochrau môr Meirionnydd bu yntau'n athraw cydwybodol a llwyddiannus, a thrwy fiwsig rhoddodd dynerwch i gymeriad a phurdeb i chwaeth cenedlaethau o blant. Tybia'r wlad fod y môr a'r gwyntoedd wedi colli rhyw dynerwch pan fu farw ef.

Pwy, a'i gwelodd unwaith, fedr anghofio Robert Jones? Y cerddediad gwisgi ysbongiog, y llygad cyflym siriol, y siarad ffwdanus ffraeth, y chwerthin siaradus caredig,—y mae heolydd y Bala fel pe'n fwy cyffredin a marw wedi ei golli ef. Yr oedd tair nodwedd ganddo a'i gwnai, i mi, yn un o'r gwŷr mwyaf hynod yn hanes y Bala. Cefais gynnyg siarad â gwŷr ieuainc y Bala y Nadolig. Collais y cyfle. Pe bawn yn fwy ffortunus, gwasgwn arnynt efelychu nodweddion Robert Jones.

Yn un peth, yr oedd yn rhoi ei enaid yn ei grefft. Ei allu, ei ddarllen eang, ei chwaeth bur, ei ynni,—rhoddai'r cwbl yn ei grefft. Lliwiedydd oedd; ac, os lliwiedydd, y goreu y medrai fod. Yr oedd ganddo lygad arlunydd at liwiau; hawdd adnabod ei waith mewn tŷ a chapel a neuadd. Yr oedd ei liwiau'n hyfryd, yn toddi i'w gilydd fel cydgord hyfrydaf miwsig. Ymhyfrydai yn ei waith. Daeth holl blant y Bala i weld crud ei blentyn, yr oedd

y lliwiau y tu mewn iddo mor brydferth, ac yn adlewyrchu cymaint o dlysni ar wyneb baban bach. Byddaf yn ofni weithiau nad oes crefftwr tebig iddo wedi ei adael ar ei ol. Blant y Bala bach, sut mae hi arnoch? Argraffwyr, gofaint, seiri, oriadurwyr, pob un sydd mewn crefft gain a chynnil,—a ydyw eich gwaith mor berffaith, mor brydferth, ag y gall fod? A ydyw eich enaid chwi ynddo? Ni ddylai gwaith bler ail law, gwaith diofal ac anhardd, ddod o dref y bu cymaint o egni braich a cheinder meddwl ynddi.

Credai Robert Jones mewn llyfr. Ac yr oedd ganddo sel genhadol ysgol dros lyfr. Cyfarfyddai weithiau a bachgen penwan yn ysmygu myglysen. Taflai'r bachgen y bonyn llosgedig ymaith wrth ddod ato, dim ond llwch ac ychydig fwg, heb adael dim ar ol ond ychydig ychwaneg o awydd am un arall, a dyfnhau ychydig ar gaethiwed yr ysmociwr diofal. "Dyma i ti, fy ngwas i," ebai Robert Jones, yn ei ddull prysur, sydyn, "gad lonydd i'r hen sigarets yna, cadw dy bres, a phryn lyfr da." Ac unwaith y dechreuai son am lyfr da fel cyfaill i wŷr ieuanc, yr oedd ei hyawdledd yn llif. Gwelodd wasg y Bala'n cyhoeddi llyfrau bywyd Cymru, ac ni wnaeth neb fwy, yn ei gylech ei hun, i roi llwybr iddynt at bobl ieuainc.

Credai, nid yn unig mewn meddwl a darllen, ond hefyd mewn cyfnewid meddyliau, ac ennill awch newydd trwy ymgom a dadl. Yr oedd Ysgol Sul a Chyfarfod Llenyddol, dau sefydliad nodweddiadol y Bala, wrth ei fodd; ac y mae'n debyg fod toraeth hanes yr hen gyfarfodydd llenyddol wedi mynd i'r bedd gydag ef. A thra'n credu ym mhethau goreu hen Fala ei ieuencid, yr oedd hefyd yn dal ar y blaen o hyd.

Daeth arnaf awydd pregethu wrth dref y Bala. Anfon eto athrawon, fel yn y dyddiau gynt. Llawer William Roberts elo ohonot, i nawseiddio ardal ag addfwynder ei enaid serchog a phur, Anfon eto lawer John Thomas, a'i gariad at fwsig yn ei wneud yn allu i wareiddio. Ond nac anghofia godi ambell Robert Jones, fu'n aros ynnot, ac yn ddiamynedd wrthyt oherwydd dy ddiffyg ymgais. Y mae ysgolion a cholegau'n codi yng Nghymru heddyw, ac y mae cyfoethogion y tir yn taflu eu rhoddion wrth y deng mil, a'r ugain mil, a'r can mil o bunnau. Ond blodau'r gerddi sydd ynddynt; ac nid ydynt hwy ond ychydig nifer o'u cymharu â blodau gwylltion y cymoedd sydd y tu allan iddynt. Ar y rhai sy'n aros gartref y mae dyfodol ein gwlad yn dibynnu,—ar grefftwyr ei heolydd, ac yn enwedig ar fechgyn meddylgar ei chymoedd.

Mae llu o fechgyn goreu'r Bala a Phenllyn wedi dilyn camrau eu Gwardedwr yn y dyddiau ofnadwy hyn, a llawer wedi gwneud yr aberth mawr. Bechgyn yr Ysgol Sul a'r Cyfarfodydd Llenyddol ydynt. Pa fodd y cofiwn am danynt? Blodau gwylltion fyn bardd Ffestiniog roddi ar feddau y gŵyr am danynt,—rhedyn o Gwm Bowydd, grug o Fwlch y Gwynt. Ond beth fydd eu cofgolofn yn eu gwlad eu hunain, y wlad oeddynt i arwain i fywyd uwch? Onid bywyd newydd yn y sefydliadau ffurfiodd eu cymeriadau, ac a'u cododd megis ohonynt eu hunain yn yr ymdrech fawr dros ryddid y byd? Cânt, yn gof am eu gwrhydri a'u haberth flodau gwylltion tecaf bywyd Cymru,—y Cyfarfod Llenyddol a'r Ysgol Sul.

XI

DISSERTH.

Y MAE ambell le yng Nghymru y gŵyr pawb ormod am dano, ac ambell le na wŷr neb odid ddim am ei safle na'i lun. Un enghraifft o'r cyntaf yw lle enwodd pobl y ffordd haearn yn Builth Road, sef y gyffordd ryw filltir a hanner neu ddwy filltir o Lanfair ym Muallt; enghraifft o'r ail yw y lle alwodd eglwyswyr y canol oesoedd yn Ddisserth.

Dau gyrchle haf enwog yw Llanwrtyd ym Mrycheiniog a Llandrindod ym Maesyfed. Y mae'r ddau ar linell y London and North Western sy'n rhedeg o Abertawe i'r Amwythig. Ond am leoedd eraill, dyweder Caerdydd a Merthyr Tydfil o un cyfeiriad ac Aberystwyth a Llanidloes o gyfeiriad arall, daw eu pobl hyd linell y Cambrian; ac y mae honno'n croesi dan y llinell arall yn Builth Road. Wedi blynyddoedd o brofiad y mae gwŷr y ffyrdd haearn wedi trefnu fod i'r teithwyr fydd yn croesi o'r Cambrian, pa un bynnag ai i Lanwrtyd ai i Landrindod yr ant, aros oriau meithion yn Builth Road. Nid oes yno fawr i'w weled, y mae'r teithiwr profedig yn gwybod am bob coeden os nad am bob blodeuyn sydd yno erbyn hyn; ac nid oes yno ddim i'w wneud os na cherddwch i fyny ac i lawr o'r naill orsaf i'r llall. Y mae yno le aniddorol hyd yn oed yn yr haf, pan fo gold y gors yn goreuo'r ffosydd a'r blodau ar y drain; ond beth am yr adeg y bydd y gaeaf wedi gwywo'r fro, a'i wynt yn treiddio trwy eich esgyrn rhylllyd.

Yr oedd yn rhaid i mi fynd o Aberhonddu i Landrindod eleni ar hwyr brynhawn hirddydd haf. Yn lle aros yn y gyffordd, penderfynais fynd ymlaen hyd y Cambrian i'r orsaf sydd ger y bont newydd ar Wy, a cherdded oddiyno ryw bum milltir neu chwech i fyny ac i lawr bryniau Maesyfed i Landrindod. Ac y mae hyn oll i esbonio paham y gwn ymhle mae'r Dissertth.

Gadewais y pentref bychan bywiog ar yr Wy, a cherddais, trwy arogl per pinwydd a lartswydd wedi eu torri, i fyny i'r ffordd sy'n cysylltu Rhaeadr Gwy a Llanfair ym Muallt, ond yn ebrwydd troais oddiar hon ar y dde, a chymerais ffordd gulach oedd yn dirwyn i fyny ac i lawr bryniau a chymoedd yr hen Elfael. Y mae pyst wedi eu rhoddi ar y croesffyrdd, ac enwau y lleoedd yr arweinir iddynt a'r pellter oddiwrthynt; ac am y gymwynas honno canmoler sir Faesyfed, canmoler hi lle y gellir. A pharod iawn yw'r bobl i aros i siarad, a hyfforddi dyn dieithr yn bwyllog a manwl. Ond ni ddeallant yr un o enwau eu sir. Y mae'r sir yn siarad Cymraeg, a hwythau'n siarad Saesneg. Arosodd tri gŵr, oedd yn canlyn ceffyl a throl, i ymgomio â mi. Os nad wyf yn cam gofio, yr enw ar y drol oedd Blaenglynolwen, yn un gair hir. Ni wyddent ar wyneb daear beth oedd "blaen" na "glyn," a phan awgrymais y gallai mai ffrydlif oedd Olwen, fel Claerwen, cofiasant fod rhyw nant fechan yn rhedeg heibio'r lle. Pan ddywedais fod Olwen yn enw prydyddol, fel enw'r dduwies gynt a adawai feillion gwynion yn ol ei throed, edrychasant yn syn arnaf ac amheus, fel yr edrychodd eu tadau gynt ar Vavasour Powell neu Howel Harris, a synnent, mae'n ddiameu, beth oeddwn

yn geisio yn sir Faesyfed. Yr oeddynt yn bobl fwyn ac nid yn aneallgar, a phe soniaswn am arwyddion glaw neu bris y defaid y mae'n sicr y siaradasent yn hyawdl gyda doethineb hen draddodiadau a newyddion diweddaraf y farchnad. Ond, er hynny, y mae'n rhaid mai tuedd i suo eu meddwl i gysgu wna byw'n blant, codi'n bobl ieuainc, a thyfu'n henafgwyr heb wybod ystyron y cartrefi y maent yn byw ynddynt.

Cerddais yn hapus a llawen i fyny ac i lawr hyd y ffordd droellog, ac awel dyner y bryniau fel y gwin, a blodau gold y gors fel fflamau tân hyd y gweirgloddiau. Yn sydyn cefais fy hun yn croesi'r afon Ithon, dros bont haearn newydd wen. Llifai'r afon o gwm mynyddig, cymerai redfa hanner cylch o amgylch dol, ac yna troai'n ddiwyd ddistaw gyda godrau trum serth goediog. Yn y gwastad, yn nhroad yr afon, safai eglwys, a mynwent y tu hwnt iddi. Dyma eglwys unig a neilltuedig Disserth.

Cyfyd tŵr ysgwar yr eglwys i uchter o ryw ddeg troedfedd a thrigain, ac y mae hyd yr eglwys dros drigain troedfedd. Ac yno y gorwedd, fel rhywbeth dieithr iawn, a tharawiadol iawn, a'r bryniau oll wedi troi eu cefnau ar y ddol isel sydd fel pe'n eiddo iddi.

Beth yw ystyr yr enw? Lle du serth, ebe rhai, oddiwrth y bryniau sy'n edrych i lawr yn wgus ar gyfer yr eglwys unig. Lle nad yw'n serth, lle di-serth, ebe eraill, oherwydd fod yr eglwys yn gorwedd ar ddôl, sy'n wastad ac isel o'i chymharu a'r Carneddau o gwmpas. Ond y mae'n sicr mai o'r gair Lladin *desertum*, yn ei ystyr eglwysig, sef lle wedi ei adael, lle neilltuedig ac unig, y daw'r

enw Dissertth. Esbonia'r Dr. John Davies y gair *desertum* fel hyn,—“diffaith, diffeithwch, diffeithle, anialwch, dyrynsi, lle anial, dissertth. Ac atgofia D. Silvan Evans ni o gyfieithiad Edmwnd Prÿs o'r bedwaredd salm ar ddeg a thrigain,—

“Drylliaist ti ben, nid gorchwyl gwan,
Y Lefiathan anferth;
I'th bobl yn fwyd dodaist efo,
Wrth dreiglo yn dy ddyserth.”

Ond gadewch i ni roi tro i'r fynwent. Y mae hesben y glwyd yn codi'n rhwydd, a neb yn gwarafun i ni fynd i mewn. O'r fynedfa i'r eglwys, nid oes ond gwair. Y mae'r muriau'n hynafol, a pheth gwyrni yma ac acw. Y mae gwydr y ffenestri yn loyw, a gwelwch ddigon i ddeall mai adeilad hen, syml, a glân ydyw. Y mae ychydig o hanes lleol diweddar rhanbarth gwledig Colwyn ar furiau llaith y porth, ond nid yw drws yr eglwys yn agored.

Y tu cefn i'r eglwys y gorwedd hen breswylwyr y fro. A thawel yw eu hûn. Y mae'r Ithon fel pe'n cilio oddiwrth y beddau, a daw ei murmur mwyn yn dyner dros ddol sydd rhyngddi a'r fangre gysegredig. Cartref dedwydd adar a blodau gwylltion yw'r lle cyn tawel hwn yn nhroad dyfroedd Ithon.

Nid oes yma w'r enwog inni fynd i chwilio am ei fedd. Mor ychydig o hen hanes sydd i sir Faesyfed; ond er mor ychydig, y mae hanes diweddar y sir, sef hen Elfael a Maelenydd, yn brinnach o lawer. Yr oedd cestyll lawer ynddi, Rhaeadr Gwy a Cholwyn a Chastell Paen a llu eraill, ac yr oedd cestyll pwysig Llanfair ym Muallt ac Aberhonddu ar ei chyrrau. Brithir hi gan enwau sy'n atgofio'r

oes hon am hen seintiau a hen arglwyddi. Yr oedd y Mortimeriaid o bobtu iddi; a lle y ceir hwy ceir hanes cyffrous bob amser. Tra'r oedd llawer eraill yn ymladd a'r pagan yn enw Crist yng nghanol y ddeuddegfed ganrif, yr oedd llaw Huw fab Rawlff yn rhydd i ail osod iau'r Normyn ar wŷr Elfael, ac i godi castell yn eu canol. Dro arall yr oedd yr Arglwydd Rhys yn mynd i gwrdd a brenin Lloegr i Gaerloew, a'r tywysogion heriasent y brenin yn ei osgordd, ac yn y llu yr oedd Madog o Faelenydd ac Einion Clud o Elfael. Ddydd arall daeth Gilis, esgob uchelgeisiol a rhyfelgar Henffordd, drwy'r fro; ond gadawodd gastell Colwyn a bryniau Elfael i fab Einion Clud, yr hen arglwydd. Beunydd y deuai yr estron, gyda'i beiriannau rhyfel a'i gynlluniau medrus; ond, pan ddeuai'r Arglwydd Rhys neu Lywelyn Fawr i'r gororau, codai uchelwyr Elfael i'w croesawu megis un gŵr.

Nid gwladgarweh bob amser oedd yn cyffroi yr uchelwyr a'u dyledogion. Byddai'r estron yn ymyrryd â'u hawliau i'r porfeydd, hynny wnai droell eu naturiaeth yn fflam. Yr uchelwyr sy'n difflannu, y mae'r bobl yn aros. Y mae dull brwydrau'n newid, y mae bywyd y bryniau yn aros yn debig o hyd. Bu sychter mawr yn y Gwanwyn yn y broydd hyn unwaith, yr oedd gwres yr haul mor fawr fel y sychodd y ddaear dano, fel na thyfodd dim frwyth ar goed na maes, ac na chaed pysgod môr nac afonydd. Ac ar ddiwedd y cynhaeaf, hynny oedd ohono, wele'r llifeiriant glaw. Bu gymaint glawogydd fel y cuddiodd y llif-ddyfroedd wyneb y ddaear, hyd na allai'r ddaear sych agenog, er cymaint hiraethasai yn y sychter mawr am dano, lyncu y diluw dwfr. Ac fel pe na bai eu

heisiau mwyach, torrodd y llif y pontydd, ac ysgubodd y melinau o'i flaen. A allai rhywbeth gwaeth ddod? Gallai, wele senesgal y brenin yn dod, ac yn dweyd wrth y werin ddig drallodus eu bod wedi arfer trespasu ar borfeydd Elfael ar eu cyfer. Ac fel y sychter a'r glaw dygodd yntau anrhaith arnynt.

Ar y porfeydd a'r tywydd yr oedd meddwl gwŷr Elfael, a gwyddai seintiau'r Dissertth pa fodd i ennill eu sylw. Felly cysegrasant eu heglwys i Gewydd Sant, "yr hen Gewydd y glaw." Efe yw Swithin Cymru, neu efe ddylai fod, ond fod y Sais wedi graddol ymwthio i'w le. Ac os sant, sant fedrai ddwyn sychter a glaw yn eu hamser i wŷr Elfael! Y mae'n ddiameu fod yn y gilfach dawl a neilltuedig hon, ganrifoedd cyn i'r efengyl ddod i'r wlad, addoli prysur rhyw hen dduw paganaid ystyrriid gan y werin yn un fedrai reoli gwynt a glaw,—a chadwasant ei wyl dan enw Gwylmabsant Cewydd bob Sul cyntaf yng Ngorffennaf hyd yn ddiweddar.*

Deuwn i oesoedd diweddar, pan oedd pethau rhyfedd yn cynhyrfu ein gwlad. Un o Faesyfed oedd Vavasour Powel. Yr oedd Howel Harris yn byw ar ei chyffiniau, ac iddi hi y mentrodd gyntaf i bregethu'r efengyl losgai yn ei enaid a'r farn fflamiai yn ei gydwybod. Mewn cymoedd mynyddig o amgyleh y sir cododd dynion rhyfedd. Rhyw bum milltir ar hugain i'r dwyrain dros Fwlech yr Efengyl, a dyna chwi yn Olchon, hen grud y Bedyddwyr yng Nghymru. Y mae Trefeca'n

* Ceir enwau Cewydd mewn lleoedd eraill. Y mae Cwm Cewydd ym Mawddwy. "Cewydd's hope," hafn Cewydd rhwng mynyddoedd, yw Cusop ym Maesyfed.

agosach, ac nid yw Aberhonddu'n bell. Y lle cyntaf y deuir iddo dros fynyddoedd meithion y gorllewin ydyw Tregaron, ac y mae Llangeitho gerllaw hwnnw. Ond, er ymdrech y Bedyddiwr, yr Anibynnwr, a'r Methodist, ychydig wrandawodd sir Faesyfed; a'r hyn a glywodd, hi a'i hanghofiodd bron yn llwyr.

Nid oes ond un esboniad. Collodd sir Faesyfed y grym cymeriad a'r argyhoeddiadau dyfynion ddaeth o ddiwygiadau Cymru wrth golli ei Chymraeg.

Yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg ystyrrid esgobaeth Henffordd yn un Gymreig, ac yr oedd yr esgob yn un o'r pump oedd i ofalu am droi'r Beibl i'r iaith Gymraeg. Yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg yr oedd milwyr Cromwell yn clywed Cymraeg yn Heolydd Henffordd. Yng nghanol y ddeunawfed ganrif yr oedd Cymraeg a Saesneg yn gymysg yng nghymoedd Henffordd a Maesyfed. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd Cymraeg wedi distewi yn y mynyddoedd prydferth hyn, hyd yn oed yn Rhaiadr Gwy.*

Yn 1746 yr oedd Joshua Thomas, hanesydd difyr y Bedyddwyr, yn crwydro o'r Gelli i Olchon fynyddig yn sir Henffordd ac i gymoedd Maesyfed i bregethu. Olchon oedd yr hen eglwys, yr eglwys ymneilltuol ystyria ef yn hynaf yng Nghymru. Eglwys Gymraeg oedd. Dechreuwyd pregethu yn sir Faesyfed yn 1630, a chlywyd Walter Cradoc a Vavasour Powell ac eraill ymhob rhan o'r sir.

*Fel iaith addoli cyhoeddus. Yn ol Census 1911 siaradai 1139 Gymraeg (213 yn Llandrindod, 522 yn Rhaeadr Gwy), lleihad o 221 er 1901.

Tua 1750 yr oedd Llanddewi Ystradeni, tua chanol sir Faesyfed, yn Gymreig; yr oedd y Dolau yn Gymreig a'r Rock yn hytrach yn Seisnig. Nid llawer o ymdrech wnawd i gadw'r Gymraeg, un gweinidog Saesneg yn unig ddysgodd Gymraeg i Joshua Thomas wybod am dano, sef Roger Walker y Rock, "Sais naturiol" fu farw yn 1748. Ond buan y lliosogodd y Saeson anaturiol, Saesneg oedd iaith porthmon a marchnad; ciliodd y Gymraeg hyd yn oed yn swm y diwygiadau, fel y collwyd hi megis yn islais leddf afon Gwy. Ciliodd mor sydyn o Faelenydd ac Elfael fel na chafwyd amser i gyficithu enwau lleoedd Cymraeg i'r Saesneg, oddigerth ambell un, fel Croesfordd yn Crossway. Collodd yr *ll* oddiar dafodau'r Cymry Seisnigwyd; ac o raid cyfieithasant Pwll yn Pool, ond yn bur anghelydd,—Mawn Pools yw Pyllau Mawn, a Pool Reddings yw Pwll Rhedyn. Ond erys bron yr oll o'r hen enwau prydferth prydiddol yn eu ffurf gywir.

Diflannodd eglwysi bychain y Bedyddwyr wedi ymdrechion arwyr Joshua Thomas. Yr un yw adroddiad prudd hanesydd y Methodistiaid; diflannodd yr eglwysi er fod "Trefeca ddim ymhell, na Phant y Celyn," er fod "Thomas Jones danbaid, Robert Newell dduwiol, a William Evans hawddgar yn byw o fewn y cylch." Ni roddwyd bywyd newydd i Eglwys Loegr, fel y gwnawd mewn ambell sir. Symir yr hanes digalon gan hanesydd manwl yr Anibynnwyr, fod yn amheus a wnelai yr holl Ymneilltuwyr drwy y sir bum mil allan o'r pum mil ar hugain trigolion, a bod yr eglwysi plwyfol hefyd, gydag ychydig iawn o eithriadau, yn weigion a hollol ddilewyrch. Y mae'n amlwg

fod bywyd ysbrydol sir Faesyfed yn curo'n wannach na bywyd siroedd eraill Cymru. Methodd y Saesneg groesi afon Wy, ac ychydig bontydd oedd dros yr afon yr adeg honno. Meddylier am ardaloedd meddylgar Llanwrtyd, ac am oedfaon Troed-rhiwdalar ar yr ochr arall i'r afon. Paham y mae ochr sir Faesyfed i'r afon mor anhebig iddynt hwy! Wrth rifo llu llenorion Buallt, pang tydd cofio nad oes fardd na llenor wedi codi yn Elfael a Maelenydd.

Bu ymdrech rhwng ysbryd crefydd ac ysbryd y byd yn Nisserth, a rhwng Saesneg a Chymraeg. Ond anhebig yw y ceir enwau'r hen arwyr yn y fynwent hon. Erlidiwyd y Bedyddwyr, ebe Joshua Thomas, trigent ymysg eirth a llwynogod, ac ni chaent feddau yn nhawelwch y llannau. Ond, wedi'r ymgom hir a phrudd hon, trown at y beddau.

Y mae ambell i adnod ac ambell i bennill arnynt. Wrth gofio yr oedd amryw o'r hen Fedyddwyr yn feirdd, ond er pregethu gydag eneniad yn Gymraeg, canent heb eneniad yn Saesneg. Dyma bennill sydd ar fedd mereh Glan Gwy, fu farw'n eneth bedair ar bymtheg oed,—

“The King of Terrors spareth none,
Neither rich nor poor, nor old nor young;
Reader, before thy minutes fly,
Redeem thy time and learn to die;
Now make thy peace with God alone,
Slight not the counsel of a stone.”

Y mae yma benhillion Saesneg eraill, ac wrth eu darllen hiraethwn am emynnau melodaidd Cymraeg ysgrifennwyd yn sir Faesyfed,—

“Duw, atal di rwysg fy meddyliau ffol,
A dena'm serch a'm calon ar dy ol:
Yn holltau'r graig dod i'm ymgeledd glyd,
Mewn tawel hedd, nes mynd o'r anial fyd.”

Yr enwau cartrefi sydd fwyaf diddorol. Y mae rhai yn Gymraeg syml glân,—Brynn, Pentre, Nant yr Haidd, Tan y Graig, Ty Gwyn, Maes Gwyn, Cefn Mawr, Berth Lwyd, Pendre, Nant yr Hwch, Cefnlllys, Gilfach, Tŷ Moses,—heb ofyn am esboniad ond i'r bobl sy'n byw ynddynt. Ceir arlliw tafodiaith mewn eraill,—Girn Fawr, Goyfron neu Goy Fron, Coedca, Carn, Gyrn, Carneddau,—dyna'r ffurf unigol, ddeuol, a lliosog. Lle iach yw'r Geufron; yr oedd Thomas Jones, fu farw yno Tachwedd 5, 1784, yn 99 oed. Buasai rhai o'r enwau yn deffro dychymyg hynafiaethwyr siroedd eraill,—Bryn Sadwrn, Tylellow, Garddu. Sillebir rhai enwau heb ddeall eu hystyr,—Pothley Mawr, Tyr Meirig, Penmincae, Abercamloo, Howey. Cyfieithir ambell un,—Castle Farm, Cross Way. Gwelir dirywiad ambell air,—ceir Bryn y Groes ar hen fedd, a Bryn Groce ar un diweddar; Bryngwanff ar fedd newydd, a'r esboniad cywir ar hen fedd, sef Bryn Gwanaf.

Y mae'n dechre nosi, a rhaid cychwyn. Gwrandawaf ennyd ar frefiadau defaid pell, a murmur distaw Ithon. Dringaf fryniau eraill yn hoyw, croesaf afon Hywi, prysuraf i dŷ Cymro yn Llandrindod cyn iddo gloi ei ddor. Cyn cysgu'r noson honno effro freuddwydiwn am y bryniau a'r dolydd gollasant eu hiaith, am gymoedd didalent allasant fod yn gartrefi meddylgarweh. A chofiw'n fod plant sir Faesyfed yn blant bach anwyl, a'u bod wedi dechre dysgu digon o Gymraeg yn eu hysgolion i ddeall enwau eu hen gartrefi.

XII.

CORWEN.

CORWEN yw cartref yr Eisteddfod Genedlaethol eleni,* ac y mae'n debyg fod llawer, wrth ddarllen y llinellau hyn, yn troi eu meddyliau at Gorwen, yn holi pa fath le ydyw, ac yn paratoi i fyned yno.

O'i chymharu â chartrefi arferol yr Eisteddfod, lle bychan ydyw Corwen; a synna llawer at ddewrder a sel lenyddol y trigolion, oherwydd gŵyr pawb mai nid baich bychan hyd yn oed i le mawr a chyfoethog ydyw cynnal Eisteddfod Genedlaethol heb golli urddas nac arian. Os medr Corwen lwyddo ddechre'r mis hwn, bydd wedi gwneud cymwynas fawr â Chymru, sef dangos y medr rhai o'n trefi bychain, lle mae'r hen gariad at hanes a llenyddiaeth a chân yn llosgi'n eirias, gynnal cynhulliad mor anferth a'r peth y mae'r Eisteddfod wedi tyfu i fod erbyn hyn.

Nid wyf yn meddwl dweyd fod Corwen yn lle bychan dibwys, pell oddiwrthyf fo dweyd hynny. Y hi yw prif dref Edeyrnion; lle cyferfydd tair sir, sef Meirionnydd, Dinbych, a Threfaldwyn; mae'n ganolbwynt gwlad eang y gwlan a'r gwenith, gwlad y Berwyn ac ardaloedd y Ddyfrdwy a dyffryn clodfawr Clwyd; mae'n fan cyfarfod llawer o ffyrdd, yn y rhan yma o'r wlad rhaid mynd drwy Gorwen i fynd i bobman. Ond un heol sydd

* 1919. Yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf ar ol darfod y Rhyfel Mawr.

iddi, ac nid yw ond y leiaf ymysg trefi eisteddfodol Cymru. Cyrchfa pobl fydd yn ystod wythnos yr eisteddfod, ac nid eu cartref; deuant iddi bob dydd wedi cysgu yn y Bala neu Ddolgellau, Dinbych a'r Rhyl, Llangollen a phentrefydd poblog ardaloedd Gwresam a'r Rhos. A mawr lwydd fo i'r Eisteddfod mewn cornel mor dawel.

Saif Corwen yng nghesail Berwyn, braidd yn rhy agos at ei galon i gael llawer o haul y bore. Ymddolena Dyfrdwy'n hamddenol o'i chwmpas, newydd dderbyn dyfroedd Alwen o froydd Hiraethog a thyrfa lafar o aberoedd llethrau'r Berwyn,—Caletwr a Cheidiog, Llynor a Thrystion. Y mae i'w bryniau a'i mynyddoedd hanes henafol, gŵyr y bugail am ffordd gam Helen a chaer Drewyn a llawer llecyn arall y mae traddodiad yn floesg wrth draethu am dano a hanes yn fud.

Ond y mae i Gorwen lawer o hanes sicr. Ar un adeg bu y lle pwysicaf yng Nghymru mewn ystyr filwrol. Yr oedd y brenin Seisnig galluog Harri'r Ail wedi gweled na ellid llethu Cymru trwy droedio'r hen ffordd y collwyd cymaint o waed ar hyd-ddi. Ac felly, yn lle ymosod drachefn hyd ffordd y môr, a chroesi afon Gonwy ger ei haber, a threiddio i gadarnleoedd Eryri a hyfryd feysydd Môn, breuddwydiodd am ffordd arall. Yr oedd honno yn ei arwain dros y Berwyn i ddyffryn Edeyrnion, ac oddiyno hyd wlad gymharol hawdd ei thramwy i flaenau Conwy ac at fylchau Arfon. Ac yng Nghorwen yr oedd Cymru i wynebu'r gelyn oedd yn bygwth ei darostwng a llethu ei rhyddid yn lân. Cynhulliad rhyfedd oedd yng Nghorwen saith gant a hanner o flynyddoedd yn ol i amddiffyn Cymru,—Owen Gwynedd a Chadwaladr feibion.

Gruffydd ab Cynan a holl lu Gwynedd gyda hwynt, a'r arglwydd Rhys ab Gruffydd a holl Ddeheubarth gydag ef, Owen Cyfeiliog a Iorwerth Goch fab Meredydd a meibion Madog fab Meredydd a holl Bowys gyda hwy, a deufab Madog fab Idnerth a gwŷr Hafren a Gwy. Ni fu cynt na hynny gynhulliad mor gyflawn o genedl y Cymry. Ond bydd un mwy a'i ragorach yn Eisteddfod Corwen yn 1919. A hyfryd yw meddwl y cyhoeddir, nid fod rhyfel, ond fod heddwch.

Ger Corwen yr oedd cartref Owen Glyndwr. Nid oes ond ychydig olion o'i lys; ond hyd yn ddiweddar iawn safai ger un o droadau'r Ddyfrdwy fwthyn prydferth ei gynllun oedd, y mae'n ddiameu, wedi ei godi yn ei amser ef. Ond er mor ychydig o ddim ar flurf crair ac adeilad sydd i gofio am Owen Glyndwr, nid oes yr un Cymro wedi byw mor llawn a dilwgr yng nghof ei genedl ag ef.

Yn wythnos yr Eisteddfod bydd digon i'w wneud gyda'r canu a'r areithio a'r beirniadu, heb adael y babell ar y gwastadedd lle bydd y miloedd wedi ymgynnull. Ond y mae'n bosibl blino ar Eisteddfod hyd yn oed. Crwydra ambell un lethrau'r mynyddoedd, i weled y dyrfa o bell. Chwilia rhai am Gapel y Ddol, roddodd ei enw i un o donau J. D. Jones. Crwydra eraill i eglwys ddiaddoliad Llangar, lle y treuliai Edward Samuel ei amser rhwng y dafarn a chyfieithu llyfrau i'r Gymraeg, yn ol eglwyswr a gondemniai'r ddau waith, yn enwedig yr olaf. A rhai eraill ymhellach, yn ol y tywydd a'u nerth.

Gellir gweled rhai pethau diddorol heb droi o dref Corwen ei hun. Y mae carreg yn y fynwent elwid gan yr hen bobl yn Garreg y Big yn y Fach.

Rewlyd. Ni fu cun saer maen arni erioedd, ac ni chafodd do i'w diddosi. Ond y mae y garreg hynaf yn yr ardaloedd hyn, o gerrig sydd a hanes iddynt, ac yn un o'r rhai hynaf yng Nghymru i gyd. Eler i mewn trwy'r fynwent i borth gogleddol yr eglwys, ac edrycher ar fur y porth ar y llaw chwith, nid y tu mewn, ond y tu allan. Yno gwelwch garreg hirfain, bigfain, wedi ei gweithio i fur y porth. Nid yw wedi ei naddu a'i thrwsio, ac y mae'n debyg mai sefyll ar ei gwadn y byddai gynt i herio'r tywydd ers oesoedd maith. Y mae mortar y dyddiau hyn, a cherrig bach cyffredin, yn gwasgu'n ddifoes ar ei hysgwyddau heddyw; ond y mae rhywbeth yn osgo a flurf yr hen garreg a dyn sylw pawb. Unwaith bu, nid yn unig yn wrthrych sylw, ond yn wrthrych ofn addoliadol. Yr oedd perthynas agos rhyngddi a galluoedd ysbrydol; a phan sefydlwyd yr addoliad Cristionogol cyntaf yn yr ardal hon, ni chafwyd llecyn y gallai'r cenhadwr cyntaf gasglu ei ddychweledigion nes yr arweiniwyd ef trwy ryw ddull goruwchnaturiol i'r gornel dawel lle safai, a'r lle saif, y garreg hon. Ni wn a oedd ystryw rhyw hen bagan yn y nos yn rhwystro adeiladu mewn lleoedd eraill, ac ni wn a oedd Carreg y Big yn gysegredig i ryw hen dduw na feiddiai pagan ei ddigio, cyn ei chysegru i Grist. Ond hi safodd i ddangos cartref cyntaf y grefydd newydd.

Medr y daearegwr ddweyd pethau rhyfeddach na'r hanesydd am dani. Bu drwy ddau gyfnod rhyfedd cyn cyfnodau hanes. Bu unwaith mewn diluw llifeiriol o dân, ac mewn tân y ffurfiwyd hi; y mae ol y dwfr berwedig ddiangodd yn ager ohoni i'w weled eto fel creithiau arni. Darn o lafa wedi

caledu ydyw. Wedi hynny bu mewn afon o rew, yn symud yn yr afon araf, a cherrig eraill yn gwmni iddi. Yr adeg honno y llyfnhawyd hi, ac y tynnwyd pob crychni o'i hwyneb. Hwyrach iddi gael ei henw oddiwrth ei chysylltiad a'r afon ia, o ryw atgofion pell. Y "Fach Rewlyd," hwyrach, oedd cornel oer lle'r oedd y rhew heb gwbl doddi. Ceir y gair mewn enwau lleoedd eraill heb fod ymhell, megis Ty'n y Fach a'r Fach Ddeiliog. Darn ydyw'r garreg o'r mynyddoedd y canodd Huw Derfel au eu ffurfiad a'u diwedd, wrth groesi'r Berwyn draw,—

" Chwi heriwch alluoedd elfennol
 Feraon tragwyddol o'r bron,
 Taranau, mellt saethawl, corwyntoedd,
 A chenllif dyfnderoedd y don ;
 Ond gwelaf ryw ddiwrnod yn nesu,
 A ellwch chwi sefyll bryd hyn ?
 Y ddaear a ymchwydd fel meddwyn,
 A nerthoedd y nefoedd a gryn."

Nid oedd Huw Derfel ond *un* o feirdd y fro hon. Hwyrach y dywedir eu hanes yn ystod yr Eisteddfod.

Y mae carreg hynod arall ym muriau eglwys Corwen. Yng nghefn yr eglwys, yn lintel i ddrws yr offeiriad, ar ochr ddeheuol y gangell, ceir carreg hir ar ei hochr a llun croes arni. Tybiodd gwerin gwlad mai llun dagr Owen Glyndwr oedd y groes. Taflood yr arwr ei ddagr, fel y gwnaethai hen gawr neu hen dduw yn yr oesoedd gynt, a gadawodd y dagr ei lun ar y garreg hyd heddyw. Y mae'n ddigon tebig mai carreg fyddai unwaith ar ei phen ger llys Owen Glyndwr oedd y garreg hon. Byddai carreg felly yn aml mewn bwlech a chroesffordd,

ond cadwyd y garreg hon yn gysegredig oherwydd rhyw gysylltiad a bywyd y gŵr mawr crefyddol feddyliodd am anibyniaeth Eglwys y Cymry ac am brifysgolion iddi.

Diweddar iawn yw hanes ymneilltuaeth yng Nghorwen; lle erlidgar fu. Ond bydd ambell Fethodist selog yn gofyn lle y ceisiwyd curo Charles o'r Bala pan yn ceisio sefydlu Ysgol Sul, lle y safodd John Jones o Edeyrn wrol wrth wal y fynwent i herio'r dorf, a pha rai o ffenestri'r Harp yw ffenestri hen oruwchystafell cychwyn yr achos. Ond odid na hola ambell Anibynnwr am lofft y Queen, lle y ffurfiwyd eglwys gan yr hen Fichael Jones. A daw Bedyddiwr a Wesleyad i ofyn am rywbeth enwog yn hanes eu henwad hwythau. A holer am yr Ysgol Sul; hwyrach mai ei hanes hi ydyw'r mwyaf diddorol oll.

Eisteddfod fawr fydd Eisteddfod Corwen eleni, ac nid fel yr eisteddfod fechan lewyrchus a defnyddiol a gynhelir yn y dref bob Awst. Y mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddarluniad tarawiadol o undeb cenedl lenyddol, ond hwyrach nad yw ei gwerth fel moddion addysg yr hyn allasai fod. Ni chlyw y dorf anferth ond côr mawr neu seindorf bres erbyn hyn. Ni all y delyn fwyn a'r crwth hudol gystadlu a'r utgorn. Ni chlywir llais y llenor a'r bardd ond mewn rhyw gyfarfod adrannol; cânt hwy fwy o le yn yr eisteddfodau bychain.

Ond er hynny gedy eisteddfod fawr lwyddiannus arogl hyfryd ar ei hol. A bydd digon o ddefnydd ysbrydiaeth yr ardal yn eisteddfod eleni. Y mae dechreuad Cristionogaeth yn Edeyrnion yn rhy bell i anfon pererinion i gamu ar draws yr heol i weled Carreg y Big yn y Fach Rewlyd. Y mae

Owen Gwynedd bruddglwyfus ac Owen Cyfeiliog fwyn ei gân yn niwliog bell erbyn hyn. Ond y mae ysbryd Owen Glyndwr eto'n llenwi'r fro; y mae ei freuddwydion ym mywyd y rhai sy'n cynnal eisteddfodau Edeyrnion. Ac os hoffai'r Cymry gwlatgarol gael rhywbeth i freuddwydio am dano wrth fyned i Gorwen a thra'n aros yno, cofient y gallai fod Owen Glyndwr yn huno yn eglwys dawel Corwen, o fewn ergyd carreg i babell yr Eisteddfod.

XIII.

DROS FIGNEINT.

A OES rhywun yn teimlo ei fywyd yn faich ?
A oes rhywun wedi pryderu cymaint fel
y mae wedi colli ei ynni, ac yn methu
gwneud cynlluniau yn ei ddychymyg mwy ? A
ydyw ei liw wedi cilio oddiar fywyd iddo ? A yw'r
cwsg yn gwrthod dod y nos, a hoen y dydd ? A yw
cofio am ieuenctid wedi peidio bod yn ddedwyddwch,
a henaint wedi dod yn beth i hiraethu am dano ?
A sychodd holl aberoedd cysur iddo, a fachludodd
pob seren o'i wydd ?

Os felly, aed dros Figneint. Ymwroled, a cherdded
yr ugain milltir o gwm a gwaen a mynydd sydd
rhwng y Bala a Ffestiniog. I ddechre erys ei
feddl yn drwm, a blina ei goesau, edifarha am
iddo gychwyn, a diau yr ysgyrnyga yn ei feddl
arnaf finnau wrth gofio mai y fi roddodd gyngor
iddo gychwyn. Ond yn araf, fel y mae awel y
mynydd yn ei adnewyddu, daw tangnefedd i'w enaid,
ac esmwythâd i'w feddl blin ; a bydd hoen adne-
wyddol ei ysbryd yn rhoi ystwythdra hyfryd a diflin
i'w gorff. A chofia am danaf finnau fel cynghorydd
gwerth gwrando arno. Ac nid yw hyn ond dechre.
Y mae agos i hanner y ffordd dros fil o droedfeddi
o uchter. A chwyd yr ysbryd gyda'r ffordd.

Dringwn i fyn y rhiw'r coleg, a gwelwn gerflun
Dr. Edwards,—eistedd y diwinydd yn ei gader,
fel yr arferai wneud yn ei ddosbarth,—yn ein

wynebu. Awn dros fryn y coleg, ac yn y man deurn at lan Tryweryn, a murmura gwmni diddan inni, fel y gwnai i Dr. Edwards pan yn myfyrio am athrawiaeth yr iawn a chysondeb y fydd ar ei hoff rodfa. Croeswn yr afon cyn hir, gadawn ar y dde y ffordd sy'n troi tua Cherrig y Drudion. Beth yw'r dyrfa fawr hon? Carcharorion Almaen-aidd wedi cartrefu o'u hanfodd mewn hen waith whisci oedd wedi mynd yn hesb. Gadawn hwy ac atgofion am y rhyfel, y mae mynyddoedd cribog yn ymagor o'n blaen, a'r Arennig yn bennaf ohonynt. Down uwchben dolydd a gweirgloddiau dan ganu at Gapel Celyn, a gadawn ar y dde y llwybr sy'n arwain dros y mynyddoedd unig i Ysbyty Ifan, lle y bu gynt urdd filwrol Ioan Fedyddiwr, a'r lladron llofruddiog ymdyrrent yno i fod dan eu nawdd. Os gaeaf yw hi, y mae rhaeadrau'r afon, wrth ddisgyn dros eu grisiau cerrig a than y coedydd, yn dawnsio ac yn chware ar y creigiau, ac yn wynnach na'r dim gwynaf. Os hydref yw hi, ceir y griafolen, ym mherffeithrwydd tlysni cochter ei haeron, yn plygu uwch ben llynnoedd cornentydd y creigiau. Ac ar bob tywydd, boed fwynder Mehefin neu des Awst, gorchudd o wlaw neu ruthr o eira, ceir golygfeydd bythgofiadwy ar ardderchog-rwydd natur.

Yn Rhyd y Fen, tua hanner y ffordd, gallwn gael y lluniaeth sy'n angenrheidiol, ac yna dyna'r Migneint o'n blaenau. Wedi gadael Rhyd yr Helfa a'r Tai Hirion byddwn am filltiroedd heb ddod at dŷ na thwlc. Ond gwelwn Lyn Tryweryn odditanom, a'r Amnodlau pell, lle y bu Ap Vychan yn hogyn twyso, ac i'r rhai y canodd ei englynion



CYSGODION YR HWYR.
Oddiwrth y darlun gan S. Maurice Jones

[Tud. 127.

campus. Cawn gip ar flaen cymoedd Trawsfynydd, —ac yna dim ond mynydd, a defaid, a brwyn. Cyll y byd terfysglyd ei holl ddwndwr yma, yn uchel gysegr natur; daw grym i'r meddwl a chwardd wrth gofio ei ofnau, daw ffydd yn ddigon cref i daflu mynyddoedd i'r môr. Yma anedlir anfarwoldeb, a bydd atgof am y lle yn gordial ar lawer awr o iselder ac amheuaeth wedi hyn. Mynydd y gweddnewidiad fydd Migneint i lawer enaid gwyw.

Wedi dechre disgyn, y lle byw cyntaf y down ato yw Pont yr Afon Gam, ac ar y dde gadawn y ffordd fynyddig sy'n croesi'r mynydd i Benmachno. Toc, wedi dringo bryncyn gwelwn Raeadr y Cwm odditanom. Disgyn yn esmwyth a distaw fel breuddwyd o lyn i lyn. Ni flinir wrth edrych arno. Ni synnwn na chysget yn y grug, a byddai dy freuddwyd fel un Jacob gynt, am ysgol yn cyrraedd i'r nefoedd, ac engyl yn disgyn ar hyd-ddi. Y mae'r grug ar y llethr gyferbyn, gwelir yr hebog megis yn sefyll yn llonydd ar ei aden, ac ymhell bell islaw gwelir dolydd gwyrddion Cwm Cynfal.

Yr ydym newydd adael cysegr unigedd y mynydd a'r enaid, y mae ein traed yn awr yng nghysegr rhamant a llenyddiaeth ein gwlad. Ar y dde, ar odrau'r mynyddoedd, y mae Llyn y Morwynion a Beddau Gwŷr Ardudwy; i lawr yng nghwm coediog rhaeadrog Cynfal, ar y chwith, y mae pulpud carreg Huw Llwyd, a gwlad Edmwnd Prys a Morgan Llwyd o Wynedd. A chroesir ein ffordd yn y man gan Sarn Helen, lle gwel llygad dychymyg y bugail, lengoedd Helen yn ymdeithio ambell nos loergan lleuad.

Ac wele fynyddoedd newydd yn codi o'n blaenau, Manod a Moelwyn a'u tylwythau, yn eu gogoniant, a rhyngddynt gwelwn wên araul y môr. Disgynnwn i lawr i lan hyfryd Ffestiniog, ceir yno lety mwyn yn y pentref sy'n sefyll fel nyth aderyn uwchlaw'r gwastadedd, neu fel noddfa gwyliwr uwch gwlad hud; hyfryd yw'r ymborth a melys fydd ein hûn. Ac ni ddaw gwan obaith i'r enaid tra bo atgof am awel Migneint yn ein ffroenau.

Wr ieuanc digalon, ac o ychydig ffydd, croesa Figneint, a byddi'n ddyn newydd.



GEIRFA.

Name.....

Form.....

PAN yn chwilio am eiriau, cofier fod y llythyren *c, p, t, g, b, d, ll, m, rh,* yn newid yn nechre gair, er enghraifft,—

cath.	ei <i>gath</i> .	fy <i>ngath</i> .	ei <i>chath</i> .
pen.	ei <i>ben</i> .	fy <i>mhen</i> .	ei <i>phen</i> .
troed.	ei <i>droed</i> .	fy <i>nhroed</i> .	ei <i>throed</i> .
geneth.	ei <i>eneth</i> .	fy <i>ngeneth</i> .	
brawd.	ei <i>frawd</i> .	fy <i>mrawd</i> .	
darlun.	ei <i>ddarlun</i> .	fy <i>narlun</i> .	
lyfr.	ei <i>lyfr</i> .		
mam.	ei <i>fam</i> .		
rhau.	ei <i>rau</i> .		

Rhoddir *h* weithiau o flaen gair, megis,—*enw, ei henw.*

Os methir cael ystyr gair a ddechreuia gydag *a, e, i, o, u, w, y,* ceir ef fel rheol drwy edrych dan y llythyren *g.*

Arwydda *m.* masculine ; *f.* feminine ; *pl.* plural.

ACHLOD, *m.*, disgrace.
 ADFAIL, *m.*, ruin.
 ADLODD, *m.*, aftermath.
 AEDDFED, ripe.
 AEL, *f.*, brow.
 AERON, *m. pl.*, berries.
 AFIAETH, *m.*, enjoyment.
 AFROSGO, clumsy.
 AGERLONG, *f.*, steamer.
 ANGERDDOL, ardent.
 ANGHYFANEDD-DRA, *m.*, uninhabited desolation.
 AIDDGAR, zealous.
 ANAFUS, maimed.
 ANIAN, *m.*, nature.
 ANNWN, Hell.
 ANHRIGIANNOL, uninhabited.
 ARABEDD, *m.*, wit.
 ARAUL, sunny.
 ARDDERCHOWGRWYDD, *m.*, excellence.
 ARGEL, *f.*, sequestered place.

ARGRAFFWYR, *m. pl.*, printers.
 ARUCHELEDD, *m.*, loftiness.
 ARWYDD, *m.*, sign.

BÂD, *m.*, boat.
 BARA HAIDD, *m.*, barley bread.
 BEDWEN, *f.*, birch.
 BEIDDGAR, audacious.
 BEUNYDD, daily.
 BLAGURO, to flourish.
 BLOESG, faltering.
 BONCYFF, *m.*, stump.
 BOTH, *f.*, nave of a wheel.
 BRIALLU, *m. pl.*, primroses.
 BROCHI, to fume.
 BUARTH, *m.*, farm-yard.
 BUCHEDD, *f.*, life, morality.
 BYDDAROL, deafening.

CABLEDD, *m.*, blasphemy.
 CABOLEDIG, polished.
 CACWN, *m. pl.*, wasps.

CADDUG, *m.*, fog, mist.
 CAER, *m.*, fortified camp.
 CANGELL, *f.*, chancel.
 CAIN, beautiful.
 CANNAID, white.
 CARLAM, *m.*, gallop.
 CARN, *m.*, hoof.
 CAWOD, *f.*, shower.
 CEINDER, *m.*, elegance.
 CENNAD, *m.*, messenger, message.
 CEUBREN, *m.*, hollow tree.
 CEULAN, *f.*, bank.
 CILFACH, *f.*, nook.
 CLOCHYDD, *m.*, sexton.
 CLAWDD, *m.*, hedge.
 CLOGWYN, *m.*, cliff.
 CLWYD, *f.*, gate.
 COFFADWRIAETH, *f.*, remembrance.
 CORLAN, *f.*, sheepfold.
 CORYN, *m.*, summit.
 CRAIR, *m.*, relic.
 CREBACHU, to shrivel.
 CREFYDDOLDER, *m.*, piety.
 CRIAFOLEN, *f.*, mountain ash.
 CRIBIN, *f.*, hay rake.
 CROYW, clear.
 CRUPL, *m.*, cripple.
 CRWTH THRITHANT, *f.*, violin.
 CWTA, short.
 CYDRADD, equal.
 CYFAREDD, *f.*, charm.
 CYFARFOD LLENYDDOL, *m.*, literary meeting.
 CYFNOS, *m.*, evening.
 CYFORIOG, brim-full.
 CYFRIN, *m.*, secret.
 CYFUNIAD, *m.*, combination.
 CYFFINIAU, *m. pl.*, neighbourhood.
 CYFFYRDDIAD, *m.*, touch.
 CYMUN, *m.*, the Sacrament.
 CYNDEIRIOGI, to enrage.
 CYNRYCHIOLWR, *m.*, representative.
 CYRCHLE, *m.*, resort.
 CYRRAU, *m. pl.*, borders.
 CYSYLLTIAD, *m.*, connection.

CHWYRNELLU, to whirl.
 DADENI, to reanimate.
 DAIL TAFOL, *m. pl.*, dock plants.
 DEFOSIYNOL, devotional.
 DEWINES, *f.*, witch.
 DIADLAM, homeless.
 DIDRAMWY, unfrequented.
 DIFWYNO, to spoil.
 DIHYSBYDD, inexhaustible.
 DIRYVIO, to degenerate.
 DISYFYD, sudden.
 DOLENNOG, winding.
 DUR, *m.*, steel.
 DUWIOLFRYDIG, God-fearing.
 DYFNFFORDD, the deep path.
 DYHEAD, *m.*, aspiration.

ECHRYDUS, shocking.
 EGNU BRAICH, elbow grease.
 EINIOES, *f.*, life.
 EIRLAW, sleet.
 EITHIN, *m.*, gorse.
 ENCILFAN, *f.*, retreat.
 ENEINIAD, *m.*, anointing.
 EOFN, fearless.
 ERCHWYS, pack of hounds.
 ESGYMUN, execrable.
 ETHOLIAD, *f.*, election.
 EURAIDD, golden.
 EWIG, *f.*, deer.

FFIAIDD, loathsome.
 FFERRU, to perish with cold.
 FFRAETH, eloquent.
 FFREWYLL, *f.*, whip.
 FFRIDD, *f.*, sheep-walk.
 FFRWD, *f.*, stream.
 FFWDANUS, fussy.

GALARGERDD, *f.*, elegy.
 GLANWEITHDRA, *m.*, cleanliness.
 GLWYS, pure.
 GOFAINT, *m. pl.*, blacksmiths.
 GORCHUDDIO, to cover.
 GORDOI, to overspread.
 GOROESI, to survive.
 GOROR, *f.*, border.

GORTRECHOL, oppressive.
 GORWEDDLE, *f.*, resting-place.
 GRAENUS, of good grain.
 GRIS, *m.*, step.
 GRUG, *m.*, heather.
 GWARAFUN, to grudge.
 GWARCHODLU, *m.*, garrison.
 GWAREIDDIO, to civilize.
 GWEFREIDDIO, to thrill.
 GWEIRGLODD, *f.*, meadow.
 GWENYNEN, *f.*, bee.
 GWEP, *f.*, face.
 GWERINOL, democratic.
 GWLEIDYDDIAETH, *f.*, politics.
 GWLITHLAW, *m.*, drizzle.
 GWRIDO, to blush.
 GWREGYS, *m.*, belt.
 GWYDDEL, *m.*, Irishman.
 GWYLEIDD-DRA, *m.*, modesty.
 GWYNGALCHU, to whitewash.
 GWYRDDLESNI, *m.*, verdure.
 GWYRYFON, *f. pl.*, virgins.

 HALOG, polluted.
 HEDDGEIDWAD, *m.*, policeman.
 HENDAID, *m.*, great grandfather.
 HERCIAN, to wobble.
 HESBEN Y GLWYD, the hasp of
 the gate.
 HIRHOEDLOG, longlived.
 HIRLLAES, long.
 HOGLANC, *m.*, stripling.
 HUD, *m.*, charm.
 HUDOLUS, alluring.
 HULIO, to deck.
 HUNELL, *f.*, nap.
 HYDREF, *m.*, autumn, October.
 HYNAFIAETHWR, *m.*, antiquary.

 IACHUSRWYDD, *m.*, healthiness.

 LARTSWYDD, *f. pl.*, larches.

 LLAETHWEN, milky white.
 LLAFN, *m.*, blade.
 LLANNERCH, *f.*, open space.
 LLECHWRAIDD, skulkingly.
 LLEDNEISRWYDD, *m.*, modesty.

LLEDRITH, *m.*, magic.
 LLEIDIQG, muddy.
 LLESMAIR, *m.*, swoon.
 LLETHR, *f.*, slope.
 LLOERGAN, *m.*, moonlight.
 LLUS, *m.*, bilberries.
 LLWYDNOS, *f.*, evening.
 LLWYDREW, *m.*, hoar-frost.
 LLWYFAN, *m.*, platform.
 LLYS, *m.*, court.

 MACHLUD, *m.*, sunset.
 MALIO, to care.
 MANGRE, *f.*, spot.
 MARCHOGAETH, to ride.
 MASNACHOL, commercial.
 MASARN, *f.*, sycamore.
 MAWNOG, *f.*, peat-bog.
 MEILLION, *m. pl.*, clover.
 MORFA, *f.*, moor.
 MURDDYN, *m.*, ruin.
 MURMUR, *m.*, murmur.
 MWSOGL, *m.*, moss.
 MYFYRGAR, studious.
 MYGYSLEN, *f.*, cigarette.
 MYNACH, *m.*, monk.

 NADGANU, to wail.
 NAWSEIDDIO, to soften.
 NOETHLWM, exposed.
 NWWYFUS, spirited.

 ORIADURWR, *m.*, watchmaker.
 ORIG, *f.*, little while.

 PALMWYDD, *f. pl.*, palm trees.
 PARABLUS, loquacious.
 PATRIARCHAIDD, patriarchal.
 PELYDR, *m.*, ray.
 PERAROGL, *m.*, fragrance.
 PERSONDY, *m.*, parsonage.
 PERTH, *f.*, bush.
 PERSAWR, of fine taste.
 PLWYFOLION, *m. pl.*, parishion-
 ers.
 PLYGEINIOL, very early.
 PINWYDDEN, *f.*, pine tree.
 PORI, to graze.

PRUDDGLWYFUS, depressed.
 PRYDYDDOL, poetic.

RHADLON, genial.
 RHAMANT, *f.*, romance.
 RHEDYN, *m. pl.*, fern.
 RHEITHORDY, *m.*, vicarage.
 RHITH, *m.*, guise, appearance.
 RHWYSG, *m.*, career, pomp.
 RHYDDFRYDIAETH, Liberalism.
 RHYDDIAETH, *m.*, prose.
 RHYNLLYD, shivering.
 RWBEL, *m.*, rubble, mud.

SAER, *pl.*, SEIRI, *m.*, artisan,
 carpenter.

SAFFRWYM, *m.*, saffron.
 SANGU, to trample.
 SEGURYD, *m.*, idleness.
 SIBRWD, *m.*, whisper.
 SIMNEI, *f.*, chimney.
 SOBRDDWYS, profound.
 SUGNDYNOL, suckling.
 SYLWEDD, *m.*, substance.
 SYPIAU YD, sheaves of corn.

TALOG, jaunty.
 TANFORWR, *m.*, submarine.
 TARTH, *m.*, haze.
 TELAID, graceful.
 TES, *m.*, heat.

TEWFRIG, thick-branched.
 TOMEN, *f.*, dunghill.
 TORAEATH, *f.*, abundance.
 TRADDODIAD, *m.*, tradition.
 TRAGWYDDOLDEB, *m.*, Eternity.
 TRAMWYO, to traverse.
 TREIDDIO, to penetrate.
 TROELLI, to wind.
 TRUM, *m.*, ridge.
 TRYCHIOLAETH, a terrible sight.
 TRYFRITH, speckled.
 TUSWOG, bunched.
 TWLC, *m.*, shed.
 TWYISO, to lead a horse.
 TYWALLT, to pour.

WYLOFAIN, to weep.


YDLAN, *f.*, rick-yard.
 YMADRODDUS, eloquent.
 YMLUSGIAD, *m.*, reptile.
 YMDDIRIED, to entrust.
 YMSEISNIGEIDDIO, to Anglicize.
 YSBLANDER, *m.*, splendour.
 YSGAR, to separate.
 YSGAW, *f.*, elder wood.
 YSGLYFAETH, *m.*, prey, booty.
 YSGWYDD, shoulder.
 YSGYRNYGU, to snarl.
 YSGYTHROG, craggy.
 YSMOCIWR, *m.*, smoker.

DIWEDD.



WRECSAM:

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR.



Contingency

PONTARDAWE

Name.....

Form.....

SECONDARY SCHOOL

